



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Cynnydd Cynllunio Basn Afon Cymru 2009 – 2015

Diweddarwyd: Rhagfyr 2015

Cynnwys

1. Cyflwyniad i'r ddogfen hon.....	3
1.1 Beth y mae'r ddogfen hon yn ymdrin â hi.....	4
2. Crynodeb Cynnydd Cymru Gyfan 2009 – 2015.....	5
2.1 Cyflwyniad.....	5
2.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf.....	5
2.3 Dirywiad.....	12
2.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf.....	13
2.5 Cydymffurfiad ag Ardal Warchoddedig.....	21
3. Cynnydd Ardal Basn Afon Dyfrdwy 2009 - 2015.....	25
3.1 Cyflwyniad.....	25
3.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf.....	25
3.3 Dirywiad.....	29
3.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf.....	30
3.5 Cydymffurfiad ag ardal warchoddedig.....	38
4. Cynnydd Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru 2009 - 2015.....	45
4.1 Cyflwyniad.....	45
4.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf.....	45
4.3 Dirywiad.....	51
4.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf.....	54
4.5 Cydymffurfiad ardal warchoddedig.....	62
5. Rhan Cymru o Gynnydd Ardal Basn Afon Hafren 2009 – 2015.....	76
5.1 Cyflwyniad.....	76
5.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf.....	77
5.3 Dirywiad.....	80
5.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf.....	84
5.5 Cydymffurfiad Ardal Warchoddedig.....	92
6. Adolygu cynnydd cylch cyntaf.....	98
Atodiad.....	100

1. Cyflwyniad i'r ddogfen hon

Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) Ewrop sy'n gosod y prif fframwaith ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr ar draws Ewrop. Yn ganolog iddi y mae ymdriniaeth ecosystem sy'n gofyn i fesurau gael eu cymryd i annog defnydd cynaliadwy ar ddŵr ac i amddiffyn a gwella dyfroedd wyneb mewndirol, dyfroedd daear a dyfroedd arfordirol, gyda'r nod o gyflawni statws da. Mae'n cydnabod bod angen i grwpiau â diddordeb gydweithio i gynllunio a gweithredu gwelliannau, gan gymryd ymdriniaeth gyfannol ac integredig tuag at reoli'r amgylchedd dŵr.

O dan y WFD, rhaid datblygu cynllun rheoli ar gyfer pob Ardal Basn Afon (RBD). Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn), fel awdurdod cymwys ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb yng Nghymru, y rhain yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2009. Amlinellodd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMP) y camau a oedd angen eu cymryd ym mhob Ardal Basn Afon fel bod mwy o ddyfroedd ar statws da erbyn 2015 ac roedd angen i ymchwiliadau brofi a oedd hi'n ymarferol i'r holl ddyfroedd gyflawni hyn erbyn 2027.

Rhaid i'r cynlluniau, a'r amcanion a'r mesurau sydd o'u mewn, gael eu hadolygu a'u diweddarau bob chwe blynedd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwybodaeth ar y cynnydd a wnaed trwy gydol y cylch cyntaf rhwng 2009 a 2015. Er mwyn asesu cydymffuriad ag amcan WFD o atal dirywiad, **mae data o ddsbarthiad 2015 (sy'n cynnwys data hyd at ddiwedd 2014) wedi'i gymharu â'r un safonau, offer dosbarthu a rhwydwaith corff dŵr ag a ddefnyddiwyd yn 2009¹**. Cyfeirir at hyn fel 'Hen Flociau Adeiladu' gyda gwybodaeth bellach ar gael yn **Atodiad Trosolwg RBMP**. Mae afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol yn chwarae rôl bwysig iawn yn ein hansawdd bywyd ac yn cynnig gwasanaethau ecosystem sy'n cefnogi ein hiechyd, lles, bywyd gwylt a thwf cynaliadwy ein heconomi. Mae rheolaeth gynaliadwy o'r ffyrdd niferus yr ydym yn defnyddio dŵr yn egwyddor allweddol o broses cynllunio basn afon. Yn greiddiol i'r broses gyfan y mae'r angen i ddeall ble y mae ein dyfroedd dan y bygythiad mwyaf, er mwyn targedu yn effeithiol y mesurau gwella ac amddiffyn.

Gwybodaeth ategol

Ymhlith y data sydd ar gael ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru** y mae:

- Canlyniadau dosbarthu
- Rhesymau dros beidio â chyflawni statws da
- Amcanion y corff dŵr
- Rhesymau dros amcanion statws amgen
- Rhwydweithiau monitro
- Mesurau sy'n ofynnol i wella cyrff dŵr i statws da

¹ Hwyrach y bydd ychydig o wahaniaethau yn nifer y cyrff dŵr a/neu canlyniadau dosbarthu yr adroddir amdanynt yn y RBMPau a gyhoeddir yn 2009 a'r rheini a gyflwynir yn yr adroddiad hwn er 2009. Mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd newidiadau yn ffiniau dalgylchoedd yn ystod y cylch cyntaf a/neu data ecolegol yn cael ei ddsbarthu fel data cyffredinol yn nogfen RBMP 2009.

1.1 Beth y mae'r ddogfen hon yn ymdrin â hi

Bydd yr adroddiad hwn yn bodloni rhai o anghenion adrodd Atodiad VII y WFD. Mae'n rhan ffurfiol o'r RBMP ond fe'i cyflwynir fel dogfen ar wahân. Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o'r sefyllfa yn 2009, ble y dywedasom ni y byddem ni a ble'r ydym ni yn awr, gan gynnwys crynodeb o'r newidiadau neu'r diweddariadau ers y RBMP blaenorol. Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn bedair adran - crynodeb Cymru gyfan, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, Ardal Basn Afon Dyfrdwy a rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren. Bydd yr Ardal Basn Afon Hafren llawn yn rhan o **Gynllun Rheoli Ardal Basn Afon Hafren** Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys yr isadrannau a ganlyn;

- Aseiad o gynnydd yng Nghymru tuag at gyflawni camau, gan gynnwys atal dirywiad, gwella tystiolaeth, camau a gwblhawyd fel rhan o'r rhaglen o fesurau a mesurau newydd ychwanegol ers cyhoeddi RBMP 2009.
- Adnabod dirywiad.
- Cynnydd wrth gyflawni amcanion amgylcheddol yn ystod cylch cyntaf proses cynllunio rheoli basn afon.
- Statws cyrff dŵr wedi'u crynhoi ar gyfer cyrff afonydd, llynnoedd, aberol ac arfordirol a dŵr daear gan ddefnyddio offer dosbarthiad cylch cyntaf.
- Cydymffurfriad Ardal Warchoddedig.

Mae'r ddogfen yn adroddiad cynnydd ar ganlyniadau'r cylch cyntaf a dosbarthiad cyfredol er mwyn caniatáu cymhariaeth rhwng data dosbarthiad 2009 a 2015 fesul corff dŵr a lefel elfen. Mae newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r rhwydwaith corff dŵr a'r ffyrdd y mae cyrff dŵr yn cael eu monitro ar gyfer RBMP yr ail gylch i'w gweld yn **Atodiad Trosolwg RBMP**.

Mae ein gwybodaeth o'r amgylchedd dŵr wedi gwella bob yn dipyn ers cyhoeddi'r cynllun cyntaf yn 2009. Mae cynyddu faint o ddata amgylcheddol sydd ar gael i seilio ein hasesiadau arnynt a datblygu a mireinio'r modelau a ddefnyddir i ddehongli data wedi datblygu'n helaeth ar ein dealltwriaeth o statws cyrff dŵr. Mae'r wybodaeth gynyddol hon yn bwysig gan ei bod yn hysbysu ble y mae'r lle gorau i dargedu ymdrechion i amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr.

2. Crynodeb Cynnydd Cymru Gyfan 2009 – 2015

2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni yng Nghymru ers cyhoeddi'r cynlluniau cyntaf yn 2009. Mae'n cynnwys adran ar y mesurau a weithredwyd a sut y mae'r amgylchedd dŵr wedi newid yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (wedi'i seilio ar gymharu data hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu ag a ddefnyddiwyd yn 2009).

Ers cyhoeddi cynlluniau 2009 mae llawer o welliannau wedi'u gwneud gan gynnwys tystiolaeth gynyddol, newidiadau yn y ffordd yr ydym yn monitro a chasglu gwybodaeth; er enghraifft adolygiad cyrff dŵr a Addaswyd yn Sylweddol. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn **Atodiad Trosolwg RBMP**. Dangosir nifer a math y cyrff dŵr yng Nghymru yn nhabl 1 isod.

Tabl 1. Nifer a math y cyrff dŵr yng Nghymru

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	Addaswyd yn Sylweddol	Cyfanswm
Afon*	863	28	110	1001
Llyn	29	3	90	122
Arfordirol	18	n/a	6	24
Aberol	17	n/a	14	31
Dŵr daear	38	n/a	n/a	38
Cyfanswm	965	31	220	1216

*Mae cyrff dŵr afon yn cynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb

Ers cyhoeddi'r RBMP cyntaf yn 2009 rydym wedi cynnal adolygiad o'r cyrff dŵr hynny sydd wedi'u rhestru yn Gyrrff Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol (HMWB) gyda rhai HMWBau wedi'u dad-ddynodi. Golyga hyn bod tri ar ddeg o gyrrff dŵr afon a oedd wedi'u dosbarthu yn HMWB yn 2009 bellach wedi'u dad-ddynodi a bellach mae ganddynt amcan i fodloni statws ecolegol da yn hytrach na photensial ecolegol da yn yr ail gylch. Gan hynny mae nifer a math y cyrff dŵr yn nhabl 1 uchod yn cynrychioli'r wybodaeth hon sydd wedi'i diweddarau ac fe allai amrywio ychydig o'r rheini a gyflwynwyd yng nghynllun 2009.

2.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf

Gellir rhannu'r camau a gymerwyd yn ystod y cylch cyntaf i'r grwpiau a amlinellir isod. Mae cyfuniad o'r holl gamau hyn yn cyfrannu at amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r camau yn perthyn i bob math o gyrrff dŵr, afonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol gan gynnwys y rheini o fewn ardaloedd gwarchodedig. Yn eu plith y mae Rhaglen Fesurau a amlinellwyd i gyflawni'r amcanion statudol, gan gynnwys defnyddio dulliau cyfredol a chamau statudol a gwirfoddol. Amlinellir y Rhaglen Fesurau wedi'i diweddarau yn Adran 3 y **Crynodeb RBMP** wedi'i ddiweddarau yn 2015 a darperir mwy o fanylion lleol yn **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

Atal dirywiad

Mae'r holl fesurau a llawer o weithgareddau beunyddiol Cyfoeth Naturiol Cymru a llawer o'n partneriaid yn cyfrannu at atal dirywiad yr amgylchedd dŵr.

Er enghraifft mae gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys:

- Gweithio gyda datblygwyr ar safleoedd adeiladu mawr a neu gymhleth megis ffermydd gwynt, tai ayyb gan gynnwys ymweliadau Atal Llygredd er mwyn atal digwyddiadau ynghyd â chynnig sylwadau ar ddatganiadau dull, ymweld â'r safle yn ystod gwaith adeiladu a dilyn i fyny ar ddiwyddiad os oes angen.
- Gweithio gyda'r diwydiant coedwigaeth ar safleoedd cynaeafu anodd
- Gwaith ymchwilio i gamgysylltiadau
- Cynghori ar ddatblygiadau cynllun ffordd
- Ymweliadau fferm fel rhan o ymgyrch dalgylch wedi'i thargedu
- Gweithdai codi ymwybyddiaeth ar reoli pridd a seilwaith ffermydd
- Prosiectau ar wahân megis Nentydd Clir (*Clear Streams*)
- Cytundebau rheoli a monitro SoDdGA
- Materion caniatâd a gwiriadau cydymffurfiad
- Dulliau coedwigaeth a threfn blannu newydd i gynnwys rhywogaethau llydanddail a stribynnau byffer glannau'r afon.
- Prosiectau adfer cynefin
- Rheoli tir sy'n berchen i Gyfoeth Naturiol Cymru, neu'n cael ei reoli ganddo
- Trwyddedu a chynghori ar rywogaethau a chynefinoedd
- Digwyddiadau Amgylcheddol - Mae 4,900 o ddiwyddiadau Rheoli'r Amgylchedd wedi'u cadarnhau ers creu Cyfoeth Naturiol Cymru ar 01/04/2013, gyda 1,814 yn effeithio ar ddŵr (Categori 1/2/3). Ar gyfartaledd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn 10,000 o alwadau bob blwyddyn ar draws gwahanol fathau o ddiwyddiadau, e.e. 300 o ddiwyddiadau amaethyddol, ac o'u plith roedd 89 ohonynt yn cynnwys slyri.

Mae rhaglenni neu brosiectau arfaethedig eraill hefyd wedi cyfrannu at atal dirywiad. Mae hyn yn cynnwys y cynllun amaeth-amgylchedd Uwch Gynllun Ansawdd Dŵr Glastir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal asesiadau mewn ffermydd wedi'u dethol gan Lywodraeth Cymru i adnabod cyfleoedd i wella, cadw neu wneud defnydd mwy effeithlon ar ddŵr a phriddoedd. Darperir ein canfyddiadau o fewn Cynllun Rheoli Dŵr ac, yn ôl yr angen, Adroddiad Storio a Chynllun Rheoli Maetholion. Ers i'n gwaith ddechrau yn 2011, rydym wedi asesu dros 600 o ffermydd yn ardaloedd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd dŵr a misglen berlog yr afon. Mae'r ardaloedd blaenoriaeth hyn wedi'u seilio ar ymrwymadau WFD a Natura 2000. Arweiniodd yr asesiadau hyn at adnabod dros 6,500 o broblemau sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd dŵr. Gall effaith gronnydd y problemau buarth a chaeau hyn gael effaith anferth ar yr amgylchedd sy'n derbyn ar raddfa dalgylch.

Camau partneriaeth

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar raglen creu morfeydd heli, mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol, sefydliadau trydydd sector a thirfeddianwyr mawr, i ostwng effeithiau gwasgfa arfordirol.

Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda ni drwy'r broses cynllunio datblygiad i annog tynnu ceuffosydd i adfer amgylchedd afon mwy naturiol o fewn ardaloedd trefol a gwledig. Anogwn Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) a seilwaith gwyrdd o fewn datblygiadau newydd i reoli dŵr yn naturiol.

Afonydd Cymru

Sefydliad ambarél yw Afonydd Cymru sy'n cynrychioli naw Ymddiriedolaeth Afon ar draws Cymru. Mae'r Ymddiriedolaethau wedi bod yn cyflwyno prosiectau trwy gydol y cylch cyntaf sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion WFD; gan gynnwys atal dirywiad a chyflawni statws

cyffredinol da. Mae rhai enghreifftiau o'r gweithgareddau yn cynnwys ffensio, gwella cynefinoedd, plannu coed, monitro ac arolygu afonydd a gwella taith pysgod trwy dynnu rhwystrau megis sylfeini pontydd a choredau. Mae'r tablau isod yn rhoi cyfansymiau cryno'r holl brosiectau a hyd y gwelliant sydd wedi'i gyflawni gan Afonydd Cymru trwy ei Brosiect Gwelliannau Amgylcheddol i Gynnal Pysgodfeydd Cymru (EISWF) o'i ddyddiad dechrau ym mis Tachwedd 2009 hyd at ddiwedd cyflwyno'r prosiect cyfalaf ym mis Gorffennaf 2015. Ariannwyd y prosiect hwn trwy'r Gronfa Pysgodfeydd Ewrop a Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y prosiectau sy'n rhan o'r ffigurau hyn yn ardaloedd yr Ymddiriedolaethau Afonydd a ganlyn: Clwyd, Conwy a Gwynedd, Dyfrdwy Cymru, Sir Benfro, Teifi a Deddwyrain Cymru. Roedd gan Ymddiriedolaeth Afonydd Caerfyrddin ei phrosiect Cronfa Pysgodfeydd Ewrop ei hun a dangosir yr allbynnau yn nhabl 3.

Tabl 2. Allbynnau prosiect EISWF Afonydd Cymru

Targed	Cyfanswm cronedig Llwyddiant Terfynol (ar Gorffennaf 2015)	Prosiect ddiwedd
Sawl hwylusfa pysgod a gwblhawyd	63	
Sawl cynllun calchu a weithredwyd	3	
Sawl cynllun adfer cynefinoedd a gwblhawyd	74	
Nentydd gyda gwell mynediad	342.1km	
Nentydd gyda gwell ansawdd dŵr	51.7km	
Nentydd gyda chynefin wedi gwella	42.3km	

Mae'r buddion a'r gwelliannau ffisegol ar y tir i'r dyfrgyrsiau a'r pysgodfeydd ar draws yr ardal prosiect, o ran targedau ar gyfer hyd y mynediad gwell, ansawdd dŵr a nentydd gyda chynefin gwell, oll wedi'u cyflawni yn llawer gwell na'r disgwyl gan bellteroedd sylweddol (>70km i gyd).

Tabl 3. Cyfanswm ar gyfer allbynnau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) Ymddiriedolaeth Afonydd Caerfyrddin

Targedau	Llwyddiant prosiect terfynol
Afon wedi'i hagor ar gyfer pysgod mudol	212.6km
Ffens sribyn byffer	71.0km
Prysgoedio	56.6km
Deunydd meddal i gryfhau glan afon	850m

Hefyd mi wnaeth yr Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin gwblhau nifer uchel o hawddfrentiau pysgod gan ddefnyddio cyllid 'European Fisheries' a wirfoddolwyr.

Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) Rhaglen Cynllunio Rheoli Asedau (AMP)

Bob 5 mlynedd, mae Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) yn cynhyrchu rhaglen o welliannau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u hasedau megis gwaith trin carthffosiaeth a gorlifoedd carthffosiaeth. Gelwir y broses sy'n cynhyrchu'r rhaglen hon yn Adolygiad Cyfnodol ac enw'r rhaglen yw Cynllun Rheoli Asedau (AMP), ac mae gwelliannau amgylcheddol yn rhan ohono.

Ar ddechrau'r cyfnod AMP5 yn 2010, adnabuwyd 74 o gynlluniau ar y rhaglen yn cynrychioli cost o tua £100 miliwn o fuddsoddiad i'r amgylchedd. Erbyn diwedd AMP5 yn 2015, roedd nifer y cynlluniau wedi cynyddu i 548 o gynlluniau. Roedd mwyafrif y cynlluniau ychwanegol hyn ar gyfer monitro digwyddiad a pharhad ar orlifoedd carthffosiaeth cyfunol. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn AMP6 (2015-2020) a bydd yn darparu gwybodaeth ar sut y mae asedau DCWW yn cael effaith bosibl ar statws amgylcheddol / corff dŵr. Bydd hyn yn caniatáu i DCWW dargedu buddsoddiad ar y gorlifoedd hynny sydd â'r potensial i fod yn broblemus.

Targedwyd arbedion a wnaed ar y rhaglen AMP5 hefyd ar feysydd eraill o flaenoriaeth amgylcheddol na ychwanegwyd at y rhaglen yn wreiddiol. Er enghraifft, Bae Abertawe yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ble y nododd data monitro diweddar fod siawns uchel o gael dosbarthiad gwael o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ddiwygiedig. Yn dilyn ymchwiliadau, cafwyd buddsoddiad i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gollyngiadau problemus wedi'u gwella erbyn 2015 ac mae'r gwaith hwn yn parhau yn AMP6. Enghraifft arall yw ychwanegu pedwar gwaith trin carthffosiaeth yn Ardal Cadwraeth Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Ychwanegwyd y rhain at y rhaglen wella er mwyn amddiffyn cynefinoedd ble'r oedd ymchwiliadau wedi nodi bod y gwaith yn effeithio ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Roedd y rhaglen AMP5 hefyd yn cynnwys gwelliannau i asedau i amddiffyn dyfroedd pysgod cregyn a chyrrff dŵr daear.

Rhaglen Fesurau

Yn RBMP 2009 amlinellwyd y Rhaglen Fesurau yn Atodiad C a D (ar gyfer y camau Ardal Warchoddedig). Roeddent yn cynnwys mesurau cenedlaethol a lleol, ar draws sectorau a phob math o gyrff dŵr. Dyma oedd y rhaglen gyntaf o fesurau statudol a ddatblygwyd yn benodol i fodloni gofynion y WFD. Maen nhw'n cynnwys camau i atal dirywiad a gwelliannau yn statws corff dŵr. Mae cynnydd ar y rhain yn cael eu hadrodd yn ffurfiol wrth Ewrop trwy'r System Gwybodaeth Ddŵr Ewrop (WISE).

Mae 81% o fesurau a adnabuwyd yn y cynllun cyntaf wedi'u cwblhau yng Nghymru. Nid yw rhai mesurau wedi'u cwblhau am y rhesymau a ganlyn;

- Nid oes angen 30 o fesurau sydd wedi'u hailasesu mwyach neu nid ydynt yn cael eu hystyried yn effeithiol
- Ni chafodd 39 ohonynt eu hariannu (tynnu ariannu yn ôl)
- Gyda 16 ni chafwyd mecanwaith i weithredu'r mesur
- Mae 92 yn barhaus

Ymchwiliadau

Mae'r Rhaglen Fesurau hefyd yn cynnwys ymchwiliadau, er enghraifft ymchwiliadau i effeithiau mwyngloddiau metel trwy'r Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru. Yn ychwanegol at y mathau penodol hyn o ymchwiliadau, mae rhaglen dreigl hefyd sy'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da heb gynnwys y rheini i sicrhau 'dim dirywiad'. Roedd y rhaglen dreigl hon yn cynnwys 671 o ymchwiliadau ar draws Cymru rhwng 2009 a 2015. Mae canlyniadau'r rhain yn galluogi i ni adnabod datrysiadau a mesurau i gynnal y gwelliannau gofynnol. Mae canlyniad y gwaith hwn yn bwydo'n uniongyrchol i'r Rhaglen Fesurau wedi'i diweddarau a amlinellir yn Adran 3 y **Crynodeb RBMP** a ddiweddarwyd yn 2015 ar gyfer pob RBD.

Tystiolaeth well

Yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf mae llawer wedi'i wneud i wella dealltwriaeth o'r amgylchedd dŵr. Mae swm ac ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael wedi tyfu oherwydd buddsoddiad sylweddol.

- Yng Nghymru mae arian ychwanegol wedi'i fuddsoddi mewn rhaglenni monitro ecolegol newydd ar gyfer afonydd a buddsoddiad ychwanegol mewn technegol monitro cemegol.
- Yng Nghymru, mae mwy na 1000 o ymchwiliadau wedi'u cynnal i adnabod y rhesymau (pwysau, a ffynonellau'r pwysau) pam nad yw statws da ac amcanion Ardal Warchoddedig wedi'u cyflawni.
- Mae'r camau a fyddai'n ofynnol i gyflawni statws da ac amcanion Ardal Warchoddedig wedi'u hadnabod.
- Trwy werthusiad economaidd manwl, mae gwell dealltwriaeth o'r buddion y gall yr amgylchedd dŵr eu darparu a chost y mesurau sy'n ofynnol i wireddu'r buddion.
- Mae'r genhedlaeth ddiweddaraf o feini prawf asesiad amgylcheddol wedi'u cyflwyno ar y cyd gydag ystod o bartneriaid a gwyddonwyr blaenllaw fel rhan o Grŵp Cynghori Technegol WFD y DU. Mae'r gwelliannau hyn i'r dulliau yn golygu bod canlyniadau dosbarthu bellach yn ddehongliad gwell o iechyd cyffredinol yr amgylchedd dŵr a bydd yn cael ei weithredu yn y cynllun wedi'i ddiweddarau 2015. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:
 - safonau newydd ar gyfer sylweddau cemegol ychwanegol
 - safonau wedi'u diweddarau ar gyfer elfennau ffisio-gemegol cyfredol
 - offer asesu biolegol newydd a gwell a gwerthoedd ffin dosbarthu fiolegol rhyng-galibredig newydd.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud wrth fapio'r rhwydwaith corff dŵr.
- Mae asesiadau risg gwell wedi'u cyflwyno i helpu i dargedu rhaglenni monitro yn y dyfodol, ac yn rhagfynegi ac yn helpu i atal dirywiad posibl yn yr amgylchedd dŵr.

Mesurau newydd ychwanegol

Yn y RBMPau yn 2009, neilltuwyd mesurau i gyrff dŵr ar sail gwybodaeth leol gyfredol. Fel rhan o'r rhaglen dreigl o ymchwiliadau a thystiolaeth well cafodd y rhaglen o fesurau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cyflwyno yn y man cywir. Yn ystod y cylch cyntaf roedd hi'n amlwg bod blaenoriaethau a/neu gyfleoedd newydd yn golygu bod rhai camau yn cael eu hadolygu i adlewyrchu angen cyfredol yr amgylchedd. Yn eu plith y mae;

- Cymhwyso mesurau cyfredol mewn man newydd.
- Cyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid mewn ffordd wahanol gan ddefnyddio adnoddau ac ariannu cyfredol, megis y rhaglen taith gerdded ar lan yr afon a ffurfiodd ran allweddol o'r gwaith ymchwiliadau lleol.
- Arian newydd i fynd i'r afael â gwelliannau WFD yn dod ar gael. Rhoddir rhai enghreifftiau isod. Gyda'r arian hwn ac adnoddau eraill o bob rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru, mae partneriaethau wedi'u datblygu gyda dros 100 o bartneriaid gan gynnwys tîrfeddianwyr, undebau ffermio, ymddiriedolaethau afonydd, ymddiriedolaethau natur, elusennau natur ac ymddiriedolaethau addysgiadol. Rhwng 2011 a 2013 fe wnaeth y partneriaethau hynny gyflwyno prosiectau gwerth £4.4 miliwn a gyfrannodd at welliannau mewn 152 o gyrff dŵr; creu ac adfer 400 hectar o gynefinoedd a chyfoethogi neu adfer 370km o afonydd.

Ariannu Llywodraeth Cymru

Cychwynnodd Llywodraeth Cymru gronfa ar draws Cymru i gefnogi prosiectau partneriaeth gwirfoddol a oedd yn cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd dŵr. Yn ystod y cylch cyntaf, derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru £850 mil dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru (£450 mil yn 2012/13, £150 mil yn 2013/14 a £250 mil yn 2014/15) i gefnogi cyflwyno prosiectau WFD. Mae'r arian hwn wedi gallu denu ariannu cyfatebol o ffynonellau eraill gan godi eu gwerth. Amcangyfrifir bod £140,000 o gronfa Llywodraeth Cymru yn 2013/2014 wedi cynhyrchu £450,000 ychwanegol mewn arian cyfatebol gan wireddu budd llawer gwell i'r amgylchedd dŵr. Cefnogwyd ystod eang o brosiectau trydydd sector gan gynnwys gweithgareddau megis ffensio, plannu coed a thynnu rhwystrau ynghyd â nifer o brosiectau ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth.

Tabl 4. Prosiectau WFD Llywodraeth Cymru Cymru Gyfan

Blwyddyn	Teitl Prosiect	Partner/Partneriaid Arweiniol
2014-15	Arbrawf bio-ologsg Mwyngloddiau Metel segur	Ymddiriedolaeth Mwyngloddiau Cambria
2014-15	Arbrawf Cymhwys Adfer Afonydd	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru , Agored Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru'r De-ddwyrain, Groundwork Caerffili.

Yn 2014/15 cafodd cronfa WFD ei chyfeirio i ymuno â'r £750 mil o'r Gronfa Drawsnewid i gefnogi prosiectau WFD o fewn tri Arbrawf Rheoli Cyfoeth Naturiol yn nalgylchoedd Rhondda, Tawe a Dyfi.

Cefnogodd hyn 20 o brosiectau partneriaeth ar draws Cymru. Aeth llawer o'r prosiectau i'r afael hefyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â materion WFD.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi 20 o brosiectau i fynd i'r afael â bioamrywiaeth sy'n dirywio a chyflwyno buddion i gymunedau trwy'r Gronfa Natur. Mae ffocws y buddsoddiad ar gyflwyno 5 blaenoriaeth allweddol o fewn 7 Ardal Gweithredu Byd Natur ar draws Cymru. Y 7 ardal ddaearyddol yw:

- Bannau Brycheiniog
- Mynyddoedd Cambria
- Dyffryn Conwy
- Arfordir Sir Benfro
- Cymoedd De Cymru
- Berwyn a Migneint
- Penllyn

Y 5 gweithgaredd allweddol yw:

- camau i wella dalgylchoedd afonydd
- camau ar ecosystemau morol
- camau ar amgylchedd lleol
- camau i wireddu potensial ein hardaloedd ucheldir

- camau i annog arloesiad

Amrywia'r prosiectau o waith i wella dalgylchoedd afonydd ac ecosystemau morol, i adfer mawndiroedd a phrosiect cymunedol yn rheoli coetir.

Trwy'r prosiect Eogiaid at Yfory mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn dros £2 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop am brosiectau sydd wedi symud rhwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo, gan gynnwys adeiladu 13 o ysgolion pysgod ffurfiol a 49 hwylusfa pysgod technegol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf ac adfer cynefinoedd yn y nentydd a glan yr afon. Gan arwain at gyfanswm o 732km o fynediad gwell i bysgod.

Ariannu Dŵr Cymru/Welsh Water

Mae partneriaid megis Dŵr Cymru/Welsh Water wedi arwain yn rhagweithiol i wella'r amgylchedd dŵr a chynnig arian cyfatebol i gronfa Llywodraeth Cymru yn 2012 a 2013 ar gyfer prosiectau a gyfrannodd at welliannau yn yr amgylchedd dŵr yn enwedig ble'r oeddynt yn perthyn i asedau'r cwmni.

Lansiwyd y cynllun gwerth £400,000 cychwynnol ym mis Gorffennaf 2012 ac fe'i crëwyd i gynnig arian cyfatebol i gronfa a weithredwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gan gydnabod pwysigrwydd y cynllun, ychwanegodd Dŵr Cymru £150,000 pellach ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r cynllun ariannu yn anelu at helpu i weithredu'r WFD o fewn ardal weithredol Dŵr Cymru.

Enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth

- **Nentydd Clir Abertawe.** Menter i sicrhau bod y nentydd, yr afonydd a'r môr yn Abertawe a'r ardal yn lân, yn iach ac yn rhydd rhag llygredd. Mae'r fenter yn cynnwys ystod o sefydliadau gan gynnwys y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector. Gan ddefnyddio arian o gronfa WFD Dŵr Cymru, mae dau bartner wedi cyflogi staff i weithio ar y fenter Nentydd Clir. Mae Fforwm Amgylcheddol Abertawe wedi cyflogi aelod o staff i gydlynu'r ymateb i'r amgylchedd dŵr ynghyd â darparu gwybodaeth i fusnesau ar sut i helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr.
- **Prosiect Tirlun Byw Alun & Chwiler** (o fewn Sir Ddinbych a Sir y Fflint) a ariennir gan Waste Recycling Environmental Limited (WREN), Dŵr Cymru a chyfraniadau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Dechreuodd y prosiect ym mis Tachwedd 2014 ac fe fydd yn rhedeg am 3 blynedd ac mae'n anelu at adffurfio cynefinoedd ar hyd glannau Alun a Chwiler.
- **Ymddiriedolaeth Afonydd Morgannwg** - fe wnaethant gynnal prosiect wedi'i gefnogi a'i ariannu gan Amgylchedd Cymru i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol ar hyd Nant lechyd. Fe wnaeth yr ymddiriedolaeth glirio'n llwyddiannus Jac y Neidiwr o 9km o lan yr afon, 2km o lwybrau cyfagos a 2 hectar o'r tir amgylchynol. Treuliodd 24 o wirfoddolwyr dros 300 awr yn codi Jac y Neidiwr.
- **Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru** - maen nhw wedi hyfforddi gwirfoddolwyr ac wedi prynu offer torri trwy gronfa Trefi Cadwch Gymru'n Daclus i fynd i'r afael â Jac y Neidiwr yn Nalgylch Dyfrdwy. Mae'r prosiect bellach yn cynnwys Clybiau Genweirwyr sy'n ymestyn o Gorwen i Fangor.

Amcanion amgen

Mewn rhai enghreifftiau mae rhesymau hysbys pan na wnaeth cyrff dŵr gyflawni statws da erbyn 2015. Ar gyfer y cylch cyntaf cafwyd 588 o gyrff dŵr yn y ddwy Ardal Basn Afon y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol amdanynt (71 yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy a 517 yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru) a ddisgynnodd i'r categori hwn ble cafodd amcan amgen ei osod i fodloni statws da erbyn 2027. Cafodd llawer o'r rhain eu cynnwys gan nad oedd achos yr effaith niweidiol yn hysbys, mae ymchwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y cylch cyntaf wedi cynyddu ein dealltwriaeth. Amlinellir manylion yr amcanion amgen ar gyfer y chwe blynedd nesaf yn Adran 4 pob **Crynodeb RBMP** a ddiweddarwyd yn 2015.

2.3 Dirywiad

Un o brif amcanion y WFD yw atal dirywiad corff dŵr o waelodlin 2009. Os gwelir bod dirywiad yn y statws rhwng 2009 a 2015 ar sail data sydd ar gael rhaid asesu ac esbonio'r rhesymau dros hyn.

Nid yw peth dirywiad o reidrwydd yn golygu bod ansawdd yr amgylchedd yn waeth, yn syml rydym wedi monitro elfennau yn y corff dŵr hwnnw yn ystod y cylch cyntaf nad oeddynt yn cael eu monitro yn flaenorol. Mae'n bwysig bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei adolygu i bennu pa gamau y mae angen eu cymryd ymhle ac mewn rhai achosion ni fydd angen unrhyw gamau dilyn i fyny.

Er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r amcan WFD o atal dirywiad, cafodd canlyniadau dosbarthu 2015 (wedi'u seilio ar ddata hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009), eu cymharu â gwaelodlin dosbarthu 2009. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd elfen wedi dirywio o un dosbarth statws yn 2009 i un is yn 2015. Mae hyn yn cynwys lle mae elfen wedi dirywio ond sydd ddim wedi achosi dirywiant yn y dosbarthu ar y cyfan oherwydd y dosbarthu yr elfenau eraill. Mae hyder wedi'i fesur o ran sicrwydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnwys y safleoedd hynny ble'r ydym yn 'weddol sicr' i 'hynod sicr' bod yr elfen wedi methu. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hwn yn nhabl 5.

Tabl 5. Cyrff dŵr sydd hefo elfenau sydd wedi dirywio (ar >75% o hyder)

Cyrff dŵr	Nifer	%
Statws ecolegol dŵr wyneb	41	3%
Statws cemegol dŵr wyneb	6	0.5%
Statws meintiol dŵr daear	0	0%
Statws cemegol dŵr daear	0	0%

Yng Nghymru mae cyfanswm o 12 o gyrff dŵr wedi dirywio mewn statws dosbarthu ar y cyfan ers 2009.

Rhesymau dros Ddirywiad

Crynoir y rhesymau dros y dirywiadau a amlinellir yn nhabl 5 uchod mewn fformat tabl o dan bob adran Ardal Basn Afon. Trwy gydol y cylch cyntaf rydym wedi cynyddu'n dealltwriaeth o'r cyrff dŵr. Rhan o wella'r wybodaeth hon yw monitro cynyddol i sicrhau data pellach. Os oes gennym wybodaeth newydd yn ymwneud â chorff dŵr yn sgil data monitro cynyddol sy'n achosi i'r corff dŵr ddisgyn mewn dosbarthiad, yna nid yw'n cael ei restru fel dirywiad mewn statws. Digwydd dirywiad gwirioneddol pan ceir gostyngiad mewn statws elfen ble y mae data ar gael i gymharu rhwng 2009 a 2015 sydd wedyn yn arwain at gwmp yn y statws dosbarthu.

2.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf

Mae llawer o welliannau wedi'u cynnal yn ychwanegol at y mesurau hyn gan lawer o sefydliadau ac unigolion. Yn 2009, cyflawnodd 32% o gyrff dŵr yng Nghymru statws corff dŵr cyffredinol da neu well. Rhagwelodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai 40% yn dda neu'n well yn 2015. Mae canlyniadau dosbarthu 2015 yn nodi bod 39% o'r holl gyrff dŵr bellach yn cyflawni statws cyffredinol da neu well.

Er bod llawer o'r mesurau a gwblhawyd yn ystod y 6 blynedd diwethaf yn darparu buddion i'r amgylchedd lleol, cyfyngedig yw'r gwelliant sydd wedi bod yn nifer y cyrff dŵr ar statws da. Serch hynny, yn ystod y cyfnod hwnnw, fe wnaeth 683 o elfennau² cyrff dŵr wella gan un neu'n fwy dosbarth ar draws Cymru.

Tabl 6. Cymharu gwaelodlin 2009 gyda chanlyniadau rhagfynegol a gwirioneddol yn 2015

Canran y cyrff dŵr ar statws da neu well	2009	2015 rhagfynegol	2015 gwirioneddol
Statws ecolegol dŵr wyneb	31%	39%	39%
Statws cemegol dŵr wyneb	6%	6%	16%
Statws meintiol dŵr daear	97%	97%	100%
Statws cemegol dŵr daear	68%	68%	58%
Statws Cyffredinol	32%	40%	39%

Statws cemegol: Yn 2009 roedd 6% o gyrff dŵr ar statws da, 2% wedi methu a 92% heb eu hasesu oherwydd nad ydynt wrth risg. Yn 2015 roedd 16% ar statws da, 5% wedi methu a 79% heb eu hasesu oherwydd nad ydynt wrth risg. Serch hynny, er ei bod hi'n ymddangos bod cynnydd o 10% ar gyfer cyrff dŵr sydd ar statws da a hefyd gan 3% yn methu hyn oherwydd bod 156 o gyrff dŵr yn ychwanegol yn cael eu hasesu ar gyfer eu statws cemegol yn nosbarthiad 2015. Gan hynny mae'r canlyniadau yn adlewyrchu'r

² Sylwer mae 'Elfennau corff dŵr' yn cynnwys elfennau ecolegol (biolegol, ffisio-gemegol, sylweddau eraill ac elfennau llygredd penodol ac eithrio BOD ac Ocsigen Tawdd mewn camlesi) ac elfennau cemegol (Llygryddion Eraill, Sylweddau Blaenoriaeth a Sylweddau Peryglus Blaenoriaeth) o fewn dyfroedd wyneb yn unig ac elfennau meintiol a chemegol (GW) ar gyfer cyrff dŵr daear yn unig. Ac eithrio elfennau ategol. Elfennau wedi'u hasesu yn unig.


nifer cynyddol o gyrff dŵr sy'n cael eu monitro yn hytrach na gwelliant gwirioneddol yn statws cemegol cyffredinol, mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn adran 2.3.1 ffigur 3.


Mae gwelliant yn y statws cyffredinol wedi'i gyfyngu gan ddealltwriaeth gyfredol o bwysau ar yr amgylchedd dŵr, eu tarddleuoedd, y camau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hwy ynghyd â'r adnoddau i gyflwyno'r rhaglen (yn bobl a chyllideb). Yn ychwanegol gall rheolau 'un allan y cyfan allan' dosbarthiad WFD arwain at fethiant un elfen sy'n cael ei monitro i yrru'r statws cyffredinol.

2.4.1 Statws dosbarthu corff dŵr cyffredinol i Gymru

Yn 2009 roedd 9% o'r holl gyrff dŵr mewn cyflwr gwael, roedd 59% mewn cyflwr cymedrol a 32% mewn cyflwr da. Ers hynny, mae llawer o welliannau wedi'u gwneud a hynny o ran monitro a chasglu ac asesu data. Dengys dosbarthiad 2015 bod canran y gyrff dŵr sy'n cyflawni statws da neu well wedi cynyddu i 39%. Fel y dangosir yn ffigur 1 isod, mae nifer y gyrff dŵr ar statws gwael wedi gostwng i 6% gyda gostyngiad canlyniadol yn nifer y gyrff dŵr ar statws cymedrol. Disgwylwn weld gwelliannau pellach wrth i'r amgylchedd ymateb, gan wireddu buddion y camau.

Ffigur 1. Cymhariaeth ganrannol o statws cyffredinol y gyrff dŵr yng Nghymru rhwng dosbarthiadau 2009 a 2015.





Mae peth o'r newid hwn yn adlewyrchu nifer y safleoedd a fonitir gan raglen fonitro WFD. Er 2009, er mwyn llanw bylchau yn ein dealltwriaeth, rydym wedi cynyddu ein monitro i ddeall y pwysau ar yr amgylchedd dŵr yn well, yn enwedig mewn rhai cyrff dŵr aberol ac arfordirol. Er enghraifft, yn 2009 ar draws Cymru fe wnaethom fonitro saith llyn ar gyfer macroffytâu, yn 2015 fe gynyddodd hynny i 41, ac o'r swm hwnnw fe wnaeth 23 fodloni'r safon ofynnol. Gan hynny, mae llawer o'r newid yn y data yn nodi gwell dealltwriaeth o'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd yn hytrach na'r union newid mewn ansawdd.

Dyfroedd wyneb


Yn y cylch cyntaf mae 1,178 o gyrff dŵr wyneb yng Nghymru, gan gynnwys afonydd, camlesi, llynnoedd, cyrff dŵr arfordirol a throsiannol.

Ar gyfer dyfroedd wyneb, mae statws da yn ddatganiad o 'statws cyffredinol', ac mae ganddo gydran ecolegol a chemegol. Mae statws ecolegol yn cael ei fesur ar y raddfa uchel, da, cymedrol, gwael a drwg. Mesurir statws cemegol fel da neu fethiant. Mae gwybodaeth bellach ar sut y mae statws dosbarthu yn cael ei gyfrifo yn **Atodiad Trosolwg RBMP**.

Dosbarthiad ecolegol

Yn 2009 cyflawnodd 31% o gyrff dŵr wyneb yng Nghymru statws ecolegol da neu well. Nododd canlyniadau dosbarthu 2015 bod 39% o'r cyrff dŵr wyneb wedi cyflawni statws da neu well. Mae gwelliant mewn statws wedi'i gyfyngu gan y ddealltwriaeth gyfredol o bwysau ar yr amgylchedd dŵr, eu ffynonellau, a'r camau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hwy.


Ffigur 2. Cymhariaeth ganrannol rhwng dosbarthiad ecolegol ar gyfer dŵr wyneb rhwng 2009 a 2015.



Dosbarthiad cemegol ac adrodd

Mae monitro am gemegion wedi'i seilio ar y rheini sy'n cael eu rhyddhau mewn symiau sylweddol ac ar leoliadau sy'n cael eu hystyried wrth risg o fethu'r amcanion. Mae dros ddwywaith nifer y cyrff dŵr wedi'u hadrodd yn 2015 o'i gymharu â 2009, serch hynny mae cyfran y cyrff dŵr sy'n methu wedi parhau yn weddol debyg. Y cemegion sy'n achosi'r methiannau mwyaf yw metelau sy'n perthyn i ollyngiadau mwyngloddiau segur.

Ffigur 3. Cymhariaeth ganrannol rhwng dosbarthiad cemegol ar gyfer dŵr wyneb rhwng 2009 a 2015.



Cyrff dŵr daear

Yn y cylch cyntaf mae 38 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu fel dŵr daear yng Nghymru. Asesir statws cyrff dŵr daear gan statws meintiol a statws cemegol.

Statws Meintiol

Yn 2009 fe wnaeth 37 o gyrff dŵr daear fodloni statws meintiol da. Yn 2015 cyflawnodd 38 o gyrff dŵr statws meintiol da.

Statws Cemegol

Ar gyfer statws cemegol yn 2009 fe wnaeth 26 o gyrff dŵr daear fodloni statws cemegol da yng Nghymru. Yn 2015 mae 22 mewn statws cemegol da. Mae'r cynnydd hwn yn nifer y cyrff dŵr daear ar statws gwael a dirywiad ymddangosiadol yn ansawdd dŵr daear am y prif resymau a ganlyn:

- Mae ymchwiliadau dŵr wyneb ychwanegol wedi cadarnhau'r cyswllt rhwng gollyngiadau dŵr mwyngloddiau wedi'u llygru (dŵr daear) ac ansawdd dŵr wyneb gwael cyfagos.
- Mae ymchwiliadau hydroddaeareg ychwanegol i ecosystemau daearol dibynnol dŵr daear sylweddol (GWDTEau, gwlyptiroedd wedi'u bwydo gan ddŵr daear) wedi cadarnhau bod dŵr daear sy'n gyfoethog ei faetholion yn gollwng i rai GWDTEau pwysig yn cyfrannu at ddifrod ecolegol sylweddol.

Mae manylion pellach wedi'u cynnwys o fewn pob adran Ardal Basn Afon yr adroddiad hwn. Dangosir crynodeb yn nhabl 7.

Tabl 7. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr, dŵr daear a aseswyd a'u statws yng Nghymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Statws Meintiol				Statws Cemegol			
	Gwael		Da		Gwael		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Dŵr daear	1	0	37	38	12	16	26	22

I weld yr holl rwydweithiau monitro, ewch i **Arsylwi Dyfroedd Cymru** i weld mapiau rhyngweithiol.

2.4.2 Canlyniadau Dosbarthu Ecolegol ar gyfer Mathau o Gyrff Dŵr

Afonydd

Mae 1,001 o gyrff dŵr wedi'u dosbarth yn afonydd, gan gynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb yng Nghymru. Mae 28 o'r rhai wedi'u dynodi yn artiffisial a 110 yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol. Dangosir crynodeb yn nhabl 8.

Tabl 8. Crynodeb o'r cyrff dŵr afon yng Nghymru

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	Addaswyd yn Sylweddol	Cyfanswm
Afonydd	863	8	110	981
Camlesi	0	9	0	9
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	11	0	11
Cyfanswm	863	28	110	1,001

Yn 2009 roedd 290 o gyrff dŵr afon wedi'u dosbarthu ar statws ecolegol da neu well (289 yn dda ac 1 yn uchel) yng Nghymru. Yn 2015 mae hyn wedi cynyddu i 395 o gyrff dŵr sydd gyfwerth â chynnydd o 10% o 29% i 39%. Dangosir crynodeb yn nhabl 9.

Tabl 9. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr afon a aseswyd a'u statws yng Nghymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel		Heb eu hasesu 2015
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	
Afon	3	3	79	35	626	561	272	376	1	0	6
Camlas	0	0	0	0	3	1	6	8	0	0	0
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	0	0	0	0	0	11	11	0	0	0
Cyfanswm	3	3	79	35	629	562	289	395	1	0	6

Yn RBMPau 2009 a gyhoeddwyd ar gyfer Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru, nodwyd ar gyfer afonydd, sy'n cynnwys mwyafrif y cyrff dŵr yn yr Ardal Basn Afon; y prif elfennau sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw llygryddion penodol a physgod. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw pysgod, llygryddion penodol, ffytobenthos, ffosffad a pH.

Gan fod gennym ddealltwriaeth llawer yn well erbyn hyn o amgylchedd dŵr Cymru a'r pwysau sydd arno, rydym angen tystiolaeth bellach o hyd i ddeall yn llawn sut i reoli'r pwysau hwn er mwyn caniatáu defnydd cynaliadwy ar ein dyfroedd a sicrhau dyfodol diogel i'r economi leol a bioamrywiaeth.

Llynnoedd

Yn y cylch cyntaf mae 122 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn llynnoedd yng Nghymru, ac mae 3 o'r rhain wedi'u dynodi yn artiffisial a 90 yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol.

Yn 2009 cafodd 48 o gyrff dŵr llynnoedd eu dosbarthu ar statws ecolegol da yng Nghymru. Yn 2015 gostyngodd hyn gan 19 i 29 o gyrff dŵr sydd gyfwerth â gostyngiad o 15% (o 39% i 24%). Serch hynny, yn 2009 fe wnaethom adrodd ar gyfer llawer o aberoedd, arfordiroedd a llynnoedd ei bod hi'n annhebygol y byddai gwelliant yn nifer y cyrff dŵr ar statws/potensial 'da' yn cael ei gyflawni erbyn 2015. Dim ond yn ddiweddar yn 2009 yr oedd yr offer biolegol a data monitro a oedd yn ofynnol i ddosbarthu'r mathau hyn o gyrff dŵr wedi'u datblygu. Gan hynny ar gyfer llawer o gyrff dŵr ychydig iawn o wybodaeth fonitro, neu ddim o gwbl, oedd ar gael ac roedd dosbarthiad wedi'i seilio ar naill ai gwybodaeth foddelu neu ddyfarniad arbenigol. Mae ein monitro ac ymchwiliadau ychwanegol yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf wedi helpu i gynyddu ein gwybodaeth am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r cyrff hyn a sut y mae eu bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Serch hynny mae llawer o'r cyrff dŵr hyn yn gymhleth iawn ac rydym angen tystiolaeth bellach i ddeall nid yn unig y pwysau ond hefyd sut i ddelio'n ddigonol â hwy mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod modd i'n heconomi a'n hamgylchedd dŵr ffynnu a darparu amgylchedd diogel, glân a bioamrywiol i bawb. Dangosir crynodeb yn nhabl 10.

Tabl 10. Crynodeb o'r cyrff dŵr llyn a aseswyd a'u statws yng Nghymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Gwael		Cymedrol		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Llynnoedd	12	15	62	78	48	29

Nodwyd yn RBMPau i Gymru 2009 ar gyfer llynnoedd y prif elfennau a oedd yn nodi bod statws ecolegol da neu botensial heb ei wireddu oedd cyfanswm ffosfforws, infertebratau arfordirol a chironomidau. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw cyfanswm ffosfforws, infertebratau arfordirol, macroffytâu a blodau ffytoplancton.

Yn ystod yr 20fed Ganrif, achosodd glaw asid yn sgil nwyon asid a allyrrwyd gan ddiwydiant trwm a gorsafodd pŵer â than glo asideiddio difrifol i lawer o'n llynnoedd a'n nentydd ucheldir. Mae rheoliadau llygredd aer wedi gostwng yn llwyddiannus ar swm y dyddodiad asid i lefelau llawer yn is, ond mae'r amgylchedd cemegol wedi bod yn arafach

i'w adfer, a rhaid i anifeiliaid a phlanhigion sensitif i asid ail-gytrefu dyfroedd a oedd wedi'u llygru yn flaenorol. Serch hynny, mae data monitro yn nodi bod llawer o'n dyfroedd ucheldir sensitif i asid bellach yn dangos tueddiadau clir sy'n gwella.

Mae pwysau ar lawer o'n llynnoedd a addaswyd yn sylweddol yn sgil defnyddiau hanesyddol. Mae canfod ffyrdd o liniaru ar yr effeithiau hyn yn heriol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'n rhanddeiliad, yn ymdrechu'n barhaus i ganfod datrysiadau arloesol newydd i'r materion hyn i greu'r cydbwysedd cywir er mwyn darparu dŵr yfed glân, hamdden, bioamrywiaeth ddiogel a ble fo'n bosibl pŵer hydro.

Cyrff dŵr aberol (trawsnewidiol) ac arfordirol

Yn y cylch cyntaf mae 55 o gyrff dŵr wedi'u dosbarth yn gyrff arfordirol ac aberol yng Nghymru. Nid oes unrhyw gyrff dŵr wedi'u dynodi yn artiffisial, serch hynny mae 6 corff dŵr arfordirol a 14 corff trawsnewidiol wedi'u dynodi yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol.

Yn 2009, cafodd 24 o gyrff dŵr arfordirol ac aberol eu dosbarthu yn statws ecolegol da neu well yng Nghymru. Yn 2015 mae hyn wedi cynyddu gan 1 corff dŵr i 25 sydd gyfwerth â gwelliant o 3%. Serch hynny, yn 2009 fe wnaethom adrodd y byddai'n annhebygol y byddai gwelliant yn nifer y cyrff dŵr ar statws/potensial 'da' yn gallu'i gyflawni erbyn diwedd y cylch ar gyfer llawer o aberoedd, arfordiroedd a llynnoedd. Newydd eu datblygu yn 2009 yr oedd yr offer biolegol a'r data monitro a oedd yn ofynnol i ddosbarthu'r mathau hyn o gyrff dŵr. Gan hynny ar gyfer llawer o gyrff dŵr dim ond ychydig o wybodaeth fonitro, neu ddim o gwbl, oedd ar gael ac roedd dosbarthiad wedi'i seilio ar naill ai gwybodaeth fodolu neu ddyfarniad arbenigol. Mae ein hymchwiliadau yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf wedi helpu i gynyddu ein gwybodaeth am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r cyrff dŵr hyn a sut y mae eu bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Serch hynny, mae llawer o'r cyrff dŵr hyn yn gymhleth iawn ac rydym angen tystiolaeth bellach i ddeall nid yn unig y pwysau ond hefyd sut i ddelio'n ddigonol â hwy mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod modd i'n heconomi a'n hamgylchedd dŵr ffynnu a darparu amgylchedd diogel, glân a bioamrywiol i bawb. Dangosir crynodeb yn nhabl 11.

Tabl 11. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr arfordirol ac aberol a'u statws yng Nghymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Arfordirol	1	0	0	1	7	10	16	12	0	1
Aberol	0	1	0	0	23	18	8	12	0	0
Cyfanswm	1	1	0	1	30	28	24	24	0	1

Yn RBMPau 2009 i Gymru, nodwyd ar gyfer cyrff dŵr arfordirol ac aberol, y brif elfen sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw Nitrogen Anorganig Tawdd. Mae hyn yn parhau yn wir ar gyfer y dosbarthiad diweddaraf, serch hynny rhaid nodi nad yw rhai mesurau lliniaru ar gyfer hydromorffoleg hefyd yn eu lle ac mae nifer o fethiannau statws ecolegol a chemegol.

2.5 Cydymffurfiad ag Ardal Warchoddedig

Mae gwerth arbennig ar yr amgylchedd dŵr mewn llawer o ardaloedd. Ymhlith yr ardaloedd hyn y mae cynefinoedd bywyd gwyllt neu rywogaethau prin, dyfroedd ymdrochi ac ardaloedd ble mae dŵr yfed yn cael ei dynnu. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi yn 'Ardaloedd Gwarchoddedig'. Fe'u blaenoriaethir ar gyfer gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'u hamcanion ac yn amddiffyn y buddion y maen nhw'n eu darparu.

Rhaid i Ardaloedd Gwarchoddedig fodloni safonau sy'n berthnasol i'w defnydd penodol. Yn aml mae'r rhain yn fwy caeth na'r safonau a ddefnyddir i asesu statws ecolegol neu gemegol o dan WFD. Bydd cyflwyno'r camau yn ystod y cylch cyntaf a ddisgrifir uchod hefyd o fudd i'r Ardaloedd Gwarchoddedig wrth gyflawni cydymffurfiad.

Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yw'r awdurdod cymwys ar gyfer y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed. Maen nhw'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi manylion cydymffurfiad â gofynion ansawdd dŵr y Gyfarwyddeb.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu ardal diogelu dŵr daear ac wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer yr holl ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed perthnasol i reoli'r risg o ansawdd dŵr yn dirywio.

Wrth i fwy o samplau cemegol gael eu tynnu o afonydd, llynnoedd a dŵr daear a mwy o fannau tynnu dŵr wedi ymddangos, mae nifer yr ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed sydd wedi'u dosbarthu wrth risg o ddirywiad ansawdd dŵr neu ar statws cemegol gwael (ar gyfer dŵr daear yn unig) wedi cynyddu. Gallai'r newid hwn, fel y tynnir sylw ato gan ddealltwriaeth gynyddol o'r amgylchedd dŵr, fod o ganlyniad i:

- manau tynnu newydd yn cael eu datblygu neu'u hadnabod
- dirywiadau gwirioneddol mewn ansawdd dŵr
- newidiadau yn lleoliad y monitro fel bod dylanwadau newydd neu wahanol ar ansawdd dŵr yn cael eu hadnabod
- data samplu ychwanegol yn cael ei ddarparu gan yr echdynnydd
- nifer y samplau yn cynyddu gan ddarparu mwy o dystiolaeth o ddirywiad
- y risgiau wedi'u hadnabod yn anghywir o'r blaen
- risgiau newydd wedi ymddangos nad oeddynt yn cael eu monitro yn flaenorol

Mae mesurau, megis darparu cyngor ac arweiniad i randdeiliaid mewn dalgylchoedd, grantiau cyfalaf ar gyfer gwelliannau seilwaith (er enghraifft bio-welyau) a thaliad ar gyfer gwasanaeth ecosystem wedi'u defnyddio i amddiffyn ansawdd dŵr. Cyflwynir y waelodlin ar gyfer 2015 yng **Nghrynodeb RBMP**.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (pysgod dŵr croyw)

Cafodd y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw ei diddymu ym mis Rhagfyr 2013. Daeth effaith yr amcanion amgylcheddol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig pysgod dŵr croyw i ben o'r dyddiad hwnnw. Darperir lefel gyfwerth o amddiffyniad gan yr amcanion corff dŵr yng **Nghrynodeb RBMP**.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (dyfroedd pysgod cregyn)

Er 2013 mae'r gofynion ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Pysgod Cregyn (SWPAau) wedi'u trosglwyddo i'r WFD. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu ystod eang o fesurau i ymdrechu i gyflawni'r safon ficrobaidd yn y cig yn y 22 o SWPAau yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at welliannau arwyddocaol yn ystadegol mewn crynodiadau E.Coli mewn Cig Pysgod Cregyn yn Nyfrdwy, Dwyrain y Fenai a Gogledd Cilfach Tywyn sy'n cynnwys tua 90% o werth y Diwydiant Pysgod Cregyn yng Nghymru. Yn 2014, cyflawnwyd y safon ficrobaidd yn 14% o Ddyfroedd Pysgod Cregyn. Cyflawnwyd y cydymffurfiad uchaf â'r safon ficrobaidd yn 2013 ar 37% o SWPAau yng Nghymru, serch hynny, nid oes unrhyw SWPAau wedi cydymffurfio â'r safon ficrobaidd am fwy na 8 o'r 10 mlynedd ddiwethaf. Mae llawer yn fwy o ddealltwriaeth o ymddygiad y pathogenau microbaidd yn yr amgylchedd aberol ac arfordirol a rhyngweithiadau gyda Physgod Cregyn yn ofynnol cyn y gallwn fod yn hyderus o gyflawni a chynnal y safon ficrobaidd ym mhob SWPA.

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Cyflwynodd y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig amcanion ansawdd dŵr newydd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig dŵr ymdrochi o 2015. 2015 yw blwyddyn gyntaf y Gyfarwyddeb sy'n gosod safonau tynnach ar ddsbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi sy'n anelu at gyflawni safonau uwch na Chyfarwyddeb y gorffennol. Bellach mae gan safonau dargedau ansawdd dŵr anos i'w cyflawni; mae'r safonau newydd tua dwywaith mor llym â'r rhai blaenorol.

Ceir crynodeb o ddsbarthiad rhagamcanol y dyfroedd ymdrochi yn erbyn y safonau newydd yng **Nghrynodeb RBMP**. Aseswyd cydymffurfiad â safonau ansawdd dŵr yr hen Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi am y tro olaf yn 2014. Ceir crynodeb o'r canlyniadau hyn yn Nhabl 12. Dangosir ychydig o ddirywiad yn y cydymffurfiad â'r safon canllaw. Serch hynny, y rheswm dros hyn yw bod 21 o safleoedd ychwanegol wedi'u dynodi yn Ddyfroedd Ymdrochi yn ystod y cylch cyntaf a chan hynny nid yw'r canran yn gymhariaeth uniongyrchol â chanran 2009. Dengys Tabl 13 gymhariaeth uniongyrchol â'r un Dyfroedd Ymdrochi Cymru a ddynodwyd yn 2009. Mae'r tabl hwn yn dangos cynnydd yn nifer Dyfroedd Ymdrochi Cymru sy'n bodloni'r safon canllaw.

Tabl 12. Cydymffurfiad dŵr ymdrochi â hen amcanion Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (1976):

Blwyddyn	Nifer y dyfroedd ymdrochi	% sy'n cydymffurfio â safonau gorfodol	% sy'n cydymffurfio â safonau canllaw
2009	81	100%	88.9%
2014	102	100%	88.2%

Tabl 13. Cymhariaeth â'r un Traethau Ymdrochi dynodedig yn 2009 a 2015

Blwyddyn	Nifer y dyfroedd ymdrochi	% cydymffurfio â'r safonau canllaw
2009	81	88.8%
2014	81	93%

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr

Yng Nghymru adroddir ar gyflwr nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y Gyfarwydddeb Cynefinoedd ac Adar dros gylch 6 blynedd. Mae'r ymdriniaeth adrodd hon yn gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr. Yn Lloegr adroddir ar gyflwr ar sail uned ac yng Nghymru ar sail nodweddion cynefin neu rywogaeth dynodedig. Yn ychwanegol mae ychydig o wahaniaethau i rai o'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer adrodd. Mae Tabl 14 yn crynhoi'r data ar gyfer Cymru gyfan ar sail nifer y nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ym mhob categori. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'i ddefnyddio. Ceir rhai bylchau yn y data oherwydd y gwahaniaethau yn y gofynion y mae statws rhai o'r nodweddion dynodedig yn cael eu hadrodd. Er enghraifft, adroddir ar nodweddion Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar lefel y DU ac nid ar lefel safle. Felly yn nhabl 14 mae cyflwr nodweddion unigol yn cael eu hadlewyrchu yn anhysbys.

Hefyd mae ffin rhai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nag un Ardal Basn Afon. Yn yr achosion hyn mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig perthnasol wedi'u hystyried ym mhob Ardal Basn Afon ble mae'r ffiniau yn gorgyffwrdd. Gan hynny bydd y cyfanswm ar gyfer Cymru yn llai na'r cyfanswm ar gyfer Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru.

Tabl 14. Cyflwr cyfredol ardaloedd gwarchodedig dŵr Natura 2000 yng Nghymru

Cyflwr cyfredol Nifer y cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig Natura 2000	
Ffatriol: Wedi'u cynnal	33
Ffatriol: Wedi'u hadfer	7
Ffatriol: Di-ddosbarth	30
Anffatriol: Yn adfer	23
Anffatriol: Dim newid	42

Anffafriol: Yn dirywio	32
Anffafriol: Di-ddosbarth	130
Wedi'u dinistrio: Yn rhannol	0
Wedi'u dinistrio: Yn llwyr	0
Heb eu hasesu	124
Cyfanswm	421

* sylwer bod hyn yn cynnwys Afonydd Dyfrdwy a Gwy (Cymru) yn unig

Yn ystod y cylch RBMP cyntaf mae llawer o gamau wedi'u cwblhau ar gyfer safleoedd Natura 2000. Cyflwynir tabl yn rhestru'r camau hyn o fewn pob adran Ardal Basn Afon yr adroddiad hwn ac mae'n rhoi gwybodaeth ar amcan rif o'r camau a gwblhawyd ar gyfer safleoedd Natura 2000 ym mhob Ardal Basn Afon. Mae'n cynnwys camau a gwblhawyd yn y cylch RBMP cyntaf a gasglwyd yn y gronfa ddata camau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA) a safleoedd Ramsar yn yr Ardal Basn Afon. Nid yw'r tabl yn cynnwys y mesurau ychwanegol o dan WFD a gynhaliwyd ar y safleoedd.

I weld rhagor o fanylion ar leoliad yr ardaloedd gwarchodedig ewch i **Arsylwi Dyfroedd Cymru** i weld y mapiau rhyngweithiol.

3. Cynnydd Ardal Basn Afon Dyfrdwy 2009 - 2015

3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cynnwys asesiad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy ers cyhoeddi RBMP 2009. Mae'n cynnwys adroddiad ar y mesurau a weithredwyd a sut y mae'r amgylchedd dŵr wedi newid yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (wedi'i seilio ar gymharu data hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009).

Ers cyhoeddi cynllun 2009 mae llawer o welliannau wedi'u gweld gan gynnwys tystiolaeth gynyddol, newidiadau yn y ffordd yr ydym yn monitro a chasglu gwybodaeth; er enghraifft yr adolygiad Corff Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn **Atodiad Trosolwg RBMP**. Dangosir nifer a math y cyrff dŵr ar gyfer y Dyfrdwy yn nhabl 15 isod.

Tabl 15. Nifer a math o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	A addaswyd yn Sylweddol	Cyfanswm
Afon*	58	1	28	87
Llyn	4	0	17	21
Arfordirol	0	0	0	0
Aberol	0	0	1	1
Dŵr daear	6	n/a	n/a	6
Cyfanswm	68	1	46	115

*Mae cyrff dŵr afon yn cynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb

Mae dau gorff dŵr afon sydd wedi'u dosbarthu yn HMWBau yn 2009 wedi'u hail-ddynodi a bellach mae ganddynt amcan i fodloni statws ecolegol da yn hytrach na photensial ecolegol da. Mae nifer a math y cyrff dŵr yn nhabl 15 uchod yn cynrychioli'r wybodaeth hon wedi'i diweddarau ac fe allent fod ychydig yn wahanol i'r rheini a gyflwynir yng nghynllun 2009.

3.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf

Gellir rhannu'r camau a gymerwyd yn ystod y cylch cyntaf i'r grwpiau a amlinellir isod. Mae cyfuniad o'r holl gamau hyn ar y cyd yn cyfrannu at amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r camau yn perthyn i bob math o gyrff dŵr, afonydd, llynnoedd, gwlyptir, dŵr daear, dyfroedd aberol ac arfordirol gan gynnwys y rheini o fewn ardaloedd gwarchoddedig. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen fesurau a amlinellwyd i gyflawni'r amcanion statudol, gan gynnwys defnyddio dulliau cyfredol, camau statudol a gwirfoddol. Amlinellir y rhaglen fesurau wedi'i diweddarau yn Adran 3 **Crynodeb RBMP 2015** ynghyd â'r manylion mwy lleol a ddarperir gan **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

Atal dirywiad – mae'r holl fesurau a llawer o weithgareddau dyddiol Cyfoeth Naturiol Cymru a llawer o'n partneriaid yn cyfrannu at atal dirywiad yr amgylchedd dŵr.

- Am wybodaeth bellach gweler yr adran gyfwerth ar gyfer Cymru (adran 2 yr adroddiad hwn).

Astudiaeth Achos

Trefnwyd digwyddiad dalgylch "esgidiau mwdlyd" ym mis Mawrth 2014 gan Bartneriaethau Dyfrdwy Canol a Llanw sy'n cael eu cynnal gan Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaer. Roedd y digwyddiad yn rhan o waith i ddatblygu prosiect partneriaeth dalgylch a ffurfiwyd o'r newydd yn dilyn gweithdy cychwynnol ym mis Rhagfyr 2013. Gwahoddwyd rhanddeiliaid o ardal Dyfrdwy Canol a Llanw i ddysgu mwy am brosiectau dalgylch Dyfrdwy ar hyn o bryd a syniadau prosiect posibl yn y dyfodol. Roedd yn gyfle i bobl nad oeddynt wedi mynychu digwyddiad dalgylch i ddysgu mwy ac roedd wedi'i anelu at y bobl hynny sy'n berchen, neu'n gweithio, ar dir o fewn y dalgylchoedd i gynnig eu barn, y rheini gydag 'Esgidiau Mwdlyd'!



Rhaglen Fesurau

Roedd Rhaglen Fesurau RBMP 2009 yn cynnwys mesurau cenedlaethol a mwy lleol, ar draws sectorau a phob math o gyrff dŵr. Dyma oedd y rhaglen gyntaf o fesurau statudol a ddatblygwyd yn benodol i fodloni gofynion y WFD. Maen nhw'n cynnwys camau i atal dirywiad a gwelliannau mewn statws corff dŵr. Adroddir ar gynnydd y rhain yn ffurfiol i Ewrop trwy System Gwybodaeth Dŵr Ewrop (WISE).

Dengys data ar gyfer y cylch cyntaf bod 81% o'r mesurau yn RBMP 2009 wedi'u cwblhau yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Nid yw rhai mesurau wedi'u cwblhau am y rhesymau a ganlyn;

- Gyda 9 mesur sydd wedi'u hailasesu nid ydynt eu hangen mwyach neu nid ydynt yn cael eu hystyried yn effeithiol
- Ni chafodd 11 eu hariannu (ariannu wedi'i dynnu yn ôl)
- Gyda 5 ni chafwyd dull i weithredu'r mesur
- 32 wedi'u hadolygu a'u diweddarau fel mesurau newydd ar gyfer y cynllun hwn (maen nhw'n barhaus)

Fe wnaeth RBMP 2009 sefydlu Rhaglen Fesurau i wella'r amgylchedd dŵr o ddsbarthiad gwaelodlin 2009. Mae llawer o welliannau wedi'u cynnal gan lawer o sefydliadau ac

unigolion. Mae llawer o sefydliadau wedi gweithio gyda'i gilydd ar draws Ardaloedd Basn Afon ar ystod o brosiectau. Mae partneriaethau dalgylch wedi'u sefydlu ar gyfer Dyfrdwy is a chanol. Mae'r rhain yn grwpiau o sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella amgylchedd eu hardal leol. Mae'r partneriaethau yn gweithio ar ystod eang o faterion, gan gynnwys yr amgylchedd dŵr ond hefyd i fynd i'r afael â materion ehangach nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chynllunio basn afon.

Camau partneriaeth

Mae afon Dyfrdwy wedi elwa o ariannu sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop ar gyfer prosiectau, gan gynnwys dros £300,000 o'r prosiect Eogiaid at Yfory gwerth £2.1 miliwn. Mae'r rhain wedi adfer 33km o gynefinoedd yn y nentydd a glannau afon trwy dynnu rhwystrau a oedd yn rhwystro mudo pysgod. Ar Alun a Dyfrdwy mae cynnydd da wedi'i wneud, gydag ysgolion pysgod wedi'u cwblhau ar goredau'r Orsedd, Caergwrle a Phont Y Capel. Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda ni trwy'r broses cynllunio datblygiad i sicrhau bod ceuffosydd yn cael eu tynnu ble fo hynny'n bosibl i helpu i adfer amgylchedd afon mwy naturiol.

Fe wnaeth Natural England, Awdurdod yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a Phrosiect Adfer Afon Dyfrdwy asesu cyflwr ffisegol y Dyfrdwy a gwelliannau arfaethedig i gyfoethogi'r cynefin afon. Argymhellodd fod addasiadau yn cael eu tynnu ble bynnag fo hynny'n bosibl neu geisio gostwng ar eu heffaith er mwyn ei hadfer i'w chyflwr agos at naturiol.

Astudiaeth achos: Gwelliannau ansawdd dŵr Finchetts Gutter

Mae Finchetts Gutter yn rhedeg trwy 29 hectar o Barc Gwledig Cymunedol Iarlles Caer. Mae tua 30,000 o bobl (10% o boblogaeth Gaer) yn byw ac yn gweithio yn yr ardal gyfagos. Ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Iarlles Caer, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gostwng problemau llygredd gwasgaredig sy'n effeithio ar Finchetts Gutter. Mae hyn yn rhan o brosiect ehangach i gyfoethogi'r Parc Cymunedol. Y weledigaeth ar gyfer y parc yw gwella'r cynefin naturiol, ei ecoleg ac i'r cymunedau lleol ei fwynhau.

Yn 2011/12 fe greodd Asiantaeth yr Amgylchedd a'i bartneriaid wely cyrs a llif sianel well. Yn 2012/13 cafodd 130m pellach o'i hen gwrs ei gloddio a gwely cyrs ychwanegol wedi'i greu i wella ansawdd dŵr. Fe wnaeth gwirfoddolwyr helpu i blannu'r gwely gyda chyrs a gellysg. Ar ôl iddynt sefydlu, bydd y gwelliannau yn creu gofod ar gyfer dŵr, gostwng risg o lifogydd i lawr yr anfon ac yn gwella cynefinoedd.

Cyn

Ar ôl



Ymchwiliadau

Ers cyhoeddi cynlluniau 2009, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal rhaglen ymchwiliadau helaeth yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy i ganfod pam nad yw llawer o gyrff dŵr mewn cyflwr da. Mae hyn wedi cynnwys dros 150 o ymchwiliadau heb gynnwys y rheini i sicrhau 'dim dirywiad'. Mae ein gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gyrff dŵr wedi cynyddu'n sylweddol. O ganlyniad, rydym bellach mewn sefyllfa well i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ble y gellir gwneud y gwelliannau amgylcheddol mwyaf, a fydd yn darparu'r budd mwyaf i bawb. Cadarnhaodd ein hymchwiliadau mai materion megis addasiadau ffisegol a llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig yw'r prif resymau pam nad yw gyrff dŵr mewn cyflwr da.

Rydym wedi cynnal:

- **35** o ymchwiliadau i gadarnhau nad yw corff dŵr mewn cyflwr da, ble'r oedd gennym amheuaeth yn 2009.
- **85** o ymchwiliadau i ganfod pam nad yw corff dŵr mewn cyflwr da. Mae RBMP yr ail gylch yn cynnwys canfyddiadau'r ymchwiliadau hyn.
- **31** o ymchwiliadau pellach ar y gweill neu wedi'u trefnu i benderfynu pa gamau y gellid eu cymryd i ddelio â'r broblem.

Mesurau newydd ychwanegol

Mae'r Rhaglen Fesurau yn gofyn am adolygiad rheolaidd i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cyflwyno yn y man cywir. Yn ystod y cylch cyntaf roedd hi'n glir bod blaenoriaethau a/neu gyfleoedd newydd yn golygu bod rhai camau yn cael eu hadolygu i adlewyrchu angen cyfredol yr amgylchedd, roedd hyn yn cynnwys;

- Cafodd mesurau cyfredol eu cymhwyso mewn man newydd.
- Ymdriniaeth wedi'i Seilio ar Ddalgyrch, menter a ariennir gan Defra ar gyfer partneriaethau lleol trwy westeiwyr dalgyrch. Mae hyn wedi sicrhau cymorth ac ariannu i bartneriaethau dalgyrch Dyfrdwy Llanw a Chanol.
- Mae'r Cwmnïau Dŵr (Dŵr Cymru, Dee Valley Water ac United Utilities), yn cyd-ariannu rhaglen fonitro ddwys o ansawdd dŵr afon, gan weithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Ariannu Llywodraeth Cymru

Cychwynnodd Llywodraeth Cymru gronfa ar draws Cymru i gefnogi prosiectau partneriaeth gwirfoddol a gyflwynodd welliannau i'r amgylchedd dŵr. Yn ystod y cylch cyntaf, derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru £850 mil dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru (£450 mil yn 2012/13, £150 mil yn 2013/14 a £250 mil yn 2014/15) i gefnogi cyflwyno prosiectau WFD. Cefnogwyd ystod eang o brosiectau trydydd sector gan gynnwys gweithgareddau megis ffensio, plannu coed a thynnu rhwystrau ynghyd â nifer o brosiectau ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth.

Tabl 16. Prosiectau Llywodraeth Cymru WFD

Blwyddyn	Teitl Prosiect	Partner/Partneriaid Arweiniol
2012-13	Arolwg o boblogaeth pysgod a gwella cynefinoedd.	Clwb Genweiriol Yr Orsedd a Gresffordd
2012-13	Rheoli Jac y Neidiwr gyda Dalgylch Afon Dyfrdwy	Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru
2012-13	Adfer Cynefin ar Gamddwr	Afonydd Cymru
Blwyddyn	Teitl Prosiect	Partner/Partneriaid Arweiniol
2013-14	Afon Alwen	Afonydd Cymru
2013-14	Afon Camddwr	Afonydd Cymru
2013-14	Fferm Organig Ansy, prif ran Dyfrdwy	Afonydd Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
2013-14	Afon Eitha	Afonydd Cymru
2013-14	Afon Meloch	Afonydd Cymru

Amcanion amgen

Mewn rhai enghreifftiau ceir rhesymau hysbys pam nad oedd modd i gyrff dŵr gyflawni statws da erbyn 2015. Ar gyfer y cylch cyntaf cafwyd 71 o gyrff dŵr a oedd yn disgyn i'r categori hwn ble'r oedd amcan amgen wedi'i osod i fodloni statws da erbyn 2027. Roedd llawer o'r rhain (65 o gyrff dŵr) wedi'u cynnwys gan nad oedd yr effaith niweidiol yn hysbys. Mae ymchwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y cylch cyntaf wedi cynyddu ein dealltwriaeth. Amlinellir manylion yr amcanion amgen ar gyfer y chwe blynedd nesaf yn Adran 4 **Crynodeb RBMP**.

3.3 Dirywiad

Un o brif amcanion y WFD yw atal dirywiad corff dŵr o waelodlin 2009. Ble gwelir bod dirywiad mewn statws rhwng 2009 a 2015 rhaid asesu ac esbonio'r rhesymau dros hyn.

Efallai na fydd peth dirywiad o reidrwydd yn golygu bod ansawdd yr amgylchedd yn waeth, dim ond ein bod ni wedi monitro elfennau yn y corff dŵr hwnnw yn y cylch cyntaf na chafodd eu monitro'n flaenorol. Mae'n bwysig bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei adolygu i bennu pa gamau sy'n rhaid eu cymryd ymhle ac mewn rhai achosion ni fydd angen unrhyw gamau dilynol.

Er mwyn asesu cydymffurfiaid ag amcan WFD o atal dirywiad, cafodd canlyniadau dosbarthu 2015 (wedi'u seilio ar ddata hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu ag a ddefnyddiwyd yn 2009), eu cymharu â gwaelodlin dosbarthu 2009. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd elfen wedi dirywio o un dosbarth statws yn 2009 i un is yn 2015. Mae hyn yn cynwys lle mae elfen wedi dirywio ond sydd ddim wedi achosi dirywiant yn y dosbarthu ar y cyfan oherwydd y dosbarthu yr elfenau eraill. Mae hyder wedi'i fesur o ran sicrwydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnwys y safleoedd hynny ble'r ydym yn

'weddol sicr' i 'hynod sicr' bod yr elfen wedi methu. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hwn yn nhablau 17.

Tabl 17. Cyrff dŵr sydd hefo elfenau sydd wedi dirywio (ar >75% o hyder)

Cyrff dŵr	Nifer y cyrff dŵr	% y cyrff dŵr
Statws ecolegol dŵr wyneb	2	2%
Statws cemegol dŵr wyneb	1	1%
Statws meintiol dŵr daear	0	0
Statws cemegol dŵr daear	0	0

Yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy ni wnaeth unrhyw corff dŵr ddirywio mewn statws dosbarthu ar y cyfan ers 2009.

Rhesymau dros Ddirywiad

Crynhoir y rhesymau dros y dirywiadau a amlinellir yn nhabl 17 uchod yn nhabl 18 isod. Fe wnaeth cyfanswm o 3 elfen ddirywio o fewn 3 corff dŵr gwahanol.

Tabl 18. Cyrff dŵr sydd wedi dirywio yn eu statws dosbarthu o waelodlin 2009.

Enw corff dŵr	ID corff dŵr	Rheswm dros ddirywiad	Elfen a effeithiwyd	Mesur gofynnol
Alun - Rhydymwyn i Leadmill	GB111067052171	Llygredd organig, o un lle a gwasgaredig	Infertebratau	Mesurau llygredd gwledig gwasgaredig a charthffosiaeth yn y tarddle yn ofynnol
Alun - Leadmill i Yr Hob	GB111067052172	Amheuaeth o ollyngiad carthffosiaeth ysbeidiol ac o bosibl ffynhonnell dŵr daear	Amonia	Ymchwiliad parhaus
Dyfrdwy - Cored Caer i Geiriog	GB111067057080	Sylwedd gwenwynig, bio gronnol, parhaus a hollbresennol. Tybio canlyniad dirywio o amrywiad mewn samplau ar hap.	Cyfansoddion Tribiwtyltin	Adolygiad Data / Adnabod ffynhonnell leol ddim yn ymarferol. Mesurau wedi'u cymryd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.

Trwy gydol y cylch cyntaf rydym wedi cynyddu ein dealltwriaeth o'r cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae monitro cynyddol i sicrhau data ychwanegol yn un rhan o wella'r wybodaeth hon.

Ble y mae dirywiad mewn statws wedi digwydd, rhaid i'r achos gael ei adnabod a rhaid sefydlu mesurau i adfer y corff dŵr i'w statws blaenorol cyn gynted â phosibl. Mae'r cyrff dŵr a restrir yn y tabl 18 uchod wedi dirywio yn ei ddsbarthiad elfen rhwng 2009 a 2015 am y rhesymau a grybwyllir uchod.

O dan rhai amgylchiadau, a rhai penodol, caniateir dirywiad mewn statws. Nid oes unrhyw achosion sy'n bodloni'r gofynion hyn wedi'u hadnabod yn yr Ardal Basn Afon hon.

3.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf

Mae llawer o welliannau wedi'u cynnal yn ychwanegol at y mesurau hyn gan lawer o sefydliadau ac unigolion. Dengys Tabl 19 grynodedb o'r cynnydd tuag at statws da neu well rhwng 2009 a 2015. Mae data o ddsbarthiad 2015 (sy'n cynnwys data hyd at ddiwedd 2014) wedi'i gymharu â'r un safonau ac offer dosbarthu ag a ddefnyddiwyd yn 2009.

Yn 2009 fe wnaeth 30% o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy gyflawni statws da neu well. Fe wnaethom ragfynegi y byddai hyn yn codi i 38% erbyn 2015. Mae canlyniadau dosbarthu 2015 yn nodi bod 31% o'r holl gyrff dŵr bellach yn cyflawni statws da neu well. Er bod gwelliant net wedi bod o 5 corff dŵr afon ac 1 corff dŵr daear a gyflawnodd statws da yn 2015 mae hyn wedi'i wrthbwysio yn bennaf gan fonitro manylach ar lynnoedd. Mae'r llynnoedd hyn bellach wedi'u dosbarthu gan fwy o elfennau, ac mae rhai o'r elfennau hyn wedi'u dosbarthu yn gymedrol. Fe wnaeth y monitro manylach, ychwanegol hwn arwain at 5 o lynnoedd ychwanegol yn cael eu dosbarthu yn gymedrol yn 2015 o'i gymharu â 2009, er mewn gwirionedd mae'n annhebygol bod unrhyw newid amgylcheddol wedi bod.

Er bod llawer o'r mesurau hyn a gwblhawyd yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf yn darparu buddion i'r amgylchedd lleol, ychydig o welliant sydd wedi bod yn nifer y cyrff dŵr ar statws da. Serch hynny, yn ystod y cyfnod hwnnw fe wnaeth 90 o elfennau³ corff dŵr wella gan un dosbarth neu'n fwy.

Tabl 19. Cymharu gwaelodlin 2009 gyda chanlyniadau rhagamcanol a gwirioneddol 2015

Canran o gyrff dŵr ar statws da neu well	2009	2015 Rhagamcanol	2015 Gwirioneddol
Statws ecolegol dŵr wyneb	28%	38%	29%
Statws cemegol dŵr wyneb	8%	8%	17%
Statws meintiol dŵr daear	83%	83%	100%
Statws cemegol dŵr daear	83%	83%	83%
Statws cyffredinol	30%	38%	31%

³ Sylwer Mae 'Elfennau corff dŵr' yn cynnwys elfennau ecolegol (biolegol, ffisio-gemegol, sylweddau eraill ac elfennau llygrydd penodol ac eithrio BOD ac Ocsigen Tawdd mewn camlesi) a chemegol (Llygryddion Eraill, Sylweddau Blaenoriaeth a Sylweddau Peryglus â Blaenoriaeth) mewn dyfroedd wyneb yn unig ac elfennau meintiol a chemegol (GW) ar gyfer cyrff dŵr daear yn unig. Nid yw'n cynnwys elfennau ategol. Elfennau wedi'u hasesu yn unig.


Statws cemegol: Yn 2009 roedd 8% o gyrff dŵr ar statws da, 3% wedi methu ac nid oedd 89% ohonynt wedi'u hasesu oherwydd nad oeddynt wrth risg. Yn 2015 roedd 17% ar statws da, 6% wedi methu a 76% heb eu hasesu oherwydd nad oeddynt wrth risg. Serch hynny, er ei bod hi'n ymddangos bod cynnydd o 9% ar gyfer cyrff dŵr ar statws da a hefyd gan 3% yn methu mae hyn oherwydd bod 14 o gyrff dŵr ychwanegol yn cael eu hasesu ar gyfer eu statws cemegol yn nosbarthiad 2015. Gan hynny mae'r canlyniadau yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o gyrff dŵr sy'n cael eu monitro yn hytrach na gwelliant gwirioneddol yn y statws cemegol cyffredinol, mae gwybodaeth bellach i'w chael yn adran 3.3.1 ffigur 6.


Mae gwelliant mewn statws wedi'i gyfyngu gan y ddealltwriaeth gyfredol o bwysau ar yr amgylchedd dŵr, eu tarddleoedd, y camau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hwy ynghyd â'r adnoddau i gyflwyno'r rhaglen (yn bobl a chyllideb). Yn ychwanegol gall rheolau 'un allan y cyfan allan' dosbarthiad WFD arwain at fethiant un elfen sy'n cael ei monitro i yrru'r statws cyffredinol.

3.4.1 Statws dosbarthiad corff dŵr cyffredinol

Yn 2009 roedd 11% o'r holl gyrff dŵr mewn cyflwr gwael, roedd 58% mewn cyflwr cymedrol ac roedd 30% mewn cyflwr da. Ers hynny, er bod llawer o welliannau wedi'u gwneud o ran monitro a chasglu ac asesu data dengys dosbarthiad 2015 mai dim ond cynnydd o 31% sydd wedi bod yng nghanran y cyrff dŵr sy'n cyflawni statws da neu well. Serch hynny, gellir gweld o ffigur 4 isod bod nifer y cyrff dŵr ar statws gwael wedi gostwng i 5% gyda chynnydd canlyniadol yn nifer y cyrff dŵr ar statws cymedrol gan 5%. Disgwyliwn weld gwelliannau pellach wrth i'r amgylchedd ymateb, sy'n gwireddu buddion y camau. Mae aber Dyfrdwy wedi parhau ar botensial ecolegol cymedrol rhwng 2009 a 2015.

Ffigur 4. Cymhariaeth ganrannol o statws cyffredinol y cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy rhwng dosbarthiad 2009 a 2015





* Mae ffigurau siart cylch wedi'u crynhoi i lawr ble maen nhw'n <0.5; ar gyfer 2009 a 2014 mae hyn yn golygu bod cyfanswm y ffigurau yn 99%

Mae peth o'r newid hwn yn adlewyrchu nifer y safleoedd sy'n cael eu monitro gan raglen fonitro WFD. Er 2009, er mwyn llanw bylchau yn ein dealltwriaeth, rydym wedi cynyddu ein monitro er mwyn deall yn well y pwysau ar yr amgylchedd dŵr, yn enwedig o fewn rhai cyrff dŵr aberol ac arfordirol. Gan hynny mae llawer o'r newid mewn data yn dangos gwell dealltwriaeth o'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd yn hytrach na newid gwirioneddol mewn ansawdd. Bydd dirywiad ymddangosiadol yn parhau i gael ei ymchwilio er mwyn deall a yw hyn o ganlyniad i newid gwirioneddol yn ansawdd yr amgylchedd neu'r rhesymau a esbonnir uchod.

Mae'n bwysig deall nifer y cyrff dŵr sy'n gysylltiedig â'r newid mewn statws cyffredinol. Ardal Basn Afon Dyfrdwy yw'r lleiaf yn Ewrop ac mae'n cynnwys 115 o gyrff dŵr yn unig, gan hynny dim ond nifer fechan sydd angen newid er mwyn i'r newid ymddangos yn arwyddocaol yn ganrannol.

Dyfroedd wyneb


Yn y cylch cyntaf, mae 109 o gyrff dŵr wyneb yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, gan gynnwys afonydd, camlesi, llynnoedd ac un aber.

Ar gyfer dyfroedd wyneb, mae statws cyffredinol yn cynnwys cydran ecolegol a chemegol. Mesurir statws ecolegol ar raddfa uchel, da, cymedrol, gwael a drwg. Mesurir statws cemegol yn dda neu wedi methu. Mae gwybodaeth bellach ar sut y mae statws y dosbarthiad yn cael ei gyfrifo yn **Atodiad Trosolwg RBMP**.

Dosbarthiad Ecolegol

Yn 2009 cyflawnodd 28% o gyrff dŵr wyneb yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy statws da neu well. Fe wnaethom ragamcan y byddai hyn yn codi i 38% erbyn 2015. Mae canlyniadau dosbarthiad 2015 yn nodi bod 29% o gyrff dŵr wyneb wedi cyflawni statws da neu well. Yn y cyfamser roedd y dosbarthiadau blynyddol wedi dangos gwelliant ar waelodlin 2009, gan gyflawni 31% yn 2012.


Ffigur 5. Graff yn dangos cymhariaeth canran rhwng dosbarthiad ecolegol ar gyfer dŵr wyneb rhwng 2009 a 2015.



Dosbarthiad cemegol ac adrodd

Mae monitro ar gyfer cemegion wedi'i seilio ar y rheini sydd wedi'u gollwng mewn symiau sylweddol ac mewn lleoliadau sy'n cael eu hystyried wrth risg o fethu amcanion. Mae dros ddwywaith nifer y cyrff dŵr wedi'u hadrodd yn 2015 o'i gymharu â 2009, serch hynny mae cyfran y cyrff dŵr sy'n methu wedi parhau yn weddol debyg. Y cemegion sy'n achosi'r methiannau mwyaf yw metelau sy'n perthyn i ollyngiadau mwyngloddiau segur.

Ffigur 6. Graff yn dangos cymhariaeth rhwng dosbarthiad cemegol ar gyfer dŵr wyneb rhwng 2009 a 2015.



Cyrff dŵr daear

Statws meintiol

Mae pob un o'r chwe chorff dŵr daear yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy wedi parhau ar statws meintiol da. Mae un statws gwael wedi'i briodoli i un corff dŵr daear yn 2009 bellach wedi'i newid i statws da yn dilyn dadansoddiad data pellach ac adolygiad o'r data (gan gynnwys data monitro newydd hyd at 2013).

Statws cemegol

O'r chwe chorff dŵr daear yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy fe wnaeth pump gyflawni statws cemegol da, sydd yr un peth â gwaelodlin 2009. Mae corff dŵr daear *Mesurau Glo Carbonifferaidd Dyfrdwy* yn parhau ar statws gwael oherwydd gollyngiad dŵr mwynglawdd wedi'i halogi (dŵr daear) i ddyfroedd wyneb gerllaw mewn rhai ardaloedd.

Dangosir crynodeb yn nhabl 20.

Tabl 20. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr daear a aseswyd a'u statws yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Statws Meintiol				Statws Cemegol			
	Gwael		Da		Gwael		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Dŵr daear	1	0	5	6	1	1	5	5

I weld yr holl rwydweithiau monitro, ewch i **Arsylwi Dyfroedd Cymru** ar gyfer mapiau rhyngweithiol.

3.4.2. Canlyniadau Dosbarthiad Ecolegol ar gyfer Mathau o Gyrrff Dŵr

Afonydd

Yn y cylch cyntaf mae 87 o gyrrff dŵr wedi'u dosbarthu fel afonydd, gan gynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae dau o'r rhain wedi'u dynodi yn artiffisial a 28 yn gyrrff dŵr a addaswyd yn sylweddol. Dangosir crynodeb yn nhabl 21.

Tabl 21. Crynodeb o'r cyrrff dŵr afon yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	A addaswyd yn sylweddol	Cyfanswm
Afon	58	0	28	86
Camlesi	0	1	0	1
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	0	0	0
Cyfanswm	58	1	28	87

Yn 2009 cafodd 22 o gyrff dŵr eu dosbarthu yn statws ecolegol da yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Yn 2015 fe gynyddodd hyn gan 2 o gyrff dŵr i 27 sydd gyfwerth â chynnydd o 6% (o 25 i 31%). Dangosir crynodeb yn nhabl 22.

Tabl 22. Crynodeb o nifer y gyrff dŵr afon a aseswyd a'u statws ecolegol yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Gwael		Cymedrol		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Afon	10	4	55	55	21	27
Camlas	0	0	0	0	1	1
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	10	4	55	55	22	28

Yn RBMP 2009 nodwyd ar gyfer afonydd, sef mwyafrif y gyrff dŵr yn yr Ardal Basn Afon, y prif elfennau a oedd yn nodi nad oedd statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw llygryddion penodol, pysgod, ffosffadau ac infertebratau. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw ffosffadau, ffytobenthos, infertebratau, macroffyttau a llygryddion penodol.

Llynnoedd

Yn y cylch cyntaf, mae 21 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn llynnoedd yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae dwy ar bymtheg o'r rhain wedi'u dynodi yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol.

Yn 2009 cafodd 9 o gyrff dŵr llynnoedd eu dosbarthu â statws ecolegol da yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Yn 2015 gostyngodd hyn gan 5 i 4 o gyrff dŵr sydd gyfwerth â gostyngiad o 24% (o 43 i 19%). Serch hynny, yn 2009 fe wnaethom adrodd ar gyfer llawer o aberoedd, arfordiroedd a llynnoedd byddai'n anhebygol y gellid cyflawni gwelliant yn nifer y gyrff dŵr ar statws/potensial 'da' erbyn 2015. Dim ond newydd eu datblygu yn 2009 yr oedd yr offer biolegol a data monitro sy'n ofynnol i ddosbarthu'r mathau hyn o gyrff dŵr. Gan hynny ar gyfer llawer o gyrff dŵr ychydig iawn o wybodaeth fonitro, neu ddim o gwbl, oedd ar gael ac roedd dosbarthiad wedi'i seilio ar naill ai gwybodaeth foddelu neu ddyfarniad arbenigol. Mae ein hymchwiliadau yn ystod y 6 blynedd diwethaf wedi helpu i gynyddu ein gwybodaeth am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r gyrff dŵr hyn a sut mae eu bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Serch hynny mae llawer o'r gyrff dŵr hyn yn gymhleth iawn ac rydym angen tystiolaeth bellach i ddeall nid yn unig y pwysau ond hefyd sut i ddelio yn ddigonol â hwy mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod ein heconomi a'n hamgylchedd dŵr yn gallu ffynnu a darparu amgylchedd diogel, glân a bioamrywiol i bawb. Dangosir crynodeb yn nhabl 23.

Tabl 23. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr llynnoedd a aseswyd a'u statws ecolegol yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Gwael		Cymedrol		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Llynnoedd	1	1	11	16	9	4

Yn RBMP 2009, nodwyd ar gyfer llynnoedd y prif elfennau a oedd yn nodi nad oedd statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu oedd Cyfanswm Ffosforws a Chironomidau. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw infertebratau arfordirol, cyfanswm ffosforws, a macroffyttau.

Fe wnaeth y monitro ychwanegol arwain at 5 neu'n fwy o llynnoedd yn cael eu dosbarthu yn gymedrol yn 2015 nac yn 2009, er mewn gwirionedd mae'n anhebygol bod unrhyw newid amgylcheddol wedi bod. Mae llynnoedd, gan gynnwys Llyn Arenig Fawr, Llyn Arenig Fach a Llyn Tryweryn, a gafodd eu dosbarthu trwy ddyfarniad arbenigol yn unig neu un neu ddwy elfen megis macroffyttau ac ocsigen tawdd yn 2009 wedi derbyn monitro ansawdd dŵr a biolegol manylach ers hynny. Mae'r llynnoedd hyn bellach wedi'u dosbarthu gan fwy o elfennau, gan gynnwys elfennau ffisio-gemegol a biolegol megis infertebratau arfordirol a ffytoplanton. Mae rhai o'r elfennau hyn yn gymedrol (e.e. infertebratau arfordirol, gallu niwtralau asid) sy'n golygu bod y corff dŵr cyfan yn cael ei ddosbarthu yn gymedrol. Mae'r newid hwn wrth fonitro i gyfrif am y rhan fwyaf o newidiadau mewn statws o dda i gymedrol mewn llynnoedd yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

Yn ystod yr 20fed ganrif, achosodd glaw asid yn sgil nwyon asid a allyrrwyd gan ddiwydiant trwm a gorsafoedd pŵer â than glo asideiddio difrifol i lawer o'n llynnoedd a'n nentydd ucheldir. Mae rheoliadau llygredd aer wedi gostwng yn llwyddiannus ar swm y dyddodiad asid i lefelau llawer yn is, ond mae amgylchedd cemegol wedi bod yn llawer arafach wrth adfer, ac mae angen i anifeiliaid a phlanhigion sensitif i asid ail-gytrefu dyfroedd a oedd wedi'u llygru o'r blaen. Serch hynny, mae data monitro yn nodi bod llawer o'n dyfroedd ucheldir sensitif i asid bellach yn dangos tueddiadau gwella clir.

Mae llawer o'n llynnoedd a addaswyd sylweddol a phwysau arnynt yn sgil defnyddiau hanesyddol. Mae canfod ffyrdd o liniaru ar yr effeithiau hyn yn heriol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'n rhanddeiliaid, yn parhau i ymdrechu i ganfod datrysiadau arloesol newydd i'r materion hyn i greu'r cydbwysedd cywir er mwyn darparu dŵr yfed glân, hamdden, bioamrywiaeth diogel a ble bynnag fo hynny'n bosibl pŵer hydro.

Cyrff aberol (trawsnewidiol) a Dŵr Arfordirol

Aber Dyfrdwy yw'r unig gorff dŵr aberol ac arfordirol yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac mae wedi'i ddosbarthu yn gorff dŵr a addaswyd yn sylweddol. Nid oes unrhyw newid wedi bod yn statws ecolegol aber Dyfrdwy trwy gydol y cylch cyntaf. Mae Nitrogen Anorganig Tawdd wedi parhau ar statws cymedrol, serch hynny mae mwyafrif yr elfennau eraill wedi parhau ar statws da neu uchel. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn y cylch nesaf i adnabod effeithiau nitrogen anorganig tawdd ar yr ecoleg a byddant yn parhau i sefydlu'r mesurau angenrheidiol.

3.5 Cydymffuriad ag ardal warchoddedig

Mae llawer o ardaloedd ble mae'r amgylchedd dŵr yn cael ei werthfawrogi'n arbennig. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau natur prin, dyfroedd ymdrochi ac ardaloedd ble y mae dŵr yfed yn cael ei dynnu. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi yn 'Ardaloedd Gwarchoddedig'. Mae'r rhain wedi'u blaenoriaethu ar gyfer gweithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni'u hamcanion ac yn amddiffyn y buddion y maen nhw'n eu cynnig.

Rhaid i ardaloedd gwarchoddedig fodloni safonau sy'n perthyn i'w defnydd penodol. Yn aml mae'r rhain yn llymach na'r safonau a ddefnyddir i asesu statws ecolegol neu gemegol o dan WFD. Bydd cyflwyno camau o dan y cylch cyntaf a ddisgrifir uchod o fudd hefyd i'r Ardaloedd Gwarchoddedig wrth gyflawni cydymffuriad.

Ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed

Arolygiaeth Dŵr Yfed yw'r awdurdod cymwys ar gyfer y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed. Maen nhw'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi manylion cydymffuriad â gofynion ansawdd dŵr y Gyfarwyddeb.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer yr holl ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed perthnasol i reoli'r risg o ansawdd dŵr yn dirywio.

Wrth i fwy o samplau cemegol gael eu tynnu o afonydd, llynnoedd a dŵr daear ac echdyniadau newydd wedi ymddangos, mae nifer yr ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed sydd wedi'u dosbarthu wrth risg o ddirywiad ansawdd dŵr neu ar statws cemegol gwael (ar gyfer dŵr daear yn unig) wedi cynyddu. Gallai'r newid hwn, fel y tynnir sylw ato yn y ddealltwriaeth well o'r amgylchedd dŵr, fod o ganlyniad i:

- echdyniadau newydd yn cael eu datblygu neu'u hadnabod
- dirywiadau gwirioneddol yn ansawdd dŵr
- newidiadau yn lleoliad y monitro neu ddylanwadau newydd neu wahanol ar ansawdd dŵr yn cael eu hadnabod
- data samplu ychwanegol yn cael ei ddarparu gan yr echdynnydd
- nifer y samplau yn cynyddu gan ddarparu mwy o dystiolaeth o ddirywiad
- y risgiau wedi'u hadnabod yn anghywir o'r blaen
- risgiau newydd wedi ymddangos nad oeddynt yn cael eu monitro o'r blaen

Mae mesurau, megis darparu cyngor ac arweiniad i randdeiliaid mewn dalgylchoedd, grantiau cyfalaf ar gyfer gwelliannau seilwaith (er enghraifft bio-weylau) a thaliad ar gyfer gwasanaethau ecosystem wedi'u defnyddio i amddiffyn ansawdd dŵr.

Cyflwynir y waelodlin ar gyfer 2015 yng **Nghrynodeb RBMP**.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (pysgod dŵr croyw)

Diddymwyd y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw ym mis Rhagfyr 2013. Daeth effaith yr amcanion amgylcheddol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig pysgod dŵr croyw i ben o'r dyddiad hwnnw. Darperir lefel gyfwerth o amddiffyniad gan yr amcanion corff dŵr yng **Nghrynodeb RBMP**.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (dyfroedd pysgod cregyn)

Er 2013 trosglwyddwyd y gofynion ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Pysgod Cregyn (SWPA) i'r WFD. Mae 2 SWPA yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi sefydlu ystod eang o fesurau i ymdrechu i gyflawni'r safon microbaidd yng nghig pysgod cregyn. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn ystadegol yng nghrynodeiadau E.coli yng Nghig Pysgod Cregyn yn y Dyfrdwy. Mae Dŵr Pysgod Cregyn Gorllewin Dyfrdwy wedi cydymffurfio â safon microbaidd yn ystod 6 o'r 10 mlynedd ddiwethaf.

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Cyflwynodd Cyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig amcanion ansawdd dŵr newydd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig dŵr ymdrochi o 2015. 2015 yw blwyddyn gyntaf y Gyfarwydddeb newydd sy'n gosod safonau tynnach ar ddisbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi sydd wedi'u hanelu at gyflawni safonau uwch na Chyfarwydddeb y gorffennol. Bellach mae gan safonau dargedau ansawdd dŵr tynnach i'w cyflawni, mae'r safonau newydd tua dwywaith mor llym â'r rhai blaenorol.

Crynoir dosbarthiad rhagamcanol y dyfroedd ymdrochi yn erbyn y safonau newydd yng **Nghrynodeb RBMP**. Aseswyd cydymffurfiaid â safonau ansawdd dŵr y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi am y tro olaf yn 2014 (gweler tabl 24).

Tabl 24. Cydymffurfiaid dŵr ymdrochi gydag hen amcanion Cyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi (1976):

Blwyddyn	Nifer y dyfroedd ymdrochi	% sy'n cydymffurfio â'r safonau gorfodol	% sy'n cydymffurfio â'r safonau canllaw
2009	1	100%	100%
2014	1	100%	100%

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr

Yng Nghymru mae cyflwr nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer Cyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar yn cael eu hadrodd dros gylchoedd 6 blynedd. Mae'r ymdriniaeth adrodd hon yn amrywio rhwng Cymru a Lloegr. Yn Lloegr adroddir ar gyflwr fesul uned ac yng Nghymru ar sail nodweddion cynefin neu rywogaeth dynodedig yng Nghymru. Yn ychwanegol at hynny mae mân wahaniaethau yn rhai o'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer adrodd. Mae tabl 25 yn crynhoi'r data ar gyfer adran Cymru o Ardal Basn Afon Dyfrdwy wedi'i seilio ar nifer y nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ym mhob categori. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'i ddefnyddio. Mae rhai bylchau yn y data oherwydd y gwahaniaethau yn y gofynion y mae rhai nodweddion dynodedig yn cael eu hadrodd. Er enghraifft, adroddir ar nodweddion Ardaloedd

Gwarchodaeth Arbennig ar lefel DU ac nid ar lefel safle. Felly yn nhabl 25 mae cyflwr y nodweddion unigol yn cael eu hadlewyrchu yn anhysbys. Hefyd, mae ffin rhai o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nac un Ardal Basn Afon. Yn yr achosion hyn mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig perthnasol wedi'u hystyried ym mhob Ardal Basn Afon ble mae'r ffiniau yn gorgyffwrdd.

Tabl 25. Cyflwr cyfredol ardaloedd gwarchodedig dŵr Natura 2000 yn adran Cymru o Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn unig

Cyflwr cyfredol Nifer y cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig Natura 2000	
Ffafirol: Wedi'u cynnal	0
Ffafirol: Wedi'u hadfer	1
Ffafirol: Di-ddosbarth	5
Anffafirol: Yn gwella	1
Anffafirol: Dim newid	10
Anffafirol: Yn dirywio	3
Anffafirol: Di-ddosbarth	16
Wedi'i ddinistrio: Yn rhannol	0
Wedi'i ddinistrio: Yn llwyr	0
Heb ei asesu	20
Cyfanswm	56

* sylwer bod hyn yn cynnwys Afon Dyfrdwy (Cymru) yn unig

Yn Lloegr mae'r data yn cael ei gofnodi fesul ardal (Ha) o'r uned SoDdGA sy'n cynnal y dynodiad Natura 2000. Mae ffin rhai o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nac un Ardal Basn Afon, e.e. mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Aber Dyfrdwy yn ffurfio rhan o Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon y Gogledd-orllewin. Yn yr achosion hyn mae'r safleoedd perthnasol wedi'u hystyried ym mhob Ardal Basn Afon ble mae'r ffiniau yn gorgyffwrdd. Mae tabl 26 yn crynhoi'r data ar gyfer adran Lloegr o Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn unig.

Tabl 26. Cyflwr cyfredol ardaloedd gwarchoddedig dŵr Natura 2000 yn adran Lloegr o Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn unig

Cyflwr cyfredol Ardal SoDdGA sy'n cynnal safleoedd Natura 2000 (Ha)	
WFD - ffafriol	2,623
WFD - adfer anffafriol	0
WFD - dim newid anffafriol	137
WFD - dirywio anffafriol	0
WFD - wedi dinistrio/wedi dinistrio'n rhannol	0
Cyfanswm yr ardaloedd	2,760

Yn ystod y cylch RBMP cyntaf mae llawer o gamau wedi'u cwblhau ar gyfer safleoedd Natura 2000. Mae Tabl 27 yn rhoi gwybodaeth ar amcan rif y camau a gwblhawyd ar gyfer y safleoedd Natural 2000 yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Yng Nghymru mae'n cynnwys camau a gwblhawyd yn y cylch RBMP cyntaf a gasglwyd yng nghronfa ddata camau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA) a safleoedd Ramsar yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Ar gyfer Lloegr mae'n cynnwys camau yr adroddwyd arnynt eu bod ar waith/wedi'u cwblhau. Mae camau yn cael eu cofnodi ar lefel Uned Reoli a gall rhai camau effeithio ar fwy nac un uned. Dylid nodi y gall ffin safle Natura 2000 gorgyffwrdd mwy nag un Ardal Basn Afon ac maen nhw wedi'u cynnwys ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Nid yw'r tabl yn cynnwys y mesurau ychwanegol o dan WFD a gynhaliwyd ar y safleoedd.

Tabl 27. Camau a gymerwyd yn Ardaloedd Gwarchoddedig Natura 2000 yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Safle Natura 2000	Dynodiad a gwblhawyd	Nifer y camau a gwblhawyd 2009-2015	Enghreifftiau o'r camau a gwblhawyd	Enghreifftiau o'r sefydliadau sydd wedi cyflawni'r camau
Coedwigoedd Dyffryn Alun	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	13	Cytundeb Rheoli; Rheoli Uniongyrchol; trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru

Berwyn	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	101	Cytundeb Rheoli; Rheoli Uniongyrchol; Trwydded bori; Glastir; Ymchwiliadau	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; RSBP
Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	106	Cytundeb Rheoli; Rheoli Uniongyrchol; Trwydded bori; Glastir; Ymchwiliadau	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; RSBP
Aber Dyfrdwy (Cymru)	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	0	Amherthnasol	Amherthnasol
Aber Dyfrdwy (Cymru)	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Safleoedd Madfall Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	44	Cytundeb Rheoli; Rheoli Uniongyrchol; Caniatâd Cynllunio - gorfodi amodau	Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Sir y Fflint; Bywyd Gwylt Gogledd-ddwyrain
Fenn's, Whixall, Bettisfield, Wem a Cadney Mosses	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	13	Rheoli Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mynydd Helygain	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	9	Cytundeb Rheoli; Caniatâd Cynllunio - gorfodi amodau	Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Sir y Fflint
Safleoedd Madfall Dŵr Johnstown	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	12	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth uniongyrchol	Cyfoeth Naturiol Cymru; Bywyd Gwylt Gogledd-ddwyrain Cymru

Migneint– Arenig–Dduallt	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	19	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth uniongyrchol; Glastir	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; RSPB
Migneint– Arenig–Dduallt	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	25	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth uniongyrchol; Glastir	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; RSPB
Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (Cymru)	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	15	Ymchwiliad; Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi; Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Afonydd Cymru
Llyn Tegid	Ramsar	3	Cytundeb Rheoli; Trwydded cwympo coed	Cyfoeth Naturiol Cymru
Aber Dyfrdwy (Cymru)	Ramsar	12	Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Meres a Mosses Canolbarth Cam 2 (Cymru)	Ramsar	14	Rheoli Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Afon Dyfrdwy a Llyn Bala (Lloegr)	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	4	Cynllun Llygredd Dŵr Gwasgaredig; Cynlluniau Cynllunio Rheoli Asedau; Rheolaeth	Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, United Utilities

			rhywogaeth oresgynnol	
Aber Dyfrdwy (Lloegr)	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	3	Ymchwiliad	Natural England
Aber Dyfrdwy (Lloegr)	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	0	-	-

Am ragor o fanylion ar leoliad yr ardaloedd gwarchodedig ewch i **Arsylwi Dyfroedd Cymru** i weld y mapiau rhyngweithiol.

4. Cynnydd Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru 2009 - 2015

4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cynnwys asesiad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ers cyhoeddi RBMP 2009. Mae'n cynnwys adroddiad ar y mesurau a weithredwyd a sut y mae'r amgylchedd dŵr wedi newid yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (wedi'i seilio ar gymharu data hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009).

Ers cyhoeddi cynllun 2009 mae llawer o welliannau wedi bod gan gynnwys tystiolaeth gynyddol, newidiadau yn y ffordd yr ydym yn monitro ac yn casglu gwybodaeth; er enghraifft adolygiad Corff Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn **Atodiad Trosolwg RBMP**.

Dangosir nifer a math y cyrff dŵr ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn nhabl 28 isod.

Tabl 28. Nifer a math y cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	A Addaswyd yn Sylweddol	Cyfanswm
Afon*	607	8	61	676
Llyn	21	2	39	62
Arfordirol	18	0	6	24
Aberol	16	0	11	27
Dŵr daear	25	n/a	n/a	25
Cyfanswm	687	10	117	814

*Mae cyrff dŵr afon yn cynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb

Mae pump o gyrff dŵr afon a gafodd eu dosbarth yn HMWB yn 2009 wedi'u hail-ddynodi a bellach mae ganddynt yr amcan i fodloni statws ecolegol da yn hytrach na photensial ecolegol da. Mae nifer a mathau'r cyrff dŵr yn nhabl 28 uchod yn cynrychioli'r wybodaeth ddiweddar hon ac fe allai wahaniaethu ychydig i'r rheini a gyflwynir yng nghynllun 2009.

4.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf

Gellir rhannu'r camau a gymerwyd yn ystod y cylch cyntaf i'r grwpiau a amlinellir isod. Mae cyfuniad o'r holl gamau hyn ar y cyd yn cyfrannu at amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r camau yn perthyn i bob math o gyrff dŵr, afonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol gan gynnwys y rheini o fewn Ardaloedd Gwarchoddedig. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen fesurau a amlinellwyd i gyflawni'r amcanion statudol, gan gynnwys defnyddio dulliau cyfredol, camau statudol a gwirfoddol. Amlinellir y rhaglen fesurau wedi'i diweddarau yn Adran 3 **Crynodeb RBMP** a manylion mwy lleoliad i'w gweld yn **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

Atal dirywiad

Mae'r holl fesurau a llawer o weithgareddau dyddiol Cyfoeth Naturiol Cymru a llawer o'n partneriaid yn cyfrannu at atal dirywiad ar yr amgylchedd dŵr.

□ Am wybodaeth bellach gweler yr adran gyfatebol i Gymru (adran 2 yr adroddiad hwn).

Astudiaeth Achos

Mae ymdriniaeth ecosystemau arloesol tuag at reoleiddio wedi helpu'r diwydiant llaeth yng Ngorllewin Cymru a bydd yn parhau i helpu i amddiffyn yr amgylchedd lleol.

Mae First Milk Cheese Company Ltd yn gweithredu gwaith prosesu llaeth a chynhyrchu caws yn Hufenfa Hwlfordd. Mae llaeth o tua 300 o ffermydd lleol yn cael ei basteureiddio a'i brosesu yn y lleoliad hwnnw. O 2014 mae'r lleoliad yn gweithredu ei waith trin elifion ei hun ar y safle sy'n derbyn ac yn trin dŵr brwnt ac elifion o'r lleoliad. Mae'r elifion terfynol wedi'i drin yn cael ei ollwng i Gleddau Orllewinol, ardal warchoddedig oherwydd ei hystod eang o rywogaethau, cynefinoedd a phlanhigion dyfrol.

Bydd y gwaith trin elifion newydd yn bodloni safonau amgylcheddol llym ac mae'n cael ei weithredu gan First Milk Cheese mewn partneriaeth gyda Severn Trent Services (STS), ond bydd y gollyngiad yn parhau i ychwanegu maetholion i'r afon. Felly er mwyn gwrthosod y maetholion ychwanegol yn mynd i mewn i'r dŵr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a First Milk Cheese yn datblygu cynllun gwrthbwysu maetholion i liniaru ar effaith bosibl y gollyngiad trwy raglen o welliannau amgylcheddol yn ei ffermydd aelodau. Mae nifer y ffermydd sy'n cyflenwi llaeth i'r hufenfa wedi ymrwymo i gymryd rhan yn y cynllun. Mae'r pecynnau fferm terfynol yn cael eu cwmpasu a'u cytuno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaglen Fesurau

Roedd RBMP 2009 yn cynnwys mesurau cenedlaethol a mwy lleol, ar draws sectorau a phob math o gyrff dŵr. Dyma oedd y rhaglen gyntaf o fesurau statudol wedi'u datblygu yn benodol i fodloni gofynion yr WFD. Maen nhw'n cynnwys camau i atal dirywiad a gwelliannau mewn statws corff dŵr. Mae cynnydd gyda'r rhain yn cael eu hadrodd yn ffurfiol wrth Ewrop trwy System Gwybodaeth Dŵr Ewrop (WISE).

Dengys data ar gyfer y cylch cyntaf cyfan bod 81% o'r mesurau yn y cynllun cyntaf wedi'u cwblhau yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Nid yw rhai mesurau wedi'u cwblhau am y rhesymau a ganlyn;

- Gyda 8 mesur sydd wedi'u hailasesu nid ydynt eu hangen mwyach neu nid ydynt yn cael eu hystyried yn effeithiol
- Ni chafodd 18 eu hariannu (tynnu ariannu yn ôl)

- Gyda 9 ni chafwyd dull i weithredu'r mesur
- Cafodd 34 eu hadolygu a'u diweddarau fel mesurau newydd ar gyfer y cynllun hwn (parhaus)

Fe wnaeth RBMP 2009 sefydlu Rhaglen Fesurau i wella'r amgylchedd dŵr o ddsbarthiad gwaelodlin 2009. Mae llawer o welliannau wedi'u cynnal yn ychwanegol at y mesurau hyn gan lawer o sefydliadau ac unigolion. Mae llawer o sefydliadau wedi cydweithio ar draws yr Ardal Basn Afon ar ystod o brosiectau.

Camau partneriaeth

Mae prosiectau Rainscapes, Greener Grangetown a Systemau Draenio Cynaliadwy cymunedol Ymddiriedolaethau Natur yn enghreifftiau da ble'r ydym ni'n gweithio gyda chynghorau lleol, Dŵr Cymru a sefydliadau trydydd sector er mwyn annog defnydd ar Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae nodweddion clustogi llif naturiol megis lleiniau glas, gerddi glaw a gwlyptiroedd yn cynyddu ymdreiddiad ac yn tynnu gwaddodion a llygryddion. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu cynnwys o fewn adnewyddu trefol a chynllunio datblygiad.

Mae cymunedau lleol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda ni i ganfod a chywiro camgysylltiadau mewn ardaloedd trefol (er enghraifft menter Nentydd Clir Abertawe) a gydag Ymgyrch Pysgod Melyn Cadwch Gymru'n Daclus wrth godi ymwybyddiaeth o lygredd gwasgaredig trefol. Mae Dŵr Cymru yn annog Systemau Draenio Cynaliadwy trwy ddarparu ad-daliadau i gwsmeriaid sy'n gosod storffeydd dŵr ac yn ailgyfeirio dŵr cafnau o'r systemau carthffosiaeth cyfun i'w gerddi. Ar Ystadau Diwydiannol rydym yn annog camau gwirfoddol trwy gyfathrebu canllawiau arfer da Cyswllt Busnes Cymru ac yn cymryd camau rheoleiddio pan fydd digwyddiadau llygredd yn digwydd⁴.

Ymchwiliadau

Mae'r Rhaglen Fesurau hefyd yn cynnwys ymchwiliadau, er enghraifft ymchwiliadau i effeithiau mwyngloddiau metel trwy Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru. Yn ychwanegol at y mathau penodol hyn o ymchwiliadau ceir hefyd rhaglen dreigl sy'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o ymchwiliadau cyn 2013 fel bod y canlyniadau yn hysbys mewn pryd ar gyfer adolygiad ffurfiol o RBMP 2009.

Fel rhan o Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru rydym wedi canolbwyntio ar y mwyngloddiau metel wedi'u gadael hynny sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd. Ar gyfer yr Ardal Basn Afon hon, mae hyn yn cynnwys mwynglawdd copr Mynydd Parys, a nifer o fwyngloddiau aur, plwm a sinc yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.

⁴ Heriau a Dewisiadau Gorllewin Cymru 2013

Astudiaeth achos - Prosiect Adferiad Mwynglawdd Frongoch

Fe gwblhawyd ail gyfnod a chyfnod terfynol Prosiect Adferiad Mwynglawdd

Frongoch yn llwyddiannus ym mis Mehefin 2015.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y tomennydd gwastraff a oedd wedi'u halogi eu hail-lunio a'u capio gyda chlai a phridd er mwyn atal mynediad dŵr er mwyn annog aildyfiant. Fe wnaethom hefyd adeiladu sianeli i gludo dŵr wyneb glân i gyfres o byllau, gan greu cynefin gwlyptir. Cynlluniwyd y gwaith i fod yn sensitif i weddillion archeolegol helaeth a oedd yn bresennol yn y mwynglawdd, a diogelu ei werth treftadaeth i genedlaethau'r dyfodol. Cynhaliodd Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed ymchwiliadau a chofnodi'r nodweddion a ddarganfuwyd yn ystod cloddio'r gwastraff mwynglawdd.

Ariannwyd y prosiect £1.15 miliwn yn rhannol gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop, a ddarperir trwy Lywodraeth Cymru, ac fe'i cyflwynwyd gyda chefnogaeth dechnegol yr Awdurdod Glo. Y nod oedd atal dŵr glaw ac wyneb rhag dod i gysylltiad â'r gwastraff mwynglawdd wedi'i halogi, gan hynny yn gostwng ar swm y metelau sy'n crynhoi ac yn mynd i Nant Frongoch. Mae monitro yn parhau er mwyn asesu effeithiolrwydd y cynllun.

Ers cyhoeddi RBMP 2009, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal rhaglen ymchwilio helaeth yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru i ganfod pam nad yw llawer o gyrff dŵr mewn cyflwr da. Mae hyn wedi cynnwys dros 600 o ymchwiliadau nad ydynt yn cynnwys y rheini i sicrhau 'dim dirywiad'. Mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gyrff dŵr wedi cynyddu'n sylweddol. O ganlyniad i hynny, rydym bellach mewn safle gwell i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ble y gellir gwneud y gwelliannau amgylcheddol mwyaf, a fydd yn darparu'r budd gorau i bawb. Cadarnhaodd ein hymchwiliadau mai materion megis llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig ac addasiadau ffisegol yw'r prif resymau pam nad yw gyrff dŵr mewn cyflwr da. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal:

- **101** o ymchwiliadau i gadarnhau nad yw corff dŵr mewn cyflwr da, ble'r oedd gennym amheuaeth yn 2009.
- **388** o ymchwiliadau i gafod pam nad yw corff dŵr mewn cyflwr da. Trafodir canfyddiadau'r ymchwiliadau hyn yng Nghrynodeb RBMP yr ail gylch.
- **116** o ymchwiliadau pellach ar y gweill neu wedi'u cynllunio i benderfynu pa gamau y gellid eu cymryd i ddelio â'r broblem.

Rydym wedi defnyddio allbynnau o'r ymchwiliadau hyn i ddiweddarau'r gronfa ddata 'Rheswm dros Fethiant'. Trwy ddadansoddiad o'r data hwn rydym wedi gwella'n dealltwriaeth o achos y methiannau ac ar ôl hynny wedi adnabod yr hyn yr ydym ni'n ei feddwl yw'r materion mawr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Trafodir y materion hyn ymhellach yng **Nghrynodeb RBMP**.

Mesurau newydd ychwanegol

Mae'r Rhaglen Fesurau yn gofyn am adolygiad rheolaidd i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cyflwyno yn y man cywir. Yn ystod y cylch cyntaf, roedd hi'n amlwg bod blaenoriaethau a/neu gyfleoedd newydd yn golygu bod rhai camau yn cael eu hadolygu i adlewyrchu angen cyfredol yr amgylchedd, roedd hyn yn cynnwys;

- Mesurau cyfredol yn cael eu cymhwyso mewn man newydd.
- Cyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid mewn ffordd wahanol gan ddefnyddio adnoddau ac ariannu newydd, megis y rhaglen taith gerdded ar lan yr afon a oedd yn ffurfio rhan allweddol o'r gwaith ymchwiliadau lleol.

Ariannu Llywodraeth Cymru

Cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar gronfa ar draws Cymru i gefnogi prosiectau partneriaeth gwirfoddol sy'n cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd dŵr. Yn ystod y cylch cyntaf, derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru £850 mil dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru (£450 mil yn 2012/13, £150 mil yn 2013/14 a £250 mil yn 2014/15) i gefnogi cyflwyno prosiectau WFD. Cefnogwyd ystod eang o brosiectau trydydd sector gan gynnwys gweithgareddau megis ffensio, plannu coed a thynnu rhwystrau ynghyd â nifer o brosiectau ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth.

Tabl 29. Prosiectau WFD Llywodraeth Cymru

Blwyddyn	Teitl Prosiect	Partner/Partneriaid Arweiniol
2012-13	Nant yr Wyddfa - y Gwyrfa	Antur Waunfawr
2012-13	Adfer Cynefin ar Afon Corris	Afonydd Cymru
2012-13	Adfer Cynefin ar Afon Iwrch	Afonydd Cymru
2012-13	Map a Difa Chwyn Ymledol	Cymdeithas Genweiriol Tywysog Albert
2012-13	Gwella ansawdd dŵr wedi'i arwain gan y gymuned Llyn Padarn	Eryri Bywiol
2012-13	Prosiect Afonydd Byw Dyfi.	Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
2012-13	Astudiaeth Gwmpasu Corsydd Eifionydd a Harlech	Pori Natur a Threftadaeth Ltd (PONT)
2012-13	Adfer Cynefin ar Gamddwr	Afonydd Cymru
2012-13	Swyddog Natur a Phobl Abertawe	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
2012-13	Hwylusfa Pysgod Nant Cynon i fynd i'r afael â WFD	Clwb Genweiriol Cwm Afan
2012-13	Prosiect Adfer Llednant OAA	Ogmore Angling Association Ltd. (OAA)
2012-13	Gwella Cynefin Afon ac Ansawdd Dŵr yn Sir Gaerfyrddin	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin
2012-13	Adfer Cynefin Eogiaid yn Afonydd Gorllewin Cymru - Afon Fflur	Afonydd Cymru

2012-13	Adfer Cynefin Eogiaid yn Afonydd Gorllewin Cymru – Westfield Pill (Nant Rhosfarced)	Afonydd Cymru
2012-13	Adfer Cynefin Eogiaid yn Afonydd Gorllewin Cymru - Afon Cerdin, dalgyrch Teifi	Afonydd Cymru
2013-14	Datblygu NVQ Adfer Afonydd	Learn and Grow
2013-14	Ffeiriau Ariannu TSO Gorffennaf 2013	Amryw
2013-14	Afon Alwen	Afonydd Cymru
2013-14	Afon Camddwr	Afonydd Cymru
2013-14	Afon Wybrnant	Afonydd Cymru
2013-14	Toriad Glanfyddion, Rhuddlan	Afonydd Cymru
2013-14	Afon Eitha	Afonydd Cymru
2013-14	Adferiad Llechwedd Llwyd	Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
2013-14	Nant Glir Llynfi	Cadwch Gymru'n Daclus, Dŵr Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Gofal Afon Llynfi
2013-14	Prosiect Llys y Fran	Afonydd Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro
2013-14	Adfer Afon Dulais	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin
2013-14	Fferm Brooklands, Pen-bre	WTSWW
2013-14	Prosiect Cynefin Elwy	Coed Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
2013-14	Afon Meloch	Afonydd Cymru
2013-14	Nant y Gwryd	Afonydd Cymru
2014-15	Gwella mudo pysgod	Genweiriwyr Newydd Dyfi, Clwb Pysgota Tywysog Albert, Tirfeddianwyr,
2014-15	Gwella mudo pysgod	Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
2014-15	Prosiect Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy Tawe	Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymunedau yn Gyntaf, Dinas a Sir Abertawe (ymhlith eraill)
2014-15	Hygyrchedd ac astudiaeth defnyddiwr o Ddalgyrch Tawe	Fforwm Amgylcheddol Abertawe ynghyd â phartneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe

2014-15	Symposiwm Cyfleoedd Morol Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe a llawer o rai eraill
2014-15	Pontarddulais, rheoli gwastraff mwyngloddio'r gorffennol	Commons Vision Ltd., Prifysgol Abertawe
2014-15	Mwyngloddiau segur Dyfi - Astudiaeth Asesu Dalgylch	Prifysgol Aberystwyth ac awdurdod glo

Amcanion amgen

Mewn rhai achosion mae rhesymau hysbys pam na allai cyrff dŵr gyflawni statws da erbyn 2015. Ar gyfer y cylch cyntaf cafwyd 517 o gyrff dŵr a oedd yn disgyn i'r categori hwn ble gosodwyd amcan amgen i fodloni statws da erbyn 2027. Nid yw hyn yn golygu na chafodd camau eu cymryd yn y cyrff dŵr hyn. Rhaid i ni weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y gymuned wyddonol i ganfod datrysiadau buddiol o ran cost ac ymarferol yn dechnegol neu ffyrdd newydd o wneud pethau, er enghraifft yn y cynllun cyntaf fe wnaethom adrodd bod gan gyfanswm o 64% o ddyfroedd wyneb (65% o afonydd, camlesi a SWT amcanion amgen (statws da yn 2021 neu 2027), 68% o lynnoedd a ffosydd SoDdGA, 70% o aberoedd a 33% o arfordirol) a 40% o ddŵr daear ag amcanion amgen i gyd (statws da erbyn 2021, 2027). Amlinellir manylion yr amcanion amgen ar gyfer y chwe blynedd nesaf yn Adran 4 y **Crynodeb RBMP**.

4.3 Dirywiad

Un o brif amcanion WFD yw atal dirywiad corff dŵr o waelodlin 2009. Ble y gwelir bod dirywiad mewn statws rhwng 2009 a 2015 rhaid asesu ac esbonio'r rhesymau dros hyn.

Nid yw peth dirywiad o reidrwydd yn golygu bod ansawdd yr amgylchedd yn waeth, dim ond ein bod ni wedi monitro elfennau yn y corff dŵr yn ystod y cylch cyntaf na chafodd eu monitro'n flaenorol. Mae'n bwysig bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei adolygu i bennu pa gamau y mae angen eu cymryd a gan amlaf ni fydd angen camau dilynol.

Er mwyn asesu cydymffurfriad ag amcan WFD o atal dirywiad, cymharwyd canlyniadau dosbarthu 2015 (wedi'u seilio ar ddata hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009), gyda gwaelodlin dosbarthu 2009. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd elfen wedi dirywio o un dosbarth statws yn 2009 i un is yn 2015. Mae hyn yn cynwys lle mae elfen wedi dirywio ond sydd ddim wedi achosi dirywiant yn y dosbarthu ar y cyfan oherwydd y dosbarthu yr elfenau eraill. Mae hyder wedi'i fesur o ran sicrwydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnwys y safleoedd hynny ble'r ydym yn 'weddol sicr' i 'hynod sicr' bod yr elfen wedi methu. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hwn yn nhabl 30.

Tabl 30. Cyrff dŵr sydd hefo elfenau sydd wedi dirywio (ar >75% o hyder)

Cyrff dŵr	Nifer y cyrff dŵr	% o gyrff dŵr
Statws ecolegol dŵr wyneb	16	2%
Statws cemegol dŵr wyneb	9	1%
Statws meintiol dŵr daear	0	0%
Statws cemegol dŵr daear	0	0%

Yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru mae cyfanswm o 7 o gyrff dŵr wedi dirywio mewn statws dosbarthu ar y cyfan ers 2009.

Rhesymau dros Ddirywiad

Crynhoir y rhesymau dros y dirywiadau a amlinellir yn nhabl 30 uchod yn nhabl 31 isod. Mae cyfanswm o 29 o elfennau wedi dirywio dros 28 o gyrff dŵr. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hwn yn nhablau 31.

Tabl 31. Cyrff dŵr sydd wedi dirywio yn eu statws dosbarthu o waelodlin 2009.

Enw corff dŵr	ID corff dŵr	Rheswm dros ddirywiad	Elfen ofynnol	Mesur wedi'i effeithio
Tregatwg - blaenddyfroedd i gyfyngiad llanw	GB110058026420	Anhysbys – methiant newydd.	Ocsigen tawdd	Ymchwiliad newydd.
Hepste - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Mellte	GB110058032390	Data amheus.	Sinc Copr	Adolygiad data yn ofynnol.
Castell Nedd - cydlifo gyda Nedd Fechan a Mellte i Gyfyngiad Llanw	GB110058032430	Sylwedd gwenwynig, bio gronnol, parhaus a hollbresennol (uPBT). Tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Cyfansoddion Tribietyltin	Adolygiad Data/ Adnabod ffynhonnell leol ddim yn bosibl. Mesurau wedi'u cymryd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol
Nant y Fendrod - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Thawe	GB110059025710	Data amheus.	Macroffytâu	Dim – adolygiad data wedi nodi anomaledd dosbarthiad oherwydd newidiadau yng nghanol y cylch i safleoedd monitro.
Tywi - cydlifo gyda Chothi i gyfyngiad llanw nant	GB110060029290	Anhysbys – methiant newydd. Ewtroffigedd yn cael ei amau.	Ffytobenthos	Ymchwiliad newydd.

Alltwalis - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Gwili	GB110060036130	Anhysbys – methiant newydd.	Sinc	Ymchwiliad newydd.
Dewi Fawr - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Chynin	GB110060036150	Anhysbys – methiant newydd.	Ffosffad	Ymchwiliad newydd.
Dulais - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Tywi	GB110060036330	Anhysbys – methiant newydd.	Sinc	Ymchwiliad newydd.
Nyfer - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Brynberian	GB110061038510	Anhysbys – methiant newydd.	Ffosffad	Ymchwiliad newydd.
Arberth - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Theifi	GB110062039170	Amaethyddiaeth a/neu faterion rheoli tir gwledig.	Ffosffad	Mesurau llygredd gwledig gwasgaredig yn ofynnol.
Teifi - cydlifio gyda Meurig i gydlifo gyda Camddwr	GB110062043520	Amaethyddiaeth a/neu reoli tir gwledig yn debygol.	<i>Cypermethrin</i>	Ymchwiliad newydd.
Teifi - blaenddyfroedd i gydlifo gyda Meurig	GB110062043540	Amaethyddiaeth a/neu reoli tir gwledig yn debygol.	<i>Cypermethrin</i>	Ymchwiliad newydd.
Einion	GB110064043610	Safle monitro wedi newid.	Macroffytâu	Dim – newidiadau yn y cylch i'r safleoedd monitro.
Llyfnant	GB110064048250	Dyddodiad atmosfferig - yn cael ei amau	pH	Rheoli effaith asideiddio/ymchwiliad pellach i wella sicrwydd
Fathew	GB110064048410	Dyddodiad atmosfferig - yn cael ei amau	pH	Rheoli effaith asideiddio/ymchwiliad pellach i wella sicrwydd
Dysynni - isaf	GB110064048440	Dyddodiad atmosfferig - yn cael ei amau	pH	Rheoli effaith asideiddio/ymchwiliad pellach i wella sicrwydd
Cadair	GB110064048520	Dyddodiad atmosfferig - yn cael ei amau	pH	Rheoli effaith asideiddio/ymchwiliad pellach i wella sicrwydd
Cerist	GB110064048610	Dyddodiad atmosfferig - yn debygol	pH	Rheoli effaith asideiddio
Cywarch	GB110064048620	Dyddodiad atmosfferig - yn cael ei amau	pH	Rheoli effaith asideiddio ac ymchwiliad pellach i wella sicrwydd
Machno	GB110066054810	Dyddodiad atmosfferig - yn debygol	pH	Rheoli effaith asideiddio

Ganol	GB110066054810	Safle monitro wedi newid.	Ocsigen tawdd	Ymchwiliad newydd.
Gele	GB110066059980	Safle monitro wedi newid.	Ffosffad	Ymchwiliad newydd.
Conwy - cyfyngiad llanw i Merddwr	GB110066060030	Sylwedd gwenwynig, bio gronnol, parhaus a hollbresennol (uPBT). Tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Cyfansoddion Tribietyltin	Nid yw adnabod tarddle lleol yn ymarferol. Mesurau wedi'u cymryd ar lefel cenedlaethol neu ryngwladol
Llyn Dinam	GB31032948	Materion rheoli tir amaethyddiaeth a/neu wledig, gan gynnwys carthffosiaeth ddomestig heb garthffosiaeth	Blodau ffytoplancton	Mesurau llygredd gwledig gwasgaredig yn ofynnol
Llynau Gamallt	GB31034511	Amodau naturiol	Blodau ffytoplancton	Dyfarniad arbenigol yw nad oes angen unrhyw fesurau
Llyn Trawsfynydd	GB31034870	Materion rheoli tir amaethyddiaeth a/neu wledig, gollyngiadau carthffosiaeth yn y tarddle	Blodau ffytoplancton	Llygredd gwledig gwasgaredig a mesurau carthffosiaeth yn y tarddle yn ofynnol
Cronfa Ddŵr Nant-y-moch	GB31037596	Anhysbys – methiant newydd.	Blodau ffytoplancton	Ymchwiliad newydd.

Trwy gydol y cylch cyntaf rydym wedi cynyddu ein dealltwriaeth o'r cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Rhan o wella'r wybodaeth hon yw monitro cynyddol i sicrhau data ychwanegol.

Ble y mae dirywiad statws yn digwydd, rhaid adnabod yr achos a rhaid sefydlu mesurau i adfer y corff dŵr i'w statws blaenorol cyn gynted â phosibl. Mae'r cyrff dŵr a restrir uchod yn nhabl 31 wedi dirywio yn eu dosbarthiad elfen rhwng 2009 a 2015 am y rhesymau a grybwyllir uchod.

O dan rai amgylchiadau penodol caniateir dirywiad mewn statws. Nid oes unrhyw achosion sy'n bodloni'r gofynion hyn wedi'u hadnabod yn yr Ardal Basn Afon hyn.

4.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf

Yn 2009 y nod oedd sicrhau bod 36% o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ar statws da erbyn 2015. Yn 2009, roedd 30% o'r holl gyrff dŵr mewn cyflwr da. Dangosodd canlyniadau dosbarth 2015 bod 38% o'r holl gyrff dŵr wedi cyflawni statws da neu well. Disgwyliwn weld gwelliannau pellach wrth i'r amgylchedd ymateb gan wireddu buddion y camau.

Er bod llawer o'r mesurau a gwblhawyd yn ystod y 6 blynedd diwethaf yn cynnig buddion i'r amgylchedd lleol, gwelliant cyfyngedig sydd wedi bod yn nifer y cyrff dŵr ar statws da.

Serch hynny, yn ystod y cyfnod hwnnw fe wnaeth 426 elfen⁵ corff dŵr wella gan un dosbarth neu'n fwy.

Tabl 32. Cymharu gwaelodlin 2009 gyda chanlyniadau rhagamcanol a gwirioneddol 2015

Canran y cyrff dŵr ar statws da neu well	2009	2015 Rhagamcanol	2015 Gwirioneddol
Statws ecolegol dŵr wyneb	29%	36%	39%
Statws cemegol dŵr wyneb	6%	6%	17%
Statws meintiol dŵr daear	96%	96%	100%
Statws cemegol dŵr daear	64%	64%	52%
Statws cyffredinol	30%	36%	38%

Statws cemegol: Yn 2009 roedd 6% o gyrff dŵr ar statws da, 1% wedi methu a 93% heb eu hasesu oherwydd nad oeddent wrth risg. Yn 2015 roedd 17% ar statws da, 6% wedi methu a 77% heb eu hasesu oherwydd nad oeddynt wrth risg. Mae cynnydd o 11% o gyrff dŵr ar statws da a 5% yn methu, oherwydd bod 123 o gyrff dŵr ychwanegol wedi'u hasesu am eu statws cemegol yn nosbarthiad 2015. Gan hynny mae'r canlyniadau yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o gyrff dŵr sy'n cael eu monitro yn hytrach na gwelliant gwirioneddol yn y statws cemegol cyffredinol; mae gwybodaeth bellach i'w chael yn adran 4.3.1 ffigur 9.

Mae gwelliant mewn statws wedi'i gyfyngu gan y ddealltwriaeth gyfredol o'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr, eu tarddleuedd, a'r camau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hwy. Ceir gwybodaeth bellach am ein dealltwriaeth o'r pwysau cyfredol yn adran 4 **Crynodeb RBMP**.


Mae peth o'r newid yn adlewyrchu nifer y safleoedd sy'n cael eu monitro. Yn 2009 ni chafodd yr holl gyrff dŵr eu monitro am bob elfen. Rydym yn amau yn rhai achosion bod cyrff dŵr a gafodd eu dosbarthu yn dda ar statws is mewn gwirionedd. Rydym wedi trefnu monitro ychwanegol. Er enghraifft yn 2009 dim ond 7 o lynnoedd y gwnaethom eu monitro am facroffyttau, yn 2014 (ar gyfer y dosbarthiad 2015) cynyddodd hynny i 31, ac o'r swm hynny roedd 19 yn bodloni'r safon ofynnol. Gan hynny mae llawer o'r newid yn nodi dealltwriaeth well o'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd yn hytrach na newid gwirioneddol mewn ansawdd. Trafodir rhestr o'r cyrff dŵr sydd wedi dirywio ers gwaelodlin 2009 yn yr adran uchod gyda'r rhesymau dros y dirywiad.

⁵ Sylwer Mae 'Elfennau corff dŵr' yn cynnwys elfennau ecolegol (biolegol, ffisio-gemegol, sylweddau eraill ac elfennau llygrydd penodol ac eithrio BOD ac Ocsigen Tawdd mewn camlesi) a chemegol (Llygryddion Eraill, Sylweddau Blaenoriaeth a Sylweddau Peryglus â Blaenoriaeth) mewn dyfroedd wyneb yn unig ac elfennau meintiol a chemegol (GW) ar gyfer cyrff dŵr daear yn unig. Nid yw'n cynnwys elfennau ategol. Elfennau wedi'u hasesu yn unig.

4.4.1 Statws dosbarthiad corff dŵr cyffredinol

Yn 2009 roedd 7% o'r holl gyrff dŵr mewn cyflwr gwael, roedd 63% mewn cyflwr cymedrol a 30% mewn cyflwr da. Ers hynny, mae llawer o welliannau wedi'u gwneud a hynny wrth fonitro a chasglu data ac asesu. Dengys dosbarthiad 2015 bod canran y cyrff dŵr sy'n cyflawni statws da neu well wedi cynyddu i 38%. Gellir gweld yn ffigur 7 isod bod nifer y cyrff dŵr ar statws gwael wedi gostwng o 7% i 5% gyda chynnydd canlyniadol yn nifer y cyrff dŵr ar statws cymedrol. Disgwylwn weld gwelliannau pellach wrth i'r amgylchedd ymateb, gan wireddu buddion y camau.

Ffigur 7. Cymhariaeth ganrannol o statws cyffredinol y cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru rhwng dosbarthiad 2009 a 2015




Dyfroedd Wyneb

Ar gyfer dyfroedd wyneb, mae statws cyffredinol yn cynnwys cydran ecolegol a chemegol. Mesurir statws ecolegol ar y raddfa uchel, da, cymedrol, gwael a drwg. Mesurir statws cemegol yn dda neu wedi methu. Mae gwybodaeth bellach ar sut y mae statws dosbarthu yn cael ei gyfrifo yn **Atodiad Trosolwg RBMP**.


Dosbarthiad ecolegol

Mae iechyd y cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru wedi gwella ers i'r cynllun rheoli basn afon cyntaf gael ei gyhoeddi. Yn y cylch cyntaf mae 789 o gyrff dŵr wyneb yn yr Ardal Basn Afon ac mae 39% o gyrff dŵr wyneb mewn cyflwr da o'i gymharu â 29% yn 2009.

Ffigur 8. Cymhariaeth ganrannol rhwng dosbarthiad ecolegol ar gyfer dŵr wyneb rhwng 2009 a 2015.



Ffigur 9. Cymharu dosbarthiad cemegol 2009 a 2015



Dosbarthiad cemegol ac adrodd

Mae monitro ar gyfer cemegion wedi'i seilio ar y rheini sydd wedi'u gollwng mewn symiau sylweddol ac ar leoliadau sy'n cael eu hystyried wrth risg o fethu amcanion. Mae dros ddwywaith nifer y cyrff dŵr wedi'u hadrodd yn 2015 i'r hynny a oedd yn 2009, serch hynny mae cyfran y cyrff dŵr sy'n methu wedi parhau yn weddol debyg. Y cemegion sy'n achosi'r methiannau mwyaf yw metelau sy'n gysylltiedig â gollyngiadau mwynglawdd wedi'i adael.

Cyrff dŵr daear

Statws meintiol

Yn y cylch cyntaf mae pob un o'r 25 corff dŵr daear bellach ar statws meintiol da. Mae statws gwael a briodolwyd i un corff dŵr daear yn 2009 bellach wedi'i newid i statws da yn dilyn dadansoddiad data pellach.

Statws cemegol

O blith y 25 o gyrff dŵr daear yng Ngorllewin Cymru mae 13 ar statws cemegol da o'i gymharu â 16 yn 2009. Mae hyn yn golygu bod 12 ar statws gwael o'i gymharu â 9 yn unig yn 2009. Mae tri rheswm am y cynnydd hwn yn nifer y cyrff dŵr daear ar statws gwael a'r dirywiad ymddangosiadol mewn ansawdd dŵr daear:

- Mae ymchwiliadau dŵr wyneb ychwanegol wedi cadarnhau'r cysylltiad rhwng gollyngiadau dyfroedd wedi'u halogi o fwyngloddiau (dŵr daear) ac ansawdd dŵr wyneb gwael cyfagos.
- Mae ymchwiliadau hydroddaeareg ychwanegol i Ecosystemau Daearol sy'n Dibynnu ar Ddŵr Daear sylweddol (GWDTEau, gwlyptiroedd wedi'u bwydo â dŵr daear) wedi cadarnhau bod dŵr daear sy'n gyfoethog o ran maetholion yn gollwng i rai GWDTEau pwysig yn cyfrannu at ddifrod ecolegol sylweddol.

- Tuedd i fyny heb ei gadarnhau mewn crynodiadau o Cu a Zn ar un pwynt samplu yng nghorff dŵr daear Mesurau Glo Carbonifferaidd Abertawe. Mae ymchwiliadau wedi'u cynllunio i bennu a yw hyn yn cynrychioli tuedd i fyny gwirioneddol ar gyfer y metelau hyn mewn dŵr daear neu os yw samplu a materion dadansoddi yn cyfrannu at ansawdd data gwael. Mae ymdoddiad posibl metalau o'r rhwydwaith cyflenwi i'r cyflenwad dŵr, a chan hynny yn achosi i'r lefelau Cu a Zn uchel hyn, yn un o nifer o bosibiliadau a fydd yn cael eu hymchwilio.

Dangosir crynodeb yn nhabl 33.

Tabl 33. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr daear a aseswyd a'u statws yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Statws Meintiol				Statws Cemegol			
	Gwael		Da		Gwael		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Dŵr daear	1	0	24	25	9	12	16	13

I weld yr holl rwydweithiau monitro ewch i **Arsylwi Dyfroedd Cymru** i weld y mapiau rhyngweithiol.

4.4.2 Canlyniadau Dosbarthiad Ecolegol ar gyfer Mathau o Gyrff Dŵr

Afonydd

Yn y cylch cyntaf mae 676 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn afonydd, gan gynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae wyth o'r rhain wedi'u dynodi yn artiffisial a 61 yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol. Dangosir crynodeb yn nhabl 34.

Tabl 34. Crynodeb o gyrff dŵr afon yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	A addaswyd yn sylweddol	Cyfanswm
Afon	607	0	61	668
Camlesi	0	2	0	2
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	6	0	6
Cyfanswm	607	8	61	676

Yn 2009 roedd 187 o gyrff dŵr afon wedi'u dosbarthu yn statws ecolegol da (186 yn dda ac 1 yn uchel) yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Yn 2015 cynyddodd hyn gan 80 o gyrff dŵr i 267 sydd gyfwerth â chynnydd o 12% (o 28 i 40%). Dangosir crynodeb yn nhabl 35.

Tabl 35. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr afon a aseswyd a'u statws ecolegol yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Gwael		Drwg		Cymedrol		Da		Uchel		Heb ei asesu 2015
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	
Afon	1	1	40	14	448	391	178	259	1	0	3
Camlas	0	0	0	0	0	0	2	2	0	0	0
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	0	0	0	0	0	6	6	0	0	0
Cyfanswm	1	1	40	14	448	391	186	267	1	0	3

Yn RBMP 2009 nodwyd mai'r prif elfennau ar gyfer afonydd, sef mwyafrif y cyrff dŵr yn r Ardal Basn Afon, sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw pysgod a llygryddion penodol. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw llygryddion penodol, pysgod, ffytobenthos, ffosffad a pH.

Er bod gennym ddealltwriaeth llawer yn well o amgylchedd dŵr Cymru a'r pwysau sydd arno, rydym dal angen tystiolaeth bellach i ddeall yn llawn sut i reoli'r pwysau hwn er mwyn caniatáu defnydd cynaliadwy ar ein dyfroedd a sicrhau dyfodol diogel i'r economi leol a bioamrywiaeth.

Llynnoedd

Yn y cylch cyntaf mae 62 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn llynnoedd yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae dau o'r rhain wedi'u dynodi yn artiffisial a 39 yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol.

Yn 2009 cafodd 20 o gyrff dŵr llyn eu dosbarthu yn statws ecolegol da yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Yn 2015 gostyngodd hyn gan 8 o gyrff dŵr i 12 sydd gyfwerth â gostyngiad o 13% (o 32 i 19%). Serch hynny, yn 2009 fe wnaethom adrodd ar gyfer llawer o aberoedd, arfordiroedd a llynnoedd y byddai'n anhebygol y gallai gwelliant yn nifer y cyrff dŵr ar statws 'da'/potensial gael ei wireddu erbyn 2015. Dim ond newydd eu datblygu oedd yr offer biolegol a'r data monitro sy'n ofynnol i ddsbarthu'r mathau hyn o gyrff dŵr yn 2009. Gan hynny ar gyfer llawer o gyrff dŵr ychydig iawn, neu ddim o gwbl, o wybodaeth fonitro oedd ar gael ac roedd dosbarthiad wedi'i seilio ar naill ai gwybodaeth fodol neu ddyfarniad arbenigol. Mae ein hymchwiliadau yn ystod y 6 blynedd diwethaf wedi helpu i gynyddu ein gwybodaeth am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r cyrff dŵr hyn a sut y mae eu bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Serch hynny mae llawer o'r cyrff dŵr hyn yn gymhleth iawn ac rydym angen tystiolaeth bellach i ddeall nid yn unig y pwysau ond hefyd sut i ddelio â hwy'n ddigonol mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod modd i'n heconomi a'n hamgylchedd dŵr ffynnu a darparu amgylchedd diogel, glân a bioamrywiol i bawb. Dangosir crynodeb yn nhabl 36.

Tabl 36. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr llyn a aseswyd a'u statws yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Gwael		Cymedrol		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015

Llynnoedd	9	12	33	38	20	12
-----------	---	----	----	----	----	----

Yn RBMP 2009 nodwyd ar gyfer llynnoedd mai'r prif elfennau a oedd yn nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw infertebratau arfordirol, macroffytâu, gallu niwtraleiddio asid a chyfanswm ffosfforws. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw infertebratau arfordirol, chyfanswm ffosfforws, blodau ffytoplancton a macroffytâu.

Yn ystod yr 20fed ganrif, achosodd glaw asid yn sgil nwyon asid a allyrrwyd gan ddiwydiant trwm a gorsafoedd pŵer â than glo asideiddio difrifol i lawer o'n llynnoedd a'n nentydd ucheldir. Mae rheoliadau llygredd aer wedi gostwng yn llwyddiannus ar swm y dyddodiad asid i lefelau llawer yn is, ond mae'r amgylchedd cemegol yn llawer arafach wrth adfer, ac mae anifeiliaid a phlanhigion sensitif i asid angen ail-gytrefu dyfroedd a oedd wedi'u llygru cyn hynny. Serch hynny, mae data monitro yn nodi bod llawer o'n dyfroedd ucheldir sensitif i asid bellach yn dangos tueddiadau gwella clir.

Mae llawer o'n llynnoedd wedi'u haddasu'n sylweddol a chanddynt bwysau yn sgil defnyddiau hanesyddol. Mae canfod ffyrdd o liniaru ar gyfer yr effeithiau hyn yn heriol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'n rhanddeiliaid, yn ymdrechu'n barhaus i ganfod datrysiadau arloesol newydd i'r materion hyn i greu'r cydbwysedd cywir er mwyn darparu dŵr yfed glân, hamdden, bioamrywiaeth diogel a ble fo'n bosibl pŵer hydro.

Cyrff Dŵr Aberol (trawsnewidiol) ac Arfordirol

Yn y cylch cyntaf mae 51 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn arfordirol (24 o gyrff dŵr) ac aberol (27 o gyrff dŵr) yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae saith ar hugain o'r rhain wedi'u dynodi yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol (6 yn gyrff dŵr arfordirol a 11 yn aberol).

Yn 2009, roedd 24 o gyrff dŵr arfordirol ac aberol wedi'u dosbarthu yn statws ecolegol da neu well yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Yn 2015 mae hyn wedi cynyddu gan 2 gorff dŵr i 26 (25 yn dda ac 1 yn statws ecolegol uchel) sydd gyfwerth â 4% o welliant. Serch hynny, yng nghynllun 2009 fe wnaethom adrodd ar gyfer llawer o ddyfroedd aberol ac arfordirol mae'n anhebygol y gellir cyflawni gwelliant yn niferoedd y cyrff dŵr ar statws 'da'/potensial erbyn 2015. Dim ond yn ddiweddar y mae offer biolegol a data monitro sy'n ofynnol i ddsbarthu'r mathu hyn o gyrff dŵr wedi'u datblygu. Gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r cyrff dŵr hyn a sut mae eu bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Mae nifer yr elfennau a chyrff dŵr sy'n cael eu monitro mewn dyfroedd aberol ac arfordirol o fewn y cylch 1af wedi gwella'n sylweddol, serch hynny mae hyn wedi arwain mewn rhai achosion at nifer cynyddol o elfennau yn cael eu hadnabod fel amcanion sy'n methu sydd wedi gyrru'r gostyngiad yn nifer y cyrff dŵr sy'n cyflawni statws da. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer y nifer cynyddol o fethiannau ar gyfer Nitrogen Anorganig Tawdd sydd wedi gyrru dirywiad yn nifer y cyrff dŵr, serch hynny mae monitro ecolegol pellach wedi dangos y byddai'r elfennau a fyddai'n ddisgwyliedig i ymateb i grynodiadau maetholion cynyddol ar statws da ar y cyfan. Rydym wedi cwblhau ymchwiliadau i nifer o'r methiannau hyn ac wedi sefydlu mesurau ble fo'n ofynnol yn y dalgylch ehangach megis cynllun gwrthosod maetholion yng Nghleddau

Gorllewinol a gwelliannau i'r rhwydwaith carthffosiaeth a draenio sy'n gollwng i Gilfach Tywyn.

Tabl 37. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr arfordirol ac aberol a'u statws ecolegol yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Arfordirol	1	0	0	1	7	9	16	13	0	1
Aberol	0	1	0	0	19	14	8	12	0	0
Cyfanswm	1	1	0	1	26	23	24	25	0	1

Yn RBMP 2009 nodwyd ar gyfer cyrff dŵr arfordirol ac aberol y prif elfennau a oedd yn nodi nad oedd statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu oedd Nitrogen Anorganig Tawdd. Y brif elfen yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei wireddu yw Nitrogen Anorganig Tawdd, serch hynny mae methiannau eraill ar gyfer Statws Cemegol ac Ecolegol hefyd yn amlwg.

4.5 Cydymffurfiad ardal warchoddedig

Mae'r amgylchedd dŵr yn cael ei werthfawrogi'n arbennig mewn sawl ardal. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys cynefinoedd neu rywogaethau bywyd gwyllt prin, dyfroedd ymdrochi ac ardaloedd ble y mae dŵr yfed yn cael ei dynnu. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi yn 'Ardaloedd Gwarchoddedig'. Mae'r rhain yn derbyn blaenoriaeth dros weithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni'u hamcanion ac yn amddiffyn y buddion y maen nhw'n eu cynnig.

Rhaid i Ardaloedd Gwarchoddedig fodloni safonau sy'n perthyn i'w defnydd penodol. Yn aml mae'r rhain yn llymach na'r safonau a ddefnyddir i asesu statws ecolegol neu gemegol o dan WFD. Bydd cyflwyno'r camau yn ystod y cylch cyntaf a ddisgrifir uchod hefyd o fudd i'r Ardaloedd Gwarchoddedig gyflawni cydymffurfiad.

Ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yw'r awdurdod cymwys ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed. Maen nhw'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi manylion cydymffurfiad gyda gofynion ansawdd dŵr y Gyfarwyddiaeth.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu parth diogelu dŵr daear ac wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer yr holl ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed i reoli'r risg o ansawdd dŵr yn dirywio.

Wrth i fwy o samplau cemegol gael eu cymryd o afonydd, llynnoedd a dŵr daear ac echdyniadau newydd yn cael eu cynnal, mae nifer yr ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed sydd wedi'u dosbarthu wrth risg o ddirywiad ansawdd dŵr neu ar statws cemegol gwael (ar gyfer dŵr daear yn unig) wedi cynyddu. Gallai'r newid hwn, fel y tynnir sylw ato gan ddealltwriaeth well o'r amgylchedd dŵr, fod o ganlyniad i:

- echdyniadau newydd yn cael eu datblygu neu'u hadnabod

- dirywiadau gwirioneddol mewn ansawdd dŵr
- newidiadau yn lleoliad y monitro fel bod dylanwadau newydd neu wahanol ar ansawdd dŵr yn cael eu hadnabod
- data samplu ychwanegol yn cael ei ddarparu gan yr echdynnwr
- nifer y samplau yn cynyddu gan ddarparu mwy o dystiolaeth o ddirywiad
- risgiau wedi'u hadnabod yn anghywir yn flaenorol
- risgiau newydd wedi ymddangos nad oeddynt yn cael eu monitro'n flaenorol

Mae mesurau, megis darparu cyngor ac arweiniad i randdeiliaid o fewn dalgylchoedd, grantiau cyfalaf ar gyfer gwelliannau seilwaith (er enghraifft bio-weylau) a thaliad ar gyfer gwasanaethau ecosystem wedi'u defnyddio i amddiffyn ansawdd dŵr.

Cyflwynir y waelodlin ar gyfer 2015 yng **Nghrynodeb RBMP**.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (pysgod dŵr croyw)

Cafodd y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw ei diddymu ym mis Rhagfyr 2013. Daeth effaith amcanion amgylcheddol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig pysgod dŵr croyw i ben o'r dyddiad hwnnw. Darperir lefel gyfwerth o amddiffyniad gan yr amcanion corff dŵr yn y Crynodeb RBMP.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (dyfroedd pysgod cregyn)

Er 2013 mae'r gofynion ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Pysgod Cregyn wedi'u trosglwyddo i WFD. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu ystod eang o fesurau i ymdrechu i gyflawni'r safon microbaidd mewn cig yn y 21 SWPAau yn y basn afon hwn. Mae hyn wedi arwain at welliannau arwyddocaol yn ystadegol mewn crynodiadau E-Coli yng nghig pysgod cregyn yn Nwyrain y Fenai a Gogledd Cilfach Tywyn sydd ar y cyd yn cynnal tua 80% o werth y diwydiant pysgod cregyn yng Nghymru. Yn 2014, cyflawnwyd safon microbaidd yn 14% o SWPAau. Cyflawnwyd y cydymffurfriad uchaf â safon microbaidd yn 2013 ar 33% o SWPAu yng Nghymru, serch hynny, nid oes unrhyw SWPAau wedi cydymffurfio â'r safon microbaidd am fwy na 8 allan o'r 10 mlynedd ddiwethaf. Mae tipyn yn fwy o ddealltwriaeth o ymddygiad pathogenau microbaidd yn yr amgylchedd aberol ac arfordirol a rhyngweithiadau â physgod cregyn yn ofynnol cyn y gallwn fod yn hyderus o gyflawni a chynnal y safon microbaidd.

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Cyflwynodd Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig amcanion ansawdd dŵr newydd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig dŵr ymdrochi o 2015. 2015 yw blwyddyn gyntaf y Gyfarwyddeb newydd sy'n gosod safonau tynnach ar ddisbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi sy'n anelu at gyflawni safonau uwch na Chyfarwyddeb y gorffennol. Bellach mae gan safonau dargedau ansawdd dŵr anos i'w cyflawni; mae'r safonau newydd tua dwywaith mor llym â'r rhai blaenorol.

Crynoir dosbarthiad rhagamcanol dyfroedd ymdrochi yn erbyn y safonau newydd yn y **Crynodeb RBMP**. Asewyd cydymffurfriad â safonau ansawdd dŵr yr hen Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi am y tro olaf yn 2014. Crynoir y canlyniadau hyn yn Nhabl 38. Dangosir ychydig o ddirywiad mewn cydymffurfriad â'r safon canllaw. Serch hynny, y rheswm dros

hyn yw bod 21 o safleoedd ychwanegol wedi'u dynodi yn Ddyfroedd Ymdrochi yn ystod y cylch cyntaf a chan hynny nid yw'r canran yn gymhariaeth uniongyrchol â chanran 2009. Dengys tabl 39 gymhariaeth uniongyrchol ar gyfer yr un Dyfroedd Ymdrochi Cymru ag a ddynodwyd yn 2009, mae'r tabl hwn yn dangos cynnydd yn nifer y Dyfroedd Ymdrochi sy'n bodloni'r safon canllaw.

Tabl 38. Cydymffurfiad dŵr ymdrochi ag amcanion yr hen Gyfarwyddiaeth Dŵr Ymdrochi (1976):

Blwyddyn	Nifer y dyfroedd ymdrochi	% sy'n cydymffurfio â'r safonau gorfodol	% sy'n cydymffurfio â'r safonau canllaw
2009	81	100%	88.9%
2014	102	100%	88.2%

Tabl 39. Cymharu â'r un Traethau Ymdrochi dynodedig yn 2009 a 2015

Blwyddyn	Nifer y dyfroedd ymdrochi	% sy'n cydymffurfio â'r safonau canllaw
2009	81	88.8%
2014	81	93%

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr

Yng Nghymru adroddir ar gyflwr y nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y Cyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar dros gylchoedd 6 blynedd. Mae tabl 40 yn crynhoi'r data ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru wedi'i seilio ar nifer y nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ym mhob categori. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'i ddefnyddio. Mae peth bylchau yn y data oherwydd y gwahaniaethau yn y gofynion y mae statws rhai o'r nodweddion dynodedig yn cael eu hadrodd. Er enghraifft, adroddir ar nodweddion Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar lefel y DU ac nid ar lefel safle. Felly yn nhabl 40 mae cyflwr nodweddion unigol yn cael eu hystyried yn anhysbys. Hefyd mae ffin rhai o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nag un Ardal Basn Afon. Yn yr achosion hyn mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig perthnasol wedi'u hystyried ym mhob Ardal Basn Afon ble mae'r ffiniau yn gorgyffwrdd.

Tabl 40. Cyflwr cyfredol ardaloedd gwarchodedig dŵr Natura 2000 yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

**Cyflwr cyfredol
Nifer y cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig Natura 2000**

Ffatriol: Wedi'u cynnal	29
Ffatriol: Wedi'u hadfer	4
Ffatriol: Di-ddosbarth	24
Anffatriol: Yn adfer	21
Anffatriol: Dim newid	37
Anffatriol: Yn dirywio	29
Anffatriol: Di-ddosbarth	94
Wedi'u dinistrio: Yn rhannol/ Yn llwyr	0
Heb eu hasesu	114
Cyfanswm	352

Astudiaeth achos - Gweithio i wella'r boblogaeth bysgod a misglen berlog yn Afon Eden

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Eden yn un o'r 21 o afonydd sy'n ffurfio prosiect 'Pearls in Peril' LIFE+ yr Undeb Ewropeaidd. Gwyddys bod llygredd gwasgaredig yn cael effaith negyddol ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r prosiect wedi gweithredu llawer o fesurau i gynorthwyo i gyflawni statws da o dan WFD a chyflawni statws cadwraethol ffafriol. Mae mesurau cadwraethol wedi cynnwys;

- Tynnu 54 hectar o goed conwydd ac adfywiad anfwriadol
- 430 o flociau gafael mewn safle a arferai fod yn safle coedwigaeth masnachol 88 hectar
- 2.1km o waith adfer afon (gwaith adfer clogfeini a graean)
- 13 o wlyptiroedd adeiledig 6.9km o ffensys wedi'u codi.

Dylai'r holl fesurau hyn gael effaith hirdymor fuddiol yn y dalgylch. Mae mesurau pellach angen eu gweithredu o hyd fel rhan o brosiect parhaus.



Yn ystod y cylch RBMP cyntaf, mae llawer o gamau wedi'u cwblhau ar gyfer safleoedd Natura 2000. Mae tabl 41 yn rhoi gwybodaeth ar amcan nifer y camau a gwblhawyd ar gyfer y safleoedd Natura 2000 yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'n cynnwys camau a gwblhawyd yng nghylch cyntaf Ardal Basn Afon a gasglwyd yng nghronfa ddata camau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA) a safleoedd Ramsar yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Nid yw'r tabl yn cynnwys y mesurau ychwanegol o dan Ardal Basn Afon a gynhaliwyd yn y safleoedd.

Tabl 41. Camau a gynhaliwyd yn Ardaloedd Gwarchodedig Natura 2000 yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Safle Natura 2000	Dynodiad	Nifer y camau a gwblhawyd 2009-2015	Enghreifftiau o'r o'r camau a gwblhawyd	Enghreifftiau sefydliadau sydd wedi cyflawni'r camau
Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	8	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Gwaith gweithredol rheoli risg o lifogydd	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	11	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Dŵr Cymru/Welsh Water
Afon Teifi/ River Teifi	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	17	Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio; Is-ddeddfau; Gwiriadau croes-gydymffurfio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Afon Tywi	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	11	Rheoli risg o lifogydd - cynllun cyfalaf/ gwelliant; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru; Cyngor Sir Caerfyrddin
Afonydd Cleddau/	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	13	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bae Caerfyrddin	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	5	Diddymu neu ddiwygio trwydded; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru

Bae Cemlyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	3	Glastir; Trafodaethau ar denantiaeth neu brynu yn llwyr	Cyngor Sir Ynys Môn; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Llywodraeth Cymru
Berwyn	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	113	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; RSPB
Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	113	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Coetiroedd Gwell i Gymru	Cyfoeth Naturiol Cymru; RSPB; Llywodraeth Cymru
Coetiroedd Blackmill	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Cytundeb Rheoli; Coetiroedd Gwell i Gymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Blaen Cynon	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	15	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cilfach Tywyn	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	10	Diddymu neu ddiwygio trwydded; Ymchwiliad; Rheolaeth Uniongyrchol	Cyngor Sir Caerfyrddin; Cyfoeth Naturiol Cymru; Dinas a Sir Abertawe
Cadair Idris	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Caeau Mynydd Mawr	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	5	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bae Ceredigion	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	4	Cytundeb Rheoli; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru

Bae Caerfyrddin ac Aberoedd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	72	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyngor Sir Caerfyrddin; Cyngor Sir Penfro; Dinas a Sir Abertawe
Twyni Bae Caerfyrddin	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	18	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; Ystadau Amddiffyn
Arfordir Castell Martin	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	6	Rheolaeth Uniongyrchol	Cyfoeth Naturiol Cymru; Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cernydd Carmel	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	8	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Clogwyni Pen Llŷn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	69	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Glastir	RSBP; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Llywodraeth Cymru
Coedydd a Cheunant Rheidol	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	13	Cytundeb rheoli; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Coedydd Aber	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	9	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	54	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Parc Cenedlaethol Eryri; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Coed Cadw

Coedydd Nedd a Mellte	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	5	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cors Caron	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	-	-	-
Cors Fochno	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	-	-	-
Corsydd Eifionydd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	12	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Corsydd Llyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	22	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Corsydd Môn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	90	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru; Llywodraeth Cymru; Cyngor Sir Ynys Môn
Craig yr Aderyn	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	1	Glastir	Llywodraeth Cymru
Cors Crymlyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	9	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	14	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	RSPB; Llywodraeth Cymru; Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Aber Afon Dyfrdwy	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	-	-	-
Aber Afon Dyfrdwy	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru

Bae Dwn-rhefn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Aber Dyfi	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	1	Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Elenydd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	29	Ymchwiliad; Glastir	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru; Llywodraeth Cymru
Elenydd – Mallaen	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	205	Coetiroedd Gwell i Gymru; Glastir; Rheolaeth Uniongyrchol	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru; RSPB; Llywodraeth Cymru
Eryri	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	80	Ymchwiliad; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio; Glastir	Dŵr Cymru; Heddlu Gogledd Cymru; Parc Cenedlaethol Eryri
Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	11	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; RSPB
Glannau Môn: Cors heli	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Gweithredu rheolaeth arfordirol priodol	Cyngor Sir Ynys Môn
Glannau Ynys Gybi	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	14	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad Cytundeb Rheoli	Cyngor Sir Ynys Môn; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; United Utilities
Glan-traeth	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	-	-	-

Glaswelltiroedd Cefn Cribwr	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Coedydd Ynn Gwyr	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Cytundeb Rheoli; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Tiroedd Comin Gwyr	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	6	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwales	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	-	-	-
Pen y Gogarth	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	14	Cytundeb Rheoli; Ymchwiliad	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyfoeth Naturiol Cymru
Grogwynion	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	5	Rheolaeth Uniongyrchol	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gweunydd Blaencleddau	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	9	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mynydd Helygain	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	7	Cytundeb Rheoli	Cyngor Sir y Fflint; Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynffig	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	5	Glastir; Ymchwiliad; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Arfordir Calchfaen de Orllewin Cymru	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	26	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro; Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

				Ystadau Amddiffyn
Llwyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	19	Glastir; Ymchwiliad; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Llyn Dinam	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig			
Migneint– Arenig–Dduallt	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	20	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Ymddiriedolaeth Genedlaethol; RSPB; Llywodraeth Cymru
Migneint– Arenig–Dduallt	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	20	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Ymddiriedolaeth Genedlaethol; RSPB; Llywodraeth Cymru
Morfa Harlech a Morfa Dyffryn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	8	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Dŵr Cymru; Parc Cenedlaethol Eryri
Mwyngloddiau Fforest Gwydir	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	18	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Glastir	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	15	Glastir; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Mynydd Epynt	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	4	Ymchwiliad; Glastir; Newid arfer gweithredol	Ystadau Amddiffyn; Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru

Coedydd Gogledd Sir Benfro	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	12	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru; Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro; Cyfoeth Naturiol Cymru
Comins Gogledd Orllewin Sir Benfro	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	15	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru
Safleoedd Ystum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	9	Rheolaeth Uniongyrchol; Coetiroedd Gwell i Gymru; Trwyddedau wedi'u diddymu neu'u diwygio	Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro; Cyfoeth Naturiol Cymru
Sir Benfro Forol	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	4	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Pen Llŷn a'r Sarnau	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	127	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyngor Sir Gwynedd; Network Rail; Parc Cenedlaethol Eryri
Preseli	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	6	Rheolaeth Uniongyrchol; Cytundeb Rheoli	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro; Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Tyddewi	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	6	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru; RSPB; Llywodraeth Cymru

Rhinog	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	2	Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhos Llawr-cwrt	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	-	-	-
Rhos Talglas	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	3	Rheolaeth Uniongyrchol; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Môr Hafren	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	3	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; Dŵr Cymru
Ynysoedd Sgogwm a Sgomer	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	-	-	-
Tyddewi	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	9	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; RSPB; Cyfoeth Naturiol Cymru
Traeth Lafan, Bae Conwy	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	-	-	-
Y Fenai a Bae Conwy	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	1	Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Twyni o Abermenai i Aberffraw	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	18	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Yerbeston Tops	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	3	Rheolaeth Uniongyrchol; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelhorniaid	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	4	Cytundeb Rheoli; Glastir	Cyngor Sir Ynys Môn; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Llywodraeth Cymru

Ynys Seiriol	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	-	-	-
Cilfach Tywyn	Ramsar	10	Ymchwiliad; Rheolaeth Uniongyrchol; Rheolaeth arfordirol priodol	Cyngor Sir Caerfyrddin; Dinas a Sir Abertawe; Cyfoeth Naturiol Cymru
Cors Crymlyn	Ramsar	8	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cors Caron	Ramsar	-	-	-
Cors Fochno & Dyfi	Ramsar	1	Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Corsydd Mon & Llyn	Ramsar	9	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyngor Sir Ynys Môn; Cyfoeth Naturiol Cymru
Llyn Idwal	Ramsar	-	-	-

Am ragor o fanylion ar leoliad ardaloedd gwarchoddedig ewch i Arsylwi Dyfroedd Cymru i weld mapiau rhyngweithiol.

5. Rhan Cymru o Gynnydd Ardal Basn Afon Hafren 2009 – 2015

5.1 Cyflwyniad

Er 1 Ebrill 2013 mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol ar y cyd am reoli rhannau o Ardal Basn Afon Hafren. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain ar Afon Hafren a chan hynny yn gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Basn Afon Hafren. Mae'r adran hon yn cynnwys asesiad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn adran Cymru o Ardal Basn Afon Hafren ers cyhoeddi'r cynllun cyntaf yn 2009. Mae'n cynnwys adroddiad ar y mesurau a weithredwyd a sut mae'r amgylchedd dŵr wedi newid yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (ar sail cymharu data hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu ag a ddefnyddiwyd yn 2009).

Dim ond data Cymru sydd wedi'i gynnwys gan y bydd data Cymru a Lloegr yn cael eu cyfuno yn ail gylch Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren a gyflenwir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cydweithio'n

agos a chyda rhanddeiliaid eraill i fodloni gofynion y WFD ac i gynnig ymdriniaeth gydgysylltiedig tuag at reoli dalgylch.

Ers cyhoeddi cynllun 2009 mae llawer o welliannau wedi bod gan gynnwys tystiolaeth gynyddol, newidiadau i dulliau monitro ac yn y ffordd yr ydym yn monitro ac yn casglu gwybodaeth; er enghraifft adolygiad Corff Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn **Atodiad Trosolwg RBMP**. Dangosir nifer a math y cyrff dŵr ar gyfer rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren yn nhabl 42 isod.

Tabl 42. Nifer a math y cyrff dŵr yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	A addaswyd yn sylweddol	Cyfanswm
Afon*	204	20	27	251
Llyn	4	1	34	39
Arfordirol	0	0	0	0
Aberol	1	0	2	3
Dŵr daear	9	0	0	9
Cyfanswm	218	21	63	302

*Cyrff dŵr afon yn cynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb

5.2 Cyflwyno camau o'r cylch cyntaf

Gellir rhannu'r camau a gymerwyd yn ystod y cylch cyntaf i'r grwpiau a amlinellir isod. Mae cyfuno'r holl gamau hyn ar y cyd yn cyfrannu at amddiffyn a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r camau yn perthyn i bob math o gyrff dŵr, afonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol gan gynnwys y rheini o fewn ardaloedd gwarchoddedig. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen o fesurau a amlinellwyd i gyflawni'r amcanion statudol, gan gynnwys defnyddio dulliau cyfredol a chamau statudol a gwirfoddol. Amlinellir y Rhaglen Fesurau wedi'i diweddarau yn Adran 3 y **Crynodeb RBMP** ynghyd â manylion mwy lleol sydd i'w chael yn **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

Atal dirywiad – mae'r holl fesurau a llawer o weithgareddau dyddiol Cyfoeth Naturiol Cymru a nifer o'n partneriaid yn cyfrannu at atal dirywiad yr amgylchedd dŵr.

□ Am wybodaeth bellach gweler yr adran gyfwerth i Gymru (adran 2 yr adroddiad hwn)'.

Y Rhaglen Fesurau

Roedd RBMP 2009 yn cynnwys mesurau cenedlaethol a rhai mwy lleol, ar draws sectorau a phob math o gyrff dŵr. Dyma'r rhaglen gyntaf o fesurau statudol wedi'u datblygu'n benodol i fodloni gofynion y WFD. Maen nhw'n cynnwys camau i atal dirywiad a gwelliannau yn statws corff dŵr. Adroddir ar gynydd y rhain yn ffurfiol wrth Ewrop trwy System Gwybodaeth Dŵr Ewrop (WISE).

Mae 80% o fesurau yn y cynllun cyntaf wedi'u cwblhau yng Nghymru. Nid yw rhai o'r mesurau wedi'u cwblhau am y rhesymau a ganlyn;

- Gyda 13 mesur sydd wedi'u hailasesu nid ydynt eu hangen mwyach neu nid ydynt yn cael eu hystyried yn effeithiol
- Ni chafodd 10 eu hariannu (ariannu wedi'i dynnu yn ôl)
- Gyda 2 nid oedd mecanwaith i weithredu'r mesur
- 26 wedi'u hadolygu a'u diweddarau fel mesurau newydd ar gyfer y cynllun hwn (parhaus)

Ymchwiliadau

Mae'r Rhaglen Fesurau hefyd yn cynnwys ymchwiliadau, er enghraifft ymchwiliadau i effeithiau mwyngloddiau metel trwy Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru. Yn ychwanegol at y mathau penodol hyn o ymchwiliadau mae rhaglen dreigl hefyd sy'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o ymchwiliadau cyn 2013 fel bod y canlyniadau yn hysbys yn barod ar gyfer adolygiad ffurfiol o'r cynllun cyntaf.

Ers cyhoedd RBMP 2009, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal rhaglen ymchwiliadau helaeth yn Ardal Basn Afon Hafren i ganfod pam nad yw llawer o gyrff dŵr mewn cyflwr da. Mae hyn wedi cynnwys dros 347 o ymchwiliadau yn rhan Cymru o'r Hafren; heb gynnwys y rheini i sicrhau 'dim dirywiad'. Mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gyrff dŵr wedi cynyddu'n sylweddol. O ganlyniad, rydym bellach mewn sefyllfa well i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ble y gellir gwneud y gwelliannau amgylcheddol mwyaf, a fydd yn cynnig y budd mwyaf i bawb. Cadarnhaodd ein hymchwiliadau mai materion megis addasiadau ffisegol a llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig yw'r prif resymau pam nad yw gyrff dŵr mewn cyflwr da.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal:

- **47** o ymchwiliadau i gadarnhau nad yw corff dŵr mewn cyflwr da, ble'r oedd gennym amheuaeth yn 2009.
- **198** o ymchwiliadau i ganfod pam nad yw corff dŵr mewn cyflwr da. Mae RBMP yr ail gylch yn cynnwys canfyddiadau'r ymchwiliadau hyn.
- Mae **24** o ymchwiliadau pellach ar y gweill neu wedi'u cynllunio i benderfynu pa gamau y gellid eu cymryd i ddelio â'r broblem.

Mesurau newydd ychwanegol

Mae'r rhaglen fesurau yn gofyn am adolygiad rheolaidd i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cyflwyno yn y man cywir. Yn ystod y cylch cyntaf roedd hi'n glir bod blaenoriaethau a/neu gyfleoedd newydd yn golygu bod rhai camau yn cael eu hadolygu i adlewyrchu angen cyfredol yr amgylchedd, mae hyn yn cynnwys;

- Cafodd mesurau cyfredol eu cymhwyso mewn man newydd.
- Cyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid mewn ffordd wahanol gan ddefnyddio adnoddau ac ariannu cyfredol, megis y rhaglen taith gerdded glan afon a oedd yn ffurfio rhan allweddol o waith ymchwiliadau lleol.

Ariannu Llywodraeth Cymru

Cychwynnodd Llywodraeth Cymru gronfa ar draws Cymru i gefnogi prosiectau partneriaeth gwirfoddol a oedd yn cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd dŵr. Yn ystod y cylch cyntaf, derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru £850 mil dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru (£450 mil yn 2012/13, £150 mil yn 2013/14 a £250 mil yn 2014/15) i gefnogi cyflwyno prosiectau WFD. Cafodd ystod eang o brosiectau trydydd sector eu cefnogi gan gynnwys gweithgareddau megis ffensiō, plannu coed a thynnu rhwystrau ynghyd â nifer o brosiectau ymgysylltu â'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth.

Tabl 43. Prosiectau WFD Llywodraeth Cymru

Blwyddyn	Teitl Prosiect	Partner/iaid Arweiniol
2012-13	Prosiect Adfer Nant Bechan	Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren
2012-13	Adfer Nant Llifior	Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren
2012-13	Prosiect Gwella Olwy a Throddi Sir Fynwy (MOAT)	Sefydliad Gwy ac Wysg
2012-13	Astudiaeth Gwella Cynefin a Hwylusfa Afon Cynon	Groundwork Merthyr & Rhondda Cynon Taf (RCT)
2012-13	Prosiect Gwella Cynefin a Hwylusfa Afonydd De-ddwyrain Cymru	Cadwch Gymru'n Daclus
2013-14	Adfer afon Sirhywi	Groundworks, Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
2013-14	Prosiect Eogiaid Tanat	Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren
2013-14	Prosiect Dalgylch Trannon	Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren
2013-14	Prosiect Afonydd Monty	Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren
2014-15	Adfer culfor Rhondda	Salix, Rhondda Cynon Taf, tîrfeddianwyr a grwpiau cymunedol / gwirfoddolwyr lleol

Amcanion amgen

Mewn rhai achosion byddwn yn gwybod pam nad oedd modd i gyrff dŵr gyflawni statws da erbyn 2015. Nid yw hyn yn golygu na chafodd camau eu cymryd yn y cyrff dŵr hyn. Mae angen i ni weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y gymuned wyddonol i ganfod datrysiadau buddiol o ran cost sy'n ymarferol yn dechnegol neu ffyrdd newydd o wneud pethau. Amlinellir manylion yr amcanion amgen ar gyfer y chwe blynedd nesaf yn RBMP Hafren Asiantaeth yr Amgylchedd 2015.

5.3 Dirywiad

Un o brif amcanion WFD yw atal dirywiad corff dŵr o'i waelodlin yn 2009. Ble gwelir bod dirywiad yn ei statws rhwng 2009 a 2015 rhaid asesu ac esbonio'r rhesymau dros hyn.

Efallai na fydd peth dirywiad yn golygu bod ansawdd yr amgylchedd yn waeth, y rheswm yw ein bod wedi monitro elfennau yn y corff dŵr hwnnw yn ystod y cylch cyntaf na chafodd eu monitro yn flaenorol. Mae'n bwysig bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei adolygu i bennu pa gamau sydd angen eu cymryd ymhle ac mewn rhai achosion ni fydd angen unrhyw gamau dilynol.

Er mwyn asesu cydymffurfriad ag amcan WFD o atal dirywiad, cafodd canlyniadau dosbarthu 2015 (wedi'u seilio ar ddata hyd at ddiwedd 2014 a'r un safonau ac offer dosbarthu ag a ddefnyddiwyd yn 2009), eu cymharu â gwaelodlin dosbarthu 2009. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd elfen wedi dirywio o un dosbarth statws yn 2009 i un is yn 2015. Mae hyn yn cynwys lle mae elfen wedi dirywio ond sydd ddim wedi achosi dirywiant yn y dosbarthu ar y cyfan oherwydd y dosbarthu yr elfenau eraill. Mae hyder wedi'i fesur o ran sicrwydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnwys y safleoedd hynny ble'r ydym yn 'weddol sicr' i 'hynod sicr' bod yr elfen wedi methu. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hwn yn nhabl 44.

Tabl 44. Cyrff dŵr sydd hefo elfenau sydd wedi dirywio (ar >75% o hyder)

Cyrff dŵr	Nifer y cyrff dŵr	% y cyrff dŵr
Statws ecolegol dŵr wyneb	16	5%
Statws cemegol dŵr wyneb	3	1%
Statws meintiol dŵr daear	0	0%
Statws cemegol dŵr daear	0	0%

Yn rhan Cymru o'r Ardal Basn Afon Hafren mae cyfanswm o 5 o gyrff dŵr wedi dirywio mewn statws dosbarthu ar y cyfan ers 2009.

Rhesymau dros Ddirywiad

Mae'r rhesymau dros y dirywiadau a amlinellir yn nhabl 44 uchod yn cael eu crynhoi yn nhabl 45 isod. Fe wnaeth cyfanswm o 25 elfen ddirywio dros 19 o gyrff dŵr.

Tabl 45. Cyrff dŵr sydd wedi dirywio yn eu statws dosbarthiad o waelodlin 2009.

Enw'r corff dŵr	ID corff dŵr	Rheswm dros ddirywiad	Elfen yr effeithiwyd arno	Mesur gofynnol
Afon Banwy - cydlifo Afon Gam i Afon Efyrnwy	GB109054049850	Gostyngiad yn nifer y safleoedd a ddefnyddir i ddosbarthu.	Pysgod	Safle sy'n weddill yn gymedrol ar sail arolwg 2009 er gwaethaf y ffaith bod 103 o eogiaid yn bresennol. Dyfarniad arbenigol yw nad oes angen mesurau.
Tirabad Dulas - tarddle i gydlifo ag Afon Irfon	GB109055036690	Amau pwysau gwasgaredig a tharddle mwynglawdd metel yn bresennol felly tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Sinc Copr	Adolygu methiannau metel yn y lle cyntaf gan ddefnyddio offeryn dosbarthu cylch 2 newydd.
Afon Irfon - cydlifo â Tirabad Dulas i gydlifo ag Afon Gwy	GB109055037090	Ffosffad: anhysbys, methiant newydd. Sinc: Amau pwysau gwasgaredig a tharddle mwynglawdd metel yn bresennol felly tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Ffosffad Sinc	Ffosffad: ymchwiliad newydd. Sinc: Adolygu methiannau metel yn y lle cyntaf gan ddefnyddio offeryn dosbarthu cylch 2 newydd.
Nant Gilwern - tarddle i gydlifo ag Afon Arwy	GB109055041830	Rhwystrau sy'n bodoli yn barod yn atal mudo a'r ffaith bod eogiaid yn debygol o fod wedi'u stocio yn flaenorol.	Pysgod	Hwylusfa rhwystrau, gwella cynefin a mesurau llygredd gwledig gwasgaredig
Afon Cammarch - tarddle i gydlifo ag Afon Irfon	GB109055041880	Amau pwysau gwasgaredig a tharddle mwynglawdd metel yn bresennol felly tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Copr Sinc	Adolygu methiannau metel yn y lle cyntaf gan ddefnyddio offeryn dosbarthu cylch 2 newydd.
Afon Garth Dulas - tarddle i gydlifo ag Afon Irfon	GB109055041890	Amau pwysau gwasgaredig a tharddle mwynglawdd metel yn bresennol felly tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Sinc	Adolygu methiannau metel yn y lle cyntaf gan ddefnyddio offeryn dosbarthu cylch 2 newydd.

Nant Norton - tarddle i gydlifo ag Afon Lugg	GB109055042040	Pysgod: Wedi pasio yn arolwg 2003, wedi dirywio ers hynny, union reswm yn anhysbys ond pwysau gan Amonia STW sy'n bodoli eisoes a rhwystrau sy'n bodoli eisoes i lawr yr afon. Amonia: STW yn bodoli eisoes, dim unrhyw newidiadau hysbys, tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Amonia Pysgod	Hwylusfa rhwystr yng nghyrrff dŵr i lawr yr afon a ffynhonnell STW.
Afon Chwefru - tarddle i gydlifo ag Afon Irfon	GB109055042190	Ffosffad: anhysbys, methiant newydd.	Sinc Ffosffad	Ffosffad: ymchwiliad newydd.
		Sinc: Amau pwysau gwasgaredig a tharddle mwynglawdd metel yn bresennol felly tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.		Sinc: Adolygu methiannau metel yn y lle cyntaf gan ddefnyddio offeryn dosbarthu cylch 2 newydd.
Afon Gwy - cydlifo i gydlifo ag Afon Marteg i gydlifo ag Afon Elan	GB109055042280	Anhysbys, methiant newydd.	Infertebratau	Ymchwiliad newydd.
Afon Tarenig - tarddle i gydlifo ag Afon Gwy	GB109055042350	Anhysbys, methiant newydd.	Ffosffad	Ymchwiliad newydd.
Afon Ebwy - cydlifo ag Afon Ebwy Fach i Faes-glas	GB109056026910	"Sylwedd gwenwynig, bio gronnol, parhaus a hollbresennol (uPBT). Tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Cyfansoddion Tribiwtyltin	Nid yw adnabod tarddle lleol yn ymarferol. Mesurau wedi'u cymryd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.
Nant Menasgin - tarddle i gydlifo ag Afon Wysg	GB109056033010	Anhysbys, methiant newydd.	Infertebratau	Ymchwiliad newydd.
Afon Crai - tarddle i gydlifo ag Afon Wysg	GB109056033080	Sinc: Amau pwysau gwasgaredig a tharddle mwynglawdd metel yn bresennol felly tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Sinc	Adolygu methiannau metel yn y lle cyntaf gan ddefnyddio offeryn dosbarthu cylch 2 newydd.

Afon Elai - cydlifo â Nant Clun i Allot Gardens, Elai	GB109057027260	<p>Infertebratau: Digwyddiadau llygredd, deunyddiau organig, tarddle heb ei bennu.</p> <p>Tribiwtyltin: "Sylwedd gwenwynig, bio gronnol, parhaus a hollbresennol (uPBT). Tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.</p>	Infertebratau Cyfansoddion Tribiwtyltin	<p>Infertebratau: Methu mynd i'r afael â'r brif ffynhonnell oherwydd nad oedd wedi'i hadnabod adeg y digwyddiadau. Gallu cynnal ymchwiliadau WQ yn y corff dŵr a chael monitro hyd digwyddiad cwmni dŵr ar ollyngiadau ysbeidiol.</p> <p>Tribiwtyltin: Nid oedd adnabod ffynhonnell leol yn ymarferol. Mesurau wedi'u cymryd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.</p>
Afon Taf - cydlifo ag Afon Rhondda i Stryd y Castell	GB109057027270	"Sylwedd gwenwynig, bio gronnol, parhaus a hollbresennol (uPBT). Tybio canlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Cyfansoddion Tribiwtyltin	Nid oedd adnabod ffynhonnell leol yn ymarferol. Mesurau wedi'u cymryd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.
Taf Fechan - tarddle i gydlifo ag Afon Taf Fawr	GB109057033160	Da 2014, Cymedrol 2015. Wedi'i seilio ar yr un 4 safle, un safle newydd arolwg 2014 yn dangos gostyngiad mewn eogiaid o 7 i 0 (niferoedd brithyll yn sefydlog ar 25/26). Rhwystrau yn bodoli'n barod yn hysbys felly tybio mai dyna'r rheswm.	Pysgod	Hwylusfa rhwystr yn ofynnol ynghyd â gwella cynefin
Cronfa Ddŵr Claerwen	GB30938427	Dim gollyngiadau wedi'u caniatáu yn y corff dŵr felly materion rheolaeth tir gwledig yn debygol. Anhysbys os oes materion newydd neu ganlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Cyfanswm Ffosfforws	Ymchwiliad Ardal Warchoddedig Yfed Dŵr.
Cronfa Ddŵr Talybont	GB30940365	Diffyg gollyngiadau i fyny'r afon felly materion rheoli tir gwledig yn debygol. Anhysbys os oes materion newydd neu ganlyniad dirywiad o amrywiant mewn samplau ar hap.	Cyfanswm Ffosfforws	Ymchwiliad Ardal Warchoddedig Yfed Dŵr.

Trwy gydol y cylch cyntaf rydym wedi cynyddu ein dealltwriaeth o'r cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Hafren. Rhan o wella'r wybodaeth hon yw monitro gwell er mwyn sicrhau data gwirioneddol. Nid oedd gan rai cyrff dŵr unrhyw ddata yn 2009 felly roedd y waelodlin wedi'i seilio ar ddata o gyrrff dŵr tebyg.

Ble y mae dirywiad mewn statws yn digwydd, rhaid adnabod yr achos a sefydlu mesurau i adfer y corff dŵr i'w statws blaenorol cyn gynted â phosibl. Mae'r cyrff dŵr a restrir yn nhabl 45 uchod wedi dirywio yn ei ddosbarthiad elfen rhwng 2009 a 2015 am y rhesymau a grybwyllir uchod.

O dan rai amgylchiadau ac amgylchiadau penodol caniateir dirywiad mewn statws. Mae gwyrddodaeth bellach i'w chael yn **Atodiad Trosolwg RBMP**. Nid oes unrhyw achosion sy'n bodloni'r gofynion hyn wedi'u hadnabod yn yr Ardal Basn Afon hon.

5.4 Cynnydd wrth gyflawni amcanion cylch cyntaf

Mae llawer o welliannau wedi'u cynnal yn ychwanegol at y mesurau hyn gan lawer o sefydliadau ac unigolion. Yn 2009 fe wnaeth 37% o gyrrff dŵr yn adran Cymru Ardal Basn Afon Hafren gyflawni statws da neu well. Mae canlyniadau dosbarthiad 2015 yn nodi bod 43% o'r holl gyrrff dŵr bellach yn cyflawni statws da neu well.

Er bod llawer o'r mesurau a gwblhawyd yn ystod y 6 blynedd diwethaf yn darparu buddion i'r amgylchedd lleol, gwelliant cyfyngedig sydd wedi bod yn nifer y cyrff dŵr ar statws da. Serch hynny, yn ystod y cyfnod hwnnw, fe wnaeth 179 o elfennau corff dŵr wella⁶ gan un dosbarth neu'n fwy.

Tabl 46. Cymharu gaelodlin 2009 gyda chanlyniadau rhagamcanol a gwirioneddol 2015

Nifer y cyrff dŵr ar statws da neu well	2009	2015 rhagamcanol	2015 gwirioneddol
Statws ecolegol dŵr wyneb	37%	49%	43%
Statws cemegol dŵr wyneb	6%	6%	12%
Statws meintiol dŵr daear	100%	100%	100%
Statws cemegol dŵr daear	78%	78%	67%
Statws cyffredinol	37%	49%	43%

Statws cemegol: Yn 2009 roedd 6% o gyrrff dŵr ar statws da, 3% wedi methu a 91% heb eu hasesu gan nad oeddynt wrth risg. Yn 2015 roedd 12% ar statws da, 5% wedi methu a 84% heb eu hasesu oherwydd nad oeddynt wrth risg. Serch hynny, er ei bod hi'n ymddangos bod cynnydd o 6% yn y cyrff dŵr ar statws da a hefyd gan 2% yn methu y rheswm dros hyn yw bod 21 o gyrrff dŵr wedi'u hasesu am eu statws cemegol yn nosbarthiad 2015. Gan hynny mae'r canlyniadau yn adlewyrchu nifer cynyddol y cyrff dŵr sydd wedi'u monitro yn hytrach na gwelliant gwirioneddol yn statws cemegol cyffredinol; mae gwyrddodaeth bellach i'w chael yn adran 5.3.1 ffigur 12.

⁶ Sylwer Mae 'Elfennau corff dŵr' yn cynnwys elfennau ecolegol (biolegol, ffisio-gemegol, sylweddau eraill ac elfennau llygrydd penodol ac eithrio BOD ac Ocsigen Tawdd mewn camlesi) a chemegol (Llygryddion Eraill, Sylweddau Blaenoriaeth a Sylweddau Peryglus â Blaenoriaeth) mewn dyfroedd wyneb yn unig ac elfennau meintiol a chemegol (GW) ar gyfer cyrff dŵr daear yn unig. Nid yw'n cynnwys elfennau ategol. Elfennau wedi'u hasesu yn unig.


Mae gwelliant mewn statws wedi'i gyfyngu gan ddealltwriaeth gyfredol o bwysau ar yr amgylchedd dŵr, eu ffynonellau, y camau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hwy ynghyd â'r adnoddau i gyflwyno'r rhaglen (yn bobl a chyllideb). Yn ychwanegol, mae rheolau 'un allan y cyfan allan' dosbarthiad WFD yn gallu arwain at fethiant un elfen sy'n cael ei fonitro i yrru'r statws cyffredinol.


5.4.1 Statws dosbarthiad corff dŵr cyffredinol ar gyfer rhan Cymru o'r Hafren

Yn 2009 roedd 12% o'r holl gyrff dŵr mewn cyflwr gwael, roedd 50% mewn cyflwr cymedrol a 37% mewn cyflwr da. Ers hynny, mae llawer o welliannau wedi'u gwneud o ran monitro a chasglu ac asesu data. Er enghraifft, nid yw nifer o gyrff dŵr bellach yn methu bodloni'r safonau gofynnol oherwydd rhai o'r cemegion sy'n llygru fwyaf (sylwedddau blaenoriaeth).

Dengys dosbarthiad 2015 bod canran y gyrff dŵr sy'n cyflawni statws da neu well wedi cynyddu i 43%. Gellir gweld yn ffigur 10 isod bod nifer y gyrff dŵr ar statws gwael wedi gostwng o 12% i 8% gyda chynnydd canlyniadol yn nifer y gyrff dŵr ar statws cymedrol. Disgwyliwn weld gwelliannau pellach wrth i'r amgylchedd ymateb, gan wireddu buddion y camau.

Ffigur 10. Cymhariaeth ganrannol o gyfanswm nifer cyffredinol y gyrff dŵr yn rhan Cymru Ardal Basn Afon Hafren.





Mae peth o'r newid hwn yn adlewyrchu nifer y safleoedd sydd wedi'u monitro gan raglen fonitro WFD. Er 2009, er mwyn llanw'r bylchau yn ein dealltwriaeth, rydym wedi cynyddu ein monitro i ddeall yn well y pwysau ar yr amgylchedd dŵr, yn enwedig o fewn rhai cyrff dŵr aberol ac arfordirol. Gan hynny mae llawer o'r newid mewn data yn nodi gwell dealltwriaeth o'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd yn hytrach na newid gwirioneddol mewn ansawdd. Bydd dirywiad ymddangosiadol yn parhau i gael ei ymchwilio er mwyn deall a yw o ganlyniad i newid gwirioneddol yn ansawdd yr amgylchedd neu'r rhesymau a esbonnir uchod.

Dyfroedd wyneb


Yn y cylch cyntaf mae 293 o gyrff dŵr wyneb yn adran Cymru Ardal Basn Afon Hafren, gan gynnwys afonydd, camlesi, llynnoedd a thri aber.

Ar gyfer dyfroedd wyneb, mae statws da yn ddatganiad o 'statws cyffredinol', a chanddo gydran ecolegol a chemegol. Mesurir statws ecolegol ar raddfa uchel, da, cymedrol, gwael neu ddrwg. Mesurir statws cemegol yn dda neu wedi methu. Mae gwybodaeth bellach ar sut y mae statws dosbarthu yn cael ei gyfrifo yn **Atodiad Trosolwg RBMP**.


Dosbarthiad ecolegol

Mae iechyd cyrff dŵr yn adran Cymru o Ardal Basn Afon Hafren wedi gwella ers cyhoeddi'r cynllun rheoli basn afon cyntaf. Yn 2009 fe wnaeth 37% o gyrff dŵr wyneb yng Nghymru gyflawni statws ecolegol da neu well. Fe wnaethom ragweld y byddai hyn yn codi i 49% erbyn 2015. Mae canlyniadau dosbarthu 2015 yn nodi bod 43% o gyrff dŵr wyneb wedi cyflawni statws da neu well. Mae gwelliant mewn statws wedi'i gyfyngu gan ddealltwriaeth gyfredol o bwysau ar yr amgylchedd dŵr, eu ffynonellau, a'r camau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â hwy.

Ffigur 11. Cymhariaeth ganrannol rhwng dosbarthiad ecolegol ar gyfer dŵr wyneb rhwng 2009 a 2015.



Ffigur 12. Cymharu dosbarthiad cemegol rhwng 2009 a 2015



Dosbarthiad cemegol ac adrodd

Mae monitro am gemegion wedi'i seilio ar y rheini sy'n cael eu gollwng mewn symiau sylweddol ac ar leoliadau sy'n cael eu hystyried wrth risg o fethu amcanion. Mae dros ddwywaith nifer y cyrff dŵr wedi'u hadrodd yn 2015 i'r rhai oedd yn 2009, serch hynny mae cyfran y cyrff dŵr sy'n methu, yn fras, wedi parhau yn debyg. Mae'r cemegion sy'n achosi'r methiannau mwyaf yn perthyn i ollyngiadau mwyngloddiau segur.

Cyrff dŵr daear

Yn ystod y cylch cyntaf mae 9 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn ddŵr daear yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren. Mae statws cyrff dŵr daear yn cael ei asesu yn ôl y statws meintiol a'r statws cemegol.

Statws meintiol

Mae pob un o'r naw corff dŵr daear wedi parhau ar statws meintiol da yn 2009 a 2015.

Statws cemegol

O blith y naw o gyrff dŵr daear yn 2009 roedd saith ar statws cemegol da o'u cymharu â chwech yn 2015. Mae hyn yn golygu bod tri ar statws gwael o'u cymharu â dau yn 2009. Mae'r cynnydd yn nifer y cyrff dŵr daear ar statws gwael a'r dirywiad ymddangosiadol yn ansawdd dŵr daear o ganlyniad i ymchwiliadau dŵr wyneb ychwanegol yn cadarnhau'r cyswllt rhwng gollyngiadau dyfroedd mwyngloddiau wedi'u halogi (dŵr daear) i ddyfroedd wyneb cyfagos gan arwain at ansawdd dŵr gwael.

Dangosir crynodeb yn nhabl 47.

Tabl 47. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr daear a aseswyd a'u statws yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Statws Meintiol				Statws Cemegol			
	Gwael		Da		Gwael		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Dŵr daear	0	0	9	9	2	3	7	6

I weld yr holl rwydweithiau monitro, ewch i **Arsylwi Dyfroedd Cymru** i weld y mapiau rhyngweithiol.

5.4.2 Canlyniadau Dosbarthiad Ecolegol ar gyfer Mathau o Gyrff Dŵr

Afonydd

Yn y cylch cyntaf mae 251 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn afonydd, gan gynnwys camlesi a throsglwyddiadau dŵr wyneb yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren. Mae ugain o'r rhain wedi'u dynodi yn artiffisial a 27 yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol. Dangosir crynodeb yn nhabl 48.

Tabl 48. Crynodeb o gyrff dŵr afon yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren

Categori corff dŵr	Naturiol	Artiffisial	A addaswyd yn sylweddol	Cyfanswm
Afon	204	8	27	239
Camlesi	0	7	0	7
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	5	0	5
Cyfanswm	204	20	27	251

Yn 2009 cafodd 87 o gyrff dŵr afon eu dosbarthu â statws ecolegol da yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren. Yn 2015 mae hyn wedi'i gynyddu gan 25 o gyrff dŵr i 112 sydd gyfwerth â chynnydd o 10% (o 35 i 45%). Dangosir crynodeb yn nhabl 49.

Tabl 49. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr afon a aseswyd a'u statws ecolegol yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Heb ei Asesu
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2015
Afon	2	2	31	20	127	113	79	101	3
Camlas	0	0	0	0	2	1	5	6	
Trosglwyddiadau dŵr wyneb	0	0	0	0	0	0	5	5	3
Y Cyfanswm	2	2	31	20	129	114	89	112	

Yn RBMP 2009, nodwyd ar gyfer afonydd, sef mwyafrif y cyrff dŵr yn yr Ardal Basn Afon, y prif elfennau sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw pysgod, llygryddion penodol a ffosffad. Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw pysgod, llygryddion penodol a ffytobenthos.

Er bod gennym ddealltwriaeth llawer yn well o amgylchedd dŵr Cymru a'r pwysau sy'n gweithredu arno, rydym dal angen tystiolaeth bellach er mwyn deall yn llawn sut i reoli'r pwysau hwn er mwyn caniatáu defnydd cynaliadwy ar ein dyfroedd a sicrhau dyfodol diogel ar gyfer yr economi a bioamrywiaeth yn lleol.

Llynnoedd

Yn y cylch cyntaf, mae 39 o gyrff dŵr wedi'u dosbarthu yn llynnoedd yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren. Mae un wedi'i ddynodi yn gorff Dŵr a Addaswyd yn Artiffisial a 34 yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol.

Yn 2009 roedd 19 o gyrff dŵr llyn wedi'u dosbarthu yn statws ecolegol da yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren. Yn 2015 gostyngodd hyn gan 6 o gyrff dŵr i 13 sydd gyfwerth â gostyngiad o 16% (o 49% i 33%). Serch hynny, yn 2009 fe wnaethom adrodd ar gyfer llawer o aberoedd, arfordiroedd a llynnoedd y byddai'n anhebygol y gellid cyflawni

gwelliant yn nifer y cyrff dŵr ar statws/potensial 'da' erbyn 2015. Dim ond yn ddiweddar yn 2009 yr oedd yr offer biolegol a data monitro a oedd yn ofynnol i ddsbarthu'r mathau hyn o gyrff dŵr wedi'u datblygu. Gan hynny ar gyfer llawer o gyrff dŵr ychydig iawn, neu ddim o gwbl, o wybodaeth fonitro oedd ar gael ac roedd dosbarthiad wedi'i seilio ar naill ai gwybodaeth fodelu neu ddyfarniad arbenigol. Mae ein hymchwiliadau yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf wedi helpu i gynyddu ein gwybodaeth am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r cyrff dŵr hyn a sut y mae eu bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Serch hynny, mae llawer o'r cyrff dŵr hyn yn gymhleth iawn ac rydym angen tystiolaeth bellach i ddeall nid yn unig y pwysau ond hefyd sut i ddelio'n ddigonol â hwy mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod modd i'n heconomi a'n hamgylchedd dŵr ffynnu a darparu amgylchedd diogel, glân a bioamrywiol i bawb. Dangosir crynodeb yn nhabl 50.

Tabl 50. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr llyn a aseswyd a'u statws ecolegol yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren yn 2009 a 2015

Categori corff dŵr	Gwael		Cymedrol		Da	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Llynnoedd	2	2	18	24	19	13

Yn RBMP 2009 nodwyd ar gyfer llynnoedd mai'r prif elfennau a oedd yn nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw cyfanswm ffosforws, llygryddion penodol a chironomidau (CPET). Y prif elfennau yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw cyfanswm ffosforws, macroffytâu a blodau ffytoplanton.

Yn ystod yr 20fed ganrif, achosodd glaw asid yn sgil nwyon asid a allyrrwyd gan ddiwydiant trwm a gorsafoedd pŵer â than glo asideiddio difrifol i lawer o'n llynnoedd a'n nentydd ucheldir. Mae rheoliadau llygredd aer wedi gostwng yn llwyddiannus ar swm y dyddodiad asid i lefelau llawer yn is, ond mae'r amgylchedd cemegol wedi bod yn araf wrth adfer, ac mae angen i anifeiliaid a phlanhigion sensitif i asid ailgytrefu dyfroedd a oedd wedi'u llygru o'r blaen. Serch hynny, mae data monitro yn nodi bod llawer o'n dyfroedd ucheldir sensitif i asid bellach yn dangos tueddiadau gwella clir.

Mae llawer o'n llynnoedd wedi'u haddasu'n sylweddol a chanddynt bwysau yn sgil defnyddiau hanesyddol. Mae canfod ffyrdd o liniaru ar gyfer yr effeithiau hyn yn heriol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'n rhanddeiliaid, yn ymdrechu'n barhaus i ganfod datrysiadau arloesol newydd i'r materion hyn i greu'r cydbwysedd cywir er mwyn darparu dŵr yfed glân, hamdden a bioamrywiaeth diogel.

Cyrff Dŵr Aberol (trawsnewidiol) ac Arfordirol

Mae 3 o gyrff dŵr wedi'u dosbarth yn rhai arfordirol neu aberol yn rhan Cymru o'r Hafren. Nid oes un o'r rhain wedi'u dynodi yn artiffisial a dau wedi'u dynodi yn gyrff dŵr a addaswyd yn sylweddol.

Adroddwyd bod y tri ar statws ecolegol cymedrol yn 2009 ac maen nhw'n parhau yn gymedrol yn 2015. Yng nghynllun basn afon 2009 fe wnaethom adrodd ar gyfer llawer o ddyfroedd aberol ac arfordirol ei bod hi'n anhebygol y byddai modd cyflawni gwelliant yn nifer y cyrff dŵr ar statws/potensial 'da' erbyn 2015. Dim ond yn ddiweddar y mae'r offer

biolegol a'r data monitro sydd eu hangen i ddsbarthu'r mathau hyn o gyrff dŵr wedi'u datblygu. Cyfyngedig yw'r wybodaeth sydd ar gael am y pwysau sy'n effeithio ar lawer o'r cyrff dŵr hyn a sut y mae'u bioleg yn ymateb i newidiadau yn y pwysau hwn. Nid oes dirywiad pellach wedi bod yng nghyrrff dŵr aberol ac arfordirol yng Nghymru, serch hynny, rydym wedi cwblhau ymchwiliadau i elfennau nad ydynt wedi cyflawni statws da ac wedi sefydlu mesurau ble fo'n briodol yn y dalgylch ehangach.

Tabl 51. Crynodeb o nifer y cyrff dŵr arfordirol ac aberol a aseswyd a'u statws yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren yn 2009 a 2015

Categori Corff Dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Arfordirol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Aberol	0	0	0	0	3	3	0	0	0	0
Cyfanswm	0	0	0	0	3	3	0	0	0	0

Yn RBMP 2009 nodwyd ar gyfer cyrff dŵr arfordirol ac aberol y prif elfennau a oedd yn nodi nad oedd statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni oedd nitrogen anorganig tawdd. Y brif elfen yn nosbarthiad 2015 sy'n nodi nad yw statws ecolegol da neu botensial yn cael ei gyflawni yw mesurau lliniaru ac elfennau biolegol.

Astudiaeth Achos – Gwella pysgodfeydd yn nalgylch Ebwy

- Mae gwelliannau sylweddol wedi bod yn y dŵr serch hynny dim ond cymedrol yw'r statws o hyd oherwydd ansawdd ei boblogaethau pysgod, yn bennaf o ganlyniad i rwystrau mudo a phwysau ychwanegol.
- Yn 2012 -13 trwy'r Prosiect Eogiaid at Yfory mae nifer o goredau wedi'u tynnu neu'u gwella a arferai fod yn gaeedig i fudo pysgod ar y Sirhywi, prif lednant yr Ebwy ac ar y brif afon ei hun.
- Mae cynlluniau pellach i wella symudiad wrth 4 rhwystr mawr ar Ebwy Fach, gydag adeiladu ysgolion pysgod; wrthi'n cael eu paratoi. Er mwyn ategu at hyn rydym wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru, Groundwork Caerffili a KWT i gynnal gwelliannau yng nghynefin afon, gwaith coed torlannol, wal cynnal glannau, rheoli chwyn goresgynnol, ffensio a gosod cewyll graean a chyflwyno graen i greu gwelyau silio.
- Roedd Cored Gibbs ar y Sirhywi yn gored 3m o uchder a dynnwyd ac ailraddiwyd y sianel afon. Mae gennym dystiolaeth o eogiaid yn silio i fyny'r afon o'r safle hwn yng ngaeaf 2013 a silod mân eogiaid wedi'u canfod mewn arolygon a gynhaliwyd yn yr haf 2014.

Cyn

Ar ôl



5.5 Cydymffurfiad Ardal Warchoddedig

Mae'r amgylchedd dŵr yn cael ei werthfawrogi'n arbennig o fewn llawer o ardaloedd. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt neu rywogaethau prin, dyfroedd ymdrochi ac ardaloedd ble y mae dŵr yfed yn cael ei dynnu. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi yn 'Ardaloedd Gwarchoddedig'. Mae'r rhain yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni'u hamcanion ac yn amddiffyn y buddion maen nhw'n eu darparu.

Rhaid i Ardaloedd Gwarchoddedig fodloni safonau sy'n berthnasol i'w defnydd penodol. Yn aml mae'r rhain yn llymach na'r safonau a ddefnyddir i asesu eu statws ecolegol neu gemegol o dan WFD. Bydd cyflwyno camau yn ystod y cylch cyntaf a ddisgrifir uchod hefyd o fudd i'r Ardaloedd Gwarchoddedig wrth gyflawni cydymffurfiad.

Ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed

Arolygiaeth Dŵr Yfed yw'r awdurdod cymwys ar gyfer y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed. Maen nhw'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi manylion cydymffurfiad â gofynion ansawdd dŵr y Gyfarwyddeb.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu cysylltiedig ar gyfer yr holl ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed perthnasol i reoli risg o ansawdd dŵr yn dirywio.

Wrth i fwy o samplau cemegol gael eu tynnu o afonydd, llynnoedd a dŵr daear ac echdyniadau newydd gael eu cyflwyno, mae nifer yr ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed sydd wedi'u dosbarthu wrth risg o ddirywiad ansawdd dŵr neu statws cemegol gwael (ar gyfer dŵr daear yn unig) wedi cynyddu. Gallai'r newid hwn, fel y tynnir sylw ato gan ddealltwriaeth well o'r amgylchedd dŵr, fod o ganlyniad i:

- echdyniadau newydd yn cael eu datblygu neu'u hadnabod
- dirywiadau gwirioneddol yn ansawdd dŵr
- newidiadau yn lleoliad y monitro felly mae dylanwadau newydd neu wahanol yn cael eu hadnabod
- data samplu ychwanegol yn cael ei ddarparu gan yr echdynnwr
- nifer y samplau yn cynyddu gan ddarparu mwy o dystiolaeth o ddirywiad
- risgiau wedi'u hadnabod yn anghywir yn flaenorol
- risgiau newydd yn ymddangos nad oeddynt yn cael eu monitro'n flaenorol

Mae mesurau, megis darparu cyngor ac arweiniad i randdeiliaid mewn dalgylchoedd, grantiau cyfalaf ar gyfer gwelliannau seilwaith (er enghraifft bio-welyau) a thaliad ar gyfer gwasanaethau ecosystem wedi'u defnyddio i amddiffyn ansawdd dŵr. Cyflwynir y waelodlin ar gyfer 2015 yng **Nghrynodeb RBMP**.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (pysgod dŵr croyw)

Diddymwyd y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw ym mis Rhagfyr 2013. Daeth effaith yr amcanion amgylcheddol ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig pysgod dŵr croyw i ben o'r

dyddiad hwnnw. Darperir lefel gyfwerth o amddiffyniad gan yr amcanion corff dŵr yng Nghrynodeb RBMP.

Rhywogaethau arwyddocaol yn economaidd (dyfroedd pysgod cregyn)

Er 2013 mae'r gofynion ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Pysgod Cregyn (SWPAau) wedi'u trosglwyddo i'r WFD. Serch hynny, nid oes unrhyw SWPAau yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren.

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Cyflwynodd y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig amcanion ansawdd dŵr newydd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig dŵr ymdrochi o 2015. 2015 yw blwyddyn gyntaf y Gyfarwyddeb newydd sy'n gosod safonau tynnach ar ddosbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi sydd wedi'u hanelu at gyflawni safonau uwch na Chyfarwyddeb y gorffennol. Bellach mae gan safonau dargedau ansawdd dŵr tynnach i'w cyflawni, mae'r safonau newydd tua dwywaith mor llym â'r rhai blaenorol. Nid oes unrhyw ddyfroedd hamdden neu ymdrochi yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren.

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr

Yng Nghymru adroddir ar gyflwr nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar dros gylchoedd 6 blynedd. Mae'r ymdriniaeth adrodd hon yn gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr. Yn Lloegr adroddir ar gyflwr fesul uned ac yng Nghymru ar sail nodweddion cynefin neu rywogaeth dynodedig. Yn ychwanegol ceir mân wahaniaeth yn rhai o'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer adrodd. Mae tabl 52 yn crynhoi'r data ar gyfer adran Cymru o Ardal Basn Afon Hafren ar sail nifer y nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ym mhob categori. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'i ddefnyddio. Mae peth bylchau yn y data oherwydd y gwahaniaethau yn y gofynion y mae statws rhai o nodweddion dynodedig yn cael eu hadrodd. Er enghraifft, adroddir ar nodweddion Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar lefel DU ac nid ar lefel safle. Felly yn nhabl 13 mae cyflwr nodweddion unigol yn cael eu hystyried yn anhysbys. Hefyd, mae ffin rhai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nag un Ardal Basn Afon. Yn yr achosion hyn mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig perthnasol wedi'u hystyried ym mhob Ardal Basn Afon ble mae'r ffiniau yn gorgyffwrdd.

Tabl 52. Cyflwr cyfredol ac amcanion ardaloedd gwarchoddedig dŵr Natura 2000 yng Nghymru:

Cyflwr cyfredol Nifer y cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig Natura 2000	
Ffafriol: Wedi'u cynnal	4
Ffafriol: Wedi'u hadfer	4
Ffafriol: Di-ddosbarth	10
Anffafriol: Yn gwella	3
Anffafriol: Dim newid	4
Anffafriol: Yn dirywio	1
Anffafriol: Di-ddosbarth	33
Wedi dinistrio: Yn rhannol/ Yn llwyr	0
Heb eu hasesu	24
Cyfanswm	83

* sylwer bod hyn yn cynnwys Afon Gwy (Cymru) yn unig

Mae Tabl 53 yn rhoi gwybodaeth ar amcan nifer y camau a gwblhawyd yng nghylch cyntaf RBMP a gasglwyd yng Nghronfa Data Camau Safleoedd Arbennig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Cofnodir camau ar lefel Uned Reoli a gall rhai camau effeithio ar fwy nac un uned. Dylid nodi y gall ffin N2K gorgyffwrdd mwy nac un Ardal Basn Afon ac maen nhw wedi'u cynnwys ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Nid yw'r tabl yn cynnwys y mesurau ychwanegol o dan WFD a gynhaliwyd ar y safleoedd.

Tabl 53. Camau a gymerwyd yn Ardaloedd Gwarchoddedig Natura 2000 yn rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren.

Safle Natura 2000	Dynodiad	Nifer y camau a gwblhawyd	Engbreiffiau o'r camau a gwblhawyd	Engbreiffiau o'r sefydliadau a gynhaliodd gamau
2009-2015				
Cwm Cadlan	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	18	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Glan Drostre	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	1	Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Elenydd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	29	Glastir; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Elenydd – Mallaen	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	205	Coetiroedd Gwell i Gymru; Glastir; Rheolaeth Uniongyrchol	Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru; RSPB; Llywodraeth Cymru
Fenn's, Whixall, Bettisfield, Wem a Cadney Mosses	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	13	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Granllyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	6	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Coed Cadw; Cyfoeth Naturiol Cymru
Llyn Syfaddan	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	7	Glastir; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Camlas Trefaldwyn	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	-	-	-

Mynydd Epynt	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	4	Ymchwiliad; Glastir; Newid arfer gweithredol	Ystadau Amddiffyn; Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Rhos Goch	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	8	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Afon Wysg	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	-	-	-
Afon Gwy	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	31	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Sefydliad Gwy ac Wysg; Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Aber Afon Hafren	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig	3	Cytundeb Rheoli; Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru
Môr Hafren	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	3	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; Dŵr Cymru
Coetiroedd Sugar Loaf	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	1	Adolygu cysyniadau	Cyfoeth Naturiol Cymru
Safleoedd Ystlumod Wysg	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig	5	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
Aber Afon Hafren (Cymru)	Ramsar	3	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Dŵr Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru

Meres a Mosses Canolbarth Cyfnod 2 (Cymru)	Ramsar	13	Rheolaeth Uniongyrchol; Ymchwiliad; Cytundeb Rheoli	Cyfoeth Naturiol Cymru
--	--------	----	---	------------------------

6. Adolygu cynnydd cylch cyntaf

Ar ôl adolygu'r canlyniadau yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf mae'n amlwg bod angen i rai o'r gwersi a ddysgwyd gael eu cymhwyso i'r cynlluniau wedi'u diweddarau er mwyn i ni allu cyflawni ein hamcanion hirdymor.

Yn benodol mae'r gwersi a ganlyn wedi'u hadnabod;

Monitro a data

- Angen sicrhau bod rhaglen fonitro effeithlon, wedi'i seilio ar dystiolaeth wedi'i sefydlu sy'n galluogi gwerthuso a dehongli data gan sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd yn y lle cywir.

Mesurau

- Ni ddigwyddodd nifer o'r mesurau gwirfoddol ac roedd cyfrifoldeb dros y mesurau weithiau yn anodd eu pennu. Yn aml y mesurau hyn sy'n cael eu heffeithio gan adnoddau cyfyngedig, yn ariannol ac o ran amser pobl a pherchnogaeth dros y camau. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer llawer o'r mesurau llygredd gwasgaredig sef y materion mwyaf heriol i'w datrys yn aml.
- Mae angen gwell aliniad ar draws sectorau gan sicrhau'r budd mwyaf ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Yn aml iawn mae camau lluosog yn ofynnol i fodloni'r amcanion corff dŵr ac mae hyn yn gofyn am gydweithio ac ymrwymiad ar draws sectorau perthnasol sy'n gyfrifol am gyflwyno camau ac atal dirywiad.
- Mae'n well cyflwyno llawer o'r camau ar raddfa dalgyrch lleol. Roedd y cylch cyntaf yn defnyddio mwy o raddfa Ardal Basn Afon yn gweithio ochr yn ochr â'r Paneli Cyswllt. Er y gall y raddfa hon fod yn effeithiol ar gyfer cynllunio a rhaglennu strategol, gallai ymdriniaeth fwy lleol arwain at welliannau rhagorach.
- Mae prosiectau angen ymdriniaeth fwy cyfannol sy'n cynnig buddion ehangach i'r dalgyrch cyfan.
- Roedd mesurau a restrwyd yn y cynllun cyntaf weithiau wedi'u geirio'n eang iawn a chan hynny yn anodd eu holrhain. Sicrhau bod y rhaglen fesurau ac ymchwiliadau wedi'i diweddarau yn cael ei holrhain a'i hadolygu.

Ardaloedd Gwarchoddedig

- Er bod llawer o'r mesurau a weithredwyd rhwng 2009 a 2015 wedi arwain at welliannau yn yr Ardaloedd Gwarchoddedig, nid yw graddfa'r gwelliannau wedi bod yn ddigon bob amser i sicrhau cydymffurfiaid â'r amcanion. Mae angen ymdriniaeth fwy cyfannol, ar raddfa dalgyrch i fodloni amcanion yr Ardal Warchoddedig.

Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

- Sicrhau bod cymunedau a'r cyhoedd yn gysylltiedig â'r penderfyniadau.
- Codi ymwybyddiaeth o'r camau bychain y gall pobl eu cymryd adref ac yn y gwaith a all wneud gwahaniaeth cyffredinol megis Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy, cynaeafu dŵr glaw a deall effaith y camau ar yr amgylchedd.
- Cysylltu â phartneriaid a all gyfeirio eu haelodau/cwsmeriaid at wybodaeth ar sut i ostwng eu heffaith amgylcheddol.

- Angen sicrhau bod WFD wedi'i integreiddio'n llawn yng ngweithgareddau dyddiol Cyfoeth Naturiol Cymru a'n partneriaid gan gynnwys cyrff Rheoleiddio eraill megis Awdurdodau Lleol.
- Hyrwyddo defnydd ar Arsylwi Dyfroedd Cymru fel offeryn i ddatblygu partneriaethau ac arfer gorau.

Partneriaethau

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i gyflawni amcanion WFD - er bod enghreifftiau da wedi bod yn ystod y cylch cyntaf mae angen sicrhau ein bod yn adeiladu ar y partneriaethau hyn er mwyn uchafu ar welliannau amgylcheddol ehangach gydag adnoddau cyfyngedig.
- Uchafu ar y cyfleoedd o fewn ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys yr arian yr ydym yn ei roi i bartneriaid trwy grantiau, ar gyfer prosiectau a fydd yn cyflwyno nifer o fuddion i'r amgylchedd dŵr.
- Rhannu arfer gorau a gwybodaeth ar yr ariannu sydd ar gael i bartneriaid er mwyn galluogi iddynt uchafu ar ddefnydd ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddenu ffynonellau eraill.
- Datblygu astudiaethau achos sy'n dangos y canlyniadau pendant y mae'r cynlluniau cyntaf wedi'u cyflwyno fel ein bod ni'n glir at beth yr ydym ni'n anelu, pam, ble a beth yw rôl y bobl, er enghraifft, ffermwyr wrth ein helpu i gyrraedd ein nod.

Atodiad

Tabl 54. Ystadegau dosbarthu cyffredinol ar gyfer Cymru

Categori Corff Dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel		Heb ei asesu 2015
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	
Afon	3	3	79	35	626	561	272	376	1	0	6
Camlas	0	0	0	0	3	1	6	8	0	0	0
Trosglwyddiad Dŵr Wyneb	0	0	0	0	0	0	11	11	0	0	0
Llyn	0	0	12	15	62	78	48	29	0	0	0
Arfordirol	1	0	0	1	7	10	16	12	0	1	0
Aberol	0	1	0	0	23	18	8	12	0	0	0
Dŵr Daear	0	0	13	16	0	0	25	22	0	0	0
Y Cyfanswm	4	4	104	67	721	668	386	470	1	1	6

Tabl 55. Ystadegau dosbarthu cyffredinol ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel	
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015
Afon	0	0	10	4	55	56	21	26	0	0
Camlas	0	0	0	0	0	0	1	1	0	0
Trosglwyddiad Dŵr Wyneb	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Llyn	0	0	1	1	11	16	9	4	0	0
Arfordirol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Aberol	0	0	0	0	1	1	8	0	0	0
Dŵr Daear	0	0	2	1	0	0	4	5	0	0
Y Cyfanswm	0	0	13	6	67	73	35	36	0	0

Tabl 56. Ystadegau dosbarthu cyffredinol ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel		Heb ei asesu 2015
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	
Afon	1	1	40	14	451	400	175	250	1	0	3
Camlas	0	0	0	0	0	0	2	2	0	0	0
Trosglwyddiad Dŵr Wyneb	0	0	0	0	0	0	6	6	0	0	0
Llyn	0	0	9	12	33	38	20	12	0	0	0
Arfordirol	1	0	0	1	7	10	16	12	0	1	0
Aberol	0	1	0	0	19	14	8	12	0	0	0
Dŵr Daear	0	0	10	12	0	0	15	13	0	0	0
Y Cyfanswm	2	2	59	39	510	462	242	307	1	1	3

Tabl 57. Ystadegau dosbarthu cyffredinol ar gyfer rhan Cymru o Ardal Basn Afon Hafren

Categori corff dŵr	Drwg		Gwael		Cymedrol		Da		Uchel		Heb ei asesu
	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2009	2015	2015
Afon	2	2	31	20	128	113	78	101	0	0	3
Camlas	0	0	0	0	3	1	4	6	0	0	0
Trosglwyddiad Dŵr Wyneb	0	0	0	0	0	0	5	5	0	0	0
Llyn	0	0	2	2	18	24	19	13	0	0	0
Arfordirol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Aberol	0	0	0	0	3	3	0	0	0	0	0
Dŵr Daear	0	0	2	3	0	0	7	6	0	0	0
Y Cyfanswm	2	2	35	25	152	141	113	131	0	0	3



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd blaenorol Cyfoeth Naturiol Cymru